CYMRAEG 2050

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Adroddiad blynyddol 2022–23

## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2022–23

### Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

### Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg

### Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

### Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2021 i 2026* (2021); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011–2050* (2017)

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48116, ISBN digidol 978-1-83504-738-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **1** |
| **Cyd-destun – Cymraeg 2050** | **3** |
| **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** | **4** |
| **Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg** | **44** |
| **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun** | **56** |
| **Casgliad** | **83** |

## Rhagair y Gweinidog

Dyma gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar ein strategaeth iaith, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar ein cynnydd yn ystod y flwyddyn wrth weithredu *Cymraeg 2050* yng nghyd-destun ein *Rhaglen Waith ar gyfer 2021-26*, ein cytundeb â Phlaid Cymru, a'n hymrwymiadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bu 2022-23 yn flwyddyn brysur arall wrth i ni barhau i ddatblygu polisïau a gweithredu er mwyn bwrw nodau ac amcanion *Cymraeg 2050* er enghraifft:

- Ymgynghori ar Bapur Gwyn ar gynigion ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg.
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd pob awdurdod lleol yn dod yn weithredol.
- Buddsoddi ymhellach mewn darpariaeth trochi hwyr.
- Cyhoeddi *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*.
- Ariannu'r Urdd i ailsefydlu Theatr Ieuenctid.
- Cyhoeddi gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 ac i'r gweithlu addysg.
- Buddsoddi pellach yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Cyflwyno Safonau'r Gymraeg i Reoleiddwyr Iechyd.
- Cyflwyno cynllun *Mwy na geiriau* newydd.
- Cyhoeddi'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*.
- Lansio'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn gyfle delfrydol i ddiolch i'n holl bartneriaid am eu gwaith diflino gydol y flwyddyn hefyd. Maent wedi cydweithio â ni eto eleni mewn amrywiol feysydd ar hyd a lled y wlad i'n cefnogi ar ein taith tua'r miliwn ac i ddyblu defnydd dyddiol o'n hiaith.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd hi'n hyfryd gweld nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb fel ein heisteddfodau a gwyliau bach yn ailsefydlu. Ond fel y dengys yr adroddiad hwn, bydd y broses o adfer yn dilyn y pandemig yn parhau a bydd ei effeithiau'n bellgyrhaeddol mewn rhai meysydd.

Roedd hon yn flwyddyn bwysig hefyd o ran ystadegau gyda'r data cyntaf am y Gymraeg o Gyfrifiad 2021 yn cael eu cyhoeddi ar 6 Rhagfyr 2022. Yn ôl y data, roedd 538,300 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yng Nghymru neu 17.8% o'r boblogaeth – roedd hyn yn ostyngiad ers Cyfrifiad 2011.

Rydym yn manylu ar y data yng nghorff yr adroddiad hwn ond mae'n werth tynnu sylw at ddau faes pwysig sef y cwymp yn nifer y plant 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg (a oedd ar ei uchaf mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg a phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg) a'r newid yn ein cymunedau Cymraeg.

Mae'r data hwn yn ein hatgoffa bod angen cryfhau ein dull o addysgu'r Gymraeg yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd ein Bil Addysg Gymraeg sydd yn yr arfaeth yn allweddol i sicrhau gwell deilliannau iaith i ddysgwyr ym mhob ysgol, gan gynnwys y rhai sydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Y nod yw y bydd pob disgybl, beth bynnag fo'r cyfrwng addysgu, yn dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy’r system addysg statudol ac yn awyddus i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gymuned, yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd.

Roedd yr ail ddirywiad nodedig yn ein cymunedau Cymraeg traddodiadol. Comisiynwyd arolwg ieithyddol-gymdeithasol mawr yn ddiweddar i ddeall yn well beth sydd y tu ôl i'r dirywiad er mwyn i ni allu cyflwyno ymyriadau priodol i wyrdroi'r tueddiad. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi cylch gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a sefydlwyd gennym ym mis Awst 2022.

Mae gennym ni arolygon eraill wrth gwrs sy’n dangos tueddiadau gwahanol o ran nifer y bobl a all siarad Cymraeg. Er enghraifft, dengys yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth bod 906,800 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, neu 29.7% o’r boblogaeth. Rydym yn gweithio gyda’r Swyddfa Ystadegau Gwladol i fynd ar drywydd y gwahaniaethau hyn mewn data ac mae'r canfyddiadau cychwynnol wedi eu cyhoeddi mewn erthygl ystadegol. Bydd dadansoddiad pellach o amrywiol agweddau ar ein data yn parhau i lywio polisi a phenderfyniadau ar draws y Llywodraeth.

Rhaid cofio nad yw’r cyfrifiad yn mesur defnydd iaith. Mae’r niferoedd sy’n defnyddio’n hiaith ym mhob cwr o’r wlad a thu hwnt – boed ar ein meysydd chwaraeon, mewn bob math o gigs neu ar y cyfryngau cymdeithasol – yr un mor bwysig i weledigaeth *Cymraeg 2050* ag yw nifer y siaradwyr. A fyddwn ni ddim am golli golwg ar hynny.

Mae canlyniadau’r cyfrifiad yn rhoi arwydd clir i ni o’r meysydd y mae gofyn i ni ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol. Er nad dyma’r canlyniadau yr oeddem ni’n gobeithio eu rhannu yn yr adroddiad hwn, fe welwch fod gyda ni seilwaith cadarn i adeiladu arni at y dyfodol. Mae yna heriau o’n blaenau yn sicr, ond mae yna awydd clir ymysg gweinidogion, partneriaid addysg, llywodraethau lleol, prif bartneriaid grant a phartneriaid y trydydd sector i fynd i’r afael â nhw gyda’n gilydd. Mae’r adroddiad hwn yn dyst i’r holl gydweithio parod sydd eisoes yn digwydd ar hyd a lled y wlad ac a fydd yn parhau i ddigwydd.

**14 Tachwedd 2023**

**Jeremy Miles AS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

# Cyd-destun – Cymraeg 2050

*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw ein strategaeth iaith Gymraeg. Mae ganddi ddau brif darged sef:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.

- Canran y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i o leiaf 20% erbyn 2050.

Ar ôl pob blwyddyn ariannol, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru (o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) gyhoeddi adroddiad ar sut y cafodd y strategaeth iaith ei rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Mae’r ddogfen hon yn adrodd ar flwyddyn ariannol 2022-23 ac yn cynnwys manylion ar ein cynnydd o dan dair thema strategaeth *Cymraeg 2050*:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

2. Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg

3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cyflwynwyd ail Raglen Waith 5 mlynedd *Cymraeg 2050* (ar gyfer 2021-26) ar ddechrau’r llywodraeth hon. Mae’r adroddiad hwn yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y rhaglen honno, ein hymrwymiadau yn ein *Rhaglen Lywodraethu* a’r *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru.

# Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg


## Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Rydym yn defnyddio'r cyfrifiad er mwyn monitro ein cynnydd tuag at y miliwn. Cafodd Cyfrifiad 2021 ei gynnal ym mis Mawrth 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Cafodd y canlyniadau cychwynnol am y Gymraeg eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022.

Roedd Cyfrifiad 2021 yn nodi bod 538,300 o bobl tair oed neu hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, neu 17.8% o'r boblogaeth. Roedd hyn 1.2 pwynt canran yn is neu 23,700 o bobl yn llai ers Cyfrifiad 2011, lle roedd tua 562,000 o siaradwyr Cymraeg (neu 19.0% o'r boblogaeth).

Mae'r gostyngiad yn nifer a chanran y bobl tair oed neu'n hŷn a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer a chanran y plant a phobl ifanc y nodwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Bu cynnydd bach yn y ganran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y grwpiau oedolion ifanc, gyda gostyngiadau yn y grwpiau hŷn.

**Siart 1: Canran y boblogaeth 3 i 84 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn oedran, 2011 a 2021**




Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2011 a 2021

Gostyngodd canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 ym mhob awdurdod lleol ac eithrio yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu

siarad Cymraeg, o 43.9% yn 2011 i 39.9% yn 2021, sy'n ostyngiad o 4.1 pwynt canran. Yn Sir Gaerfyrddin hefyd y gwelwyd y gostyngiad mwyaf rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011.

Dylid nodi fod Cyfrifiad 2021 wedi'i gynnal yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar 21 Mawrth 2021. Effeithiodd hyn ar y boblogaeth mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, roedd plant wedi bod yn dysgu o bell, a chafodd llawer o gyfleusterau gofal plant ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg, eu cau am gyfnodau estynedig. Ar gyfer y grŵp oedran hwn, mae'n debyg mai rhieni neu warcheidwaid fyddai wedi nodi'r sgiliau Cymraeg ar ran y plant. Mae'n bosibl na fyddai eu hasesiad o sgiliau Cymraeg y plentyn neu'r unigolyn ifanc hwnnw yr un peth â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ei hun. Nid ydym yn gwybod sut effeithiodd y pandemig ar y ffordd yr oedd pobl yn adrodd am eu sgiliau Cymraeg, neu ar eu canfyddiadau o sgiliau Cymraeg pobl eraill.

Fodd bynnag, ers cyhoeddi canlyniadau cychwynnol y Cyfrifiad, mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dadansoddiad pellach o allu'r boblogaeth yn y Gymraeg yn ôl nifer o nodweddion y boblogaeth gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021. Isod, rydym yn manylu ar rai o'r ystadegau hyn fesul nodwedd.

Grŵp ethnig

Rhwng 2011 a 2021, bu cynnydd yn *nifer* y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg a oedd yn perthyn i'r grwpiau ethnig lefel uchel "Grwpiau cymysg neu amlethnig", "Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig", "Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd" a'r grŵp "Arall" o bron i 11,000 yn 2011 i ychydig dros 16,000 yn 2021.

Bu hefyd gynnydd yn y *ganran* sy'n gallu siarad Cymraeg ymysg y boblogaeth a oedd yn perthyn i'r grwpiau ethnig "Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig", "Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd" a'r grŵp "Arall".


Er bod y data yma yn galonogol, rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gan aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol well cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, drwy gydol y cyfnod adrodd, buom yn cyfrannu at waith y Llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei *Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* newydd. Cyhoeddwyd y Cynllun ar 7 Mehefin 2022, ac mae'n cynnwys cyfres o dargedau mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o brofiadau siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol, dysgu ohonynt ac ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol iddynt.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, rydym wedi treulio amser yn gwrando ar leisiau siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac wedi gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnwys yn nhrafodaethau strategol y Llywodraeth. Hefyd, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig

Cymraeg eu hiaith, comisiynwyd digwyddiad panel [Perthyn](), a drefnwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Caerdydd a'r Fro. Rhoddodd y digwyddiad fewnwelediadau gwerthfawr i swyddogion am beth yw profiadau byw siaradwyr Cymraeg ethnig leiafrifol ifanc. Dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Cynhaliwyd sawl cyfarfod o is-grŵp Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd. Parhau wnaeth eu ffocws ar y *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a chynghori swyddogion polisi *Cymraeg 2050* ar y camau gweithredu sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn benodol. Mae'r is-grŵp yn parhau i fod yn fforwm hollbwysig ar gyfer rhannu profiad byw a chynghori'r Llywodraeth ar sut i ymgorffori ymarferiadau gwrth-hiliaeth ar draws strategaeth *Cymraeg 2050* a'n ffyrdd o weithredu. Byddwn yn ehangu ffocws y gwaith dros y flwyddyn ariannol nesaf i gynnwys gwaith yn ymwneud â chynhwysiant yn ehangach, gan gynnwys cynghori ar elfennau o'r *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb LHDTC+* newydd.

**Siart 2: Canran y boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl grŵp ethnig, 2011 a 2021**





Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2011 a 2021

<u>Gwlad enedigol</u>

Yn 2021, roedd 473,060 (22.3%) o'r boblogaeth tair oed neu hŷn a anwyd yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, gostyngiad o 1 pwynt canran ers 2011. Roedd 65,240 (7.3%) o'r boblogaeth tair oed neu hŷn a anwyd y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg, gostyngiad o 0.7 pwynt canran ers 2011.

O blith y boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, bu rhywfaint o gynnydd yn y ganran a anwyd y tu allan i Gymru, o 11.8% yn 2011 i 12.1% yn 2021. Dylid dehongli'r ystadegyn hwn yng nghyd-destun y tueddiadau mwy cyffredinol yn nemograffeg Cymru. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd hefyd yn y gyfran gyffredinol o'r boblogaeth tair oed neu'n hŷn a anwyd tu allan i Gymru, o 28.1% yn 2011 i 29.8% yn 2021, gyda'r mwyafrif wedi eu geni yn Lloegr.

## Siart 3: Canran y boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gwlad enedigol, 2011 a 2021




Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2011 a 2021

Hunaniaeth genedlaethol

Yn 2011, cafodd cwestiwn am hunaniaeth genedlaethol ei gynnwys yn y cyfrifiad am y tro cyntaf. Cafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys unwaith eto yng Nghyfrifiad 2021. Gallai unigolion ddewis un neu sawl hunaniaeth o'r rhestr neu gallent nodi hunaniaeth arall. Mae'n bosibl fod unigolion wedi ateb yn wahanol yn y ddau gyfrifiad.

Yn 2021, roedd canran y siaradwyr Cymraeg ar ei huchaf ymysg y bobl nododd hunaniaeth Gymreig yn unig (24.8%) ac ar ei hisaf ymysg y bobl wnaeth nodi hunaniaeth Seisnig yn unig (4.2%) a Seisnig a Phrydeinig (4.2%).


Yn 2021, o blith yr holl siaradwyr Cymraeg tair oed neu hŷn, roedd 411,190 (76.4%) wedi nodi hunaniaeth Gymreig yn unig, 47,710 (8.9%) wedi nodi hunaniaeth Brydeinig yn unig a 42,960 (8.0%) wedi nodi hunaniaeth Gymreig a Phrydeinig.

Rhwng 2011 a 2021, bu gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ym mhob grŵp hunaniaeth genedlaethol heblaw am y boblogaeth sydd ag "O leiaf

un hunaniaeth o'r DU ac un hunaniaeth heb fod o'r DU", a "Hunaniaeth heb fod o'r DU yn unig".

Yn 2011, y boblogaeth oedd â "Hunaniaeth heb fod o'r DU yn unig" oedd lleiaf tebygol o allu siarad Cymraeg (3.5%). Erbyn 2021, roedd y ganran o siaradwyr Cymraeg ymysg y grŵp hwn wedi cynyddu i 4.4%. Roedd canran y siaradwyr Cymraeg ar ei hisaf ymysg y boblogaeth wnaeth nodi hunaniaeth "Seisnig yn unig" a "Seisnig a Phrydeinig" (4.2% ill dau).

**Siart 4: Canran y boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl hunaniaeth genedlaethol, 2011 a 2021**




Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2011 a 2021

Diwydiant


O blith y boblogaeth 16 oed neu'n hŷn mewn gwaith, mae'r *ganran* o'r boblogaeth hon sy'n gallu siarad Cymraeg ar ei huchaf yn y diwydiant Amaethyddiaeth, Ynni a Dŵr (30.0%), ac ar ei hisaf yn y diwydiant Gweithgynhyrchu (10.4%).

Gallwn hefyd edrych ar y *niferoedd* o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio ymhob diwydiant. Addysg oedd y diwydiant â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011, ond roedd mwy yn gweithio yn y diwydiant Gweithgareddau Iechyd Pobl a Gwaith Cymdeithasol erbyn 2021.

Roedd 6,110 yn fwy o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y diwydiant Gweithgareddau Iechyd Pobl a Gwaith Cymdeithasol yn 2021 o'i gymharu â 2011. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y twf ym maint y gweithlu iechyd dros yr un cyfnod, yn rhannol i ddiwallu'r galw am weithwyr iechyd ychwanegol yn ystod y pandemig.

Roedd dros hanner y boblogaeth 16 oed neu'n hŷn sydd mewn gwaith ac yn gallu siarad Cymraeg yn gweithio mewn un o bedwar diwydiant: Gweithgareddau Iechyd Pobl a Gwaith Cymdeithasol (16.5%), Addysg (15.5%), Masnach Cyfanwerthu, Manwerthu a Moduron (11.6%) neu'r Weinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn (11.0%).

## Siart 5: Nifer y boblogaeth 16 oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl diwydiant, 2011 a 2021





Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2011 a 2021

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol sy'n cael ei ddefnyddio i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ond gan fod yr Arolwg Blynyddol o'r

Boblogaeth yn darparu canlyniadau bob chwarter, mae’n ffynhonnell ddefnyddiol er mwyn edrych ar dueddiadau yng ngallu’r boblogaeth yn y Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

## Siart 6: Nifer y bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, o 2001 i fis Mawrth 2023




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a chyfrifiad y boblogaeth

[Nodyn 1] Newidwyd i gynnal yr arolwg dros y ffôn yn unig.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, felly, roedd 906,800 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, neu 29.7% o’r boblogaeth.

Er bod ffigurau’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, gallwn weld fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn cynyddu’n raddol bob blwyddyn ers mis Mawrth 2010, wedi iddynt ostwng yn raddol o 2001 i 2007. Fe wnaeth nifer y bobl sy’n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ostwng rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2020, cyn cynyddu eto wedi hynny. Fodd bynnag, rhaid trin y cynnydd hwn â gofal gan fod COVID-19 wedi golygu bod rhaid newid y ffordd yr oedd yr arolwg yn cael ei gynnal o ganol mis Mawrth 2020 ymlaen.

Mae ffigurau’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau’r cyfrifiad. Fodd bynnag, dyma’r tro cyntaf i’r cyfrifiad amcangyfrif gostyngiad yn nifer y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg ar yr un pryd

ag y mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif bod nifer cynyddol o bobl yn gallu siarad Cymraeg.

Yn dilyn cyngor y Llywodraeth ynghylch y pandemig, cafodd Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, (yn ogystal â phob astudiaeth wyneb yn wyneb arall sy'n cael eu cynnal gan yr ONS am bobl, teuluoedd ac aelwydydd), ei atal.

O ganol mis Mawrth 2020 ymlaen, cynhaliwyd yr Arolwg Blynyddol dros y ffôn yn unig. Rhaid cydnabod y gall newid y ffordd y caiff yr arolwg ei gynnal effeithio ar y canlyniadau. Drwy gymharu'r rhai a gwblhaodd yr arolwg dros y ffôn yn erbyn y rhai a gwblhaodd yr arolwg wyneb yn wyneb yn y cyfnod cyn mis Mawrth 2020, roedd yn ymddangos bod ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wrth ateb yr arolwg dros y ffôn.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl dweud os yw unrhyw newidiadau diweddar yng ngallu'r boblogaeth yn y Gymraeg o ganlyniad i'r newid yn y ffordd y caiff yr arolwg ei gynnal neu newidiadau gwirioneddol yng ngallu'r boblogaeth yn y Gymraeg. Felly, dylid dehongli'r canlyniadau â gofal.

Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom gyhoeddi cynllun gwaith ar y cyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n manylu ar waith pellach y byddwn yn ymgymryd ag ef i wella ein dealltwriaeth o'r gwahaniaethau hyn.

Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw cysylltu data Cyfrifiad 2021 â data arolygon y Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy'r Gwasanaeth Data Integredig. Bydd y prosiect cysylltu data arloesol hwn, un o'r prosiectau cyntaf i ddefnyddio'r Gwasanaeth Data Integredig, yn ein galluogi i ddysgu mwy am y grwpiau o bobl sy'n ymateb yn wahanol am eu gallu yn y Gymraeg rhwng y cyfrifiad ac arolygon y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac i edrych ar eu nodweddion.

Mae'r cynllun gwaith hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn ceisio deall nid yn unig sut y mae'r ffynonellau data hyn yn wahanol, ond pam. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio pam mae'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data yn newid dros amser drwy ystyried yn fanylach agweddau ar ddulliau arolygu a dyluniad arolygiadau.

Ac yn olaf, ochr yn ochr â'r gwaith sydd eisoes ar y gweill yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar drawsnewid yr Arolwg o'r Llafurlu, bydd yr ONS yn ystyried sut i wella'r ystod o ystadegau sydd ar gael am y Gymraeg ymhellach drwy asesu opsiynau i gasglu gwybodaeth am bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ond sy'n byw y tu allan i Gymru.

# 1. Trosglwyddo’r iaith o fewn y teulu

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i “*greu amodau ffafriol sy’n cefnogi’r broses o gaffael yr iaith a’r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg*”. Mae’n nodi awydd y Llywodraeth i “*weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo’r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno’r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn...*”

Rydym wedi parhau i weithredu’n *Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo’r Gymraeg a’i Defnydd mewn Teuluoedd* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae’r polisi yn canolbwyntio ar:

- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda’u plant nhw yn y dyfodol.
- Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio’r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy’n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda’u plant eu hunain.
- Cefnogi ac annog y defnydd o’r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda’u plant.

Rydym wrthi’n paratoi i dreialu ymyraethau i gyfrannu at weithredu’r amcanion hyn. Mae’r gwaith yn seiliedig ar y gwyddorau ymddygiadol.

Yn ogystal â’r Polisi Trosglwyddo, mae llawer o waith eisoes wedi’i wneud yn y maes yng Nghymru, ac mae’r polisi’n adeiladu ar waith Twf a Cymraeg i Blant.

Rydym yn ariannu cynllun cenedlaethol Cymraeg i Blant i gefnogi rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda’u plant, ac i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Drwy gyfrwng cyfres o sesiynau am ddim i rieni a’u plant, mae rhwydwaith o swyddogion yn parhau i gefnogi teuluoedd i gyflwyno a defnyddio’r Gymraeg gartref, trosglwyddo’r Gymraeg i’w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant.

Mae Cymraeg i Blant yn cael ei ystyried yn gam pwysig ar y daith tuag at addysg Gymraeg gyda nifer o’r awdurdodau lleol yn cydnabod cyfraniad y rhaglen yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).


Mae sesiynau wyneb yn wyneb wedi hen ailddechrau ers COVID-19 ond mae’r cymorth rhithiol yn parhau i fod yn rhan bwysig o’r gefnogaeth y mae Cymraeg i Blant yn ei gynnig. Yn ystod 2022-23, cynhaliwyd 3,922 o sesiynau rhithiol ac wyneb yn wyneb gyda 28,135 o rieni a 28,738 o blant yn cael eu cefnogi.

### Data trosglwyddo iaith

Gallwn ddefnyddio data’r Cyfrifiad i fesur gallu plant 3 i 4 oed i siarad Cymraeg ar sail gallu oedolion y cartref i siarad yr iaith. Mae hyn yn darparu sail bosibl ar gyfer archwilio trosglwyddiad y Gymraeg rhwng cenedlaethau (y broses lle mae iaith yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth drwy ymwneud teuluol arferol

rhieni neu warcheidwaid a phlant). Dylid pwysleisio nad yw'r cyfrifiad yn cynnwys data ar ddefnydd o'r Gymraeg, dim ond gallu.

## Siart 7: Canran y plant 3 i 4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg fesul math o gartref, 2011 a 2021




Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2011 a 2021

Yn 2021, roedd 80.7% o blant 3 i 4 oed, a oedd yn byw mewn cartrefi cwpwl lle roedd dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, yn gallu siarad Cymraeg. Cyfeirir at hyn fel 'cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg'. Mae hyn yn gyson, fwy neu lai, â 2011, pan oedd y gyfradd yn 82.2%. Roedd y gyfradd trosglwyddo ar gyfer cartrefi un rhiant ble roedd o leiaf un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg hefyd yn weddol gyson rhwng y ddau gyfrifiad – 52.2% yn 2021 o'i gymharu â 53.4% yn 2011.

Bu gostyngiad yn y gyfradd trosglwyddo ar gyfer cartrefi cwpl ble roedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg o 45.4% yn 2011 i 40.4% 2021. Yn yr un modd, bu gostyngiad yn y gyfradd trosglwyddo ar gyfer aelwydydd heb unrhyw oedolyn yn gallu siarad Cymraeg o 13.5% yn 2011 i 7.3% yn 2021.

Roedd cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn ôl math o gartref yn amrywio fesul awdurdod lleol. Dylid nodi bod rhai o'r niferoedd yn y grwpiau hyn yn fach neu nid ydynt ar gael oherwydd rheoli datgeliadau ystadegol. Yn achos cartrefi cwpwl lle roedd dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, Caerdydd a Gwynedd oedd â'r gyfradd trosglwyddo'r Gymraeg uchaf (88.9% a 88.7% yn y drefn honno), a Thorfaen oedd â'r isaf (60.0%). Yn gyffredinol, roedd y gyfradd trosglwyddo ar ei

huchaf yn yr awdurdodau lleol hynny ble roedd cyfran uwch o’r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Byddwn yn parhau i graffu ar batrymau’r siroedd ac yn ceisio efelychu ac addasu’r hyn sy’n gweithio yn y siroedd sydd â’r cyfraddau uchaf mewn siroedd eraill.

Hefyd, holwyd sawl cwestiwn newydd perthnasol fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 i siaradwyr Cymraeg 16 oed neu'n hŷn sydd â phlant. Dyma grynodeb o’r canlyniadau:

- Holwyd a oedd hi'n hawdd siarad Cymraeg â'u plentyn. Roedd 48% yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf. Roedd 40% yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf a 12% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Tra bod 77% yn cytuno â'r datganiad yn y Gogledd-orllewin, 38% oedd yn cytuno â'r datganiad yn y De-ddwyrain.
- Holwyd a oeddent yn siarad Cymraeg â'u plentyn heb feddwl. Roedd 34% yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf. Roedd 57% yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf ac 8% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Holwyd a oedd pobl a oedd yn bwysig i'r ymatebydd yn meddwl y dylent siarad Cymraeg â'u plentyn. Roedd 42% yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf. Roedd 44% yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf ac 14% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Holwyd a oedd hi'n arferol yn yr ardal leol i bobl siarad Cymraeg â'u plant. Roedd 37% yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf. Roedd 50% yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf ac 13% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Bydd y data hwn yn ein cefnogi wrth i ni barhau i weithredu’n *Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo’r Gymraeg a’i Defnydd mewn Teuluoedd.*

## 2. Y blynyddoedd cynnar

Mae ein rhaglen i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, Sefydlu a Symud (SaS[1]), yn cyd-fynd yn agos ag ymrwymiad y *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru i “... *ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dyflwydd oed gan ganolbwyntio’n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg*”*.*

Rydym wedi gosod targed o sefydlu 60 grŵp (12 y flwyddyn) yn ystod tymor presennol y Senedd yn ein *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26*. Er mwyn ehangu nifer y Cylchoedd yn gynt, rydym wedi darparu £250,000 o gyllid ychwanegol i’r Mudiad yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

Mae ymrwymiad y *Cytundeb Cydweithio* i ehangu darpariaeth yn cael ei gyflawni drwy raglen Dechrau’n Deg. Mae’r berthynas â rhaglen SaS yn un agos gyda 9 o’r 16 darpariaeth a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn naill ai eisoes yn darparu Dechrau’n Deg neu am wneud hynny drwy gefnogaeth SaS.

---

[1] Caiff SaS ei weinyddu gan Mudiad Meithrin a 2022-23 yw pumed flwyddyn y rhaglen. Mae’r rhaglen yn ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg fel pwynt mynediad i addysg Gymraeg.


Mae nifer y plant a fynychodd Gylchoedd Meithrin, a chanran y rheiny sydd wedyn yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, wedi cynyddu rhywfaint ers 2015/16. Bu gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn mynychu Cylchoedd Meithrin rhwng 2018/19 a 2019/20 (Siart 8) ond mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2021/22 yn dangos cynnydd am yr ail flynedd yn olynol i 11,198.

Rydym yn tybio mai effaith y pandemig sy'n gyfrifol am y gostyngiad a welwyd yn ystod 2019/20, am i nifer o Gylchoedd Meithrin fod ar gau yn ystod y cyfnod clo cyntaf rhwng mis Mawrth 2020 a diwedd tymor yr haf. Mae hyn yn golygu bod nifer o blant wedi methu â chychwyn yn y Cylch yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn hefyd wedi effeithio ar y gallu i olrhain nifer y plant a oedd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg.

Mae'r data diweddaraf yn dangos rhywfaint o ostyngiad yn y ganran a oedd yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ganran hon wedi gostwng o 89.3% yn 2020/21 i 88.4% yn 2021/22. Mae'r patrwm cyffredinol ar hyd y 7 mlynedd ddiwethaf yn parhau'n un o gynnydd. Rydym yn tybio mai effaith diwedd COVID-19 yw hyn ar y ffigurau ac rydym yn obeithiol y bydd y tueddiad yn parhau i gynyddu maes law.

Bydd data 2022/23 ar gael cyn diwedd 2023 a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

### Siart 8: Nifer y plant sydd wedi mynychu Cylchoedd Meithrin




Ffynhonnell: Data Mudiad Meithrin

[Nodyn 1] Roedd Cylchoedd Meithrin ar gau rhwng mis Mawrth a Medi 2020 oherwydd pandemig COVID-19.

Mae'r gwaith o gefnogi darparwyr gofal plant i gryfhau ac ymestyn eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg wedi parhau yn ystod 2022-23. Drwy ein gwaith gyda Mudiad Meithrin, rydym wedi:

- Cyrraedd y targed o sefydlu dros 60 grŵp meithrin newydd mewn ardaloedd o angen ledled Cymru yn ystod pum mlynedd cyntaf y rhaglen ymestyn darpariaeth, Sefydlu a Symud (SAS).
- Cynnig hyfforddiant i 2,450 o ymarferwyr a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru drwy raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus 'Academi'.
- Parhau i gynnig cyfleoedd hyfforddiant i gynyddu nifer yr ymarferwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Parhau i gefnogi rhieni a'u plant ifanc drwy raglen Cymraeg i Blant.
- Parhau i gryfhau'r cyswllt rhwng y Mudiad ac awdurdodau lleol yn sgil gofynion newydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac ehangiad rhaglen Dechrau'n Deg.
- Parhau i gydweithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill er mwyn cynyddu cyfran y plant sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Ymestyn cyrhaeddiad rhaglen hyfforddiant 'Croesi'r Bont', sy'n ffocysu ar gaffael iaith a throchi ac arfogi ymarferwyr â sgiliau arbenigol i'w defnyddio gyda phlant o gartrefi di-Gymraeg.

Drwy gydweithio â chonsortiwm Cwlwm dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd cyfleoedd i ymarferwyr gofal plant ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gwaith, a hynny drwy raglen Camau y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Drwy hyn, cafodd dros 800 o ymarferwyr hyfforddiant wedi ei deilwra'n arbennig i anghenion y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar.

Wrth edrych y tu hwnt i'r Cylchoedd Meithrin a gwaith Mudiad Meithrin yn benodol, mae 2022-23 wedi parhau i fod yn flwyddyn heriol i'r sector gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru. Mae lleoliadau'n adrodd eu bod yn gweld newidiadau yn y galw am ofal plant wrth i deuluoedd wynebu pwysau oherwydd yr argyfwng costau byw, a chyda mwy o rieni'n gweithio gartref.

Fe wnaethom gomisiynu gwaith ymchwil annibynnol hefyd i sicrhau bod yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP), sy'n asesu'r cyflenwad a'r galw am ofal plant fesul awdurdod lleol, yn parhau i fod yn addas i'r diben o ran y Gymraeg. Cyhoeddwyd canlyniadau'r gwaith ymchwil yn ystod mis Hydref 2023. Wrth ystyried y canlyniadau, byddwn yn edrych am wybodaeth sy'n mynd i'r afael â'r aliniad rhwng yr ADGP a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), a beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn ategu ac yn cefnogi ei gilydd.

Ar ben hyn, rydym wedi cynnal adolygiad o faes gwarchod plant yng Nghymru er mwyn deall anghenion y rhan hon o'r sector yn well, ac rydym wedi comisiynu ymarfer mapio ehangach o'r gweithlu gofal plant a chwarae. Dechreuodd y gwaith mapio hwnnw yn ystod 2022-23 a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Ionawr 2024.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda chonsortiwm Cwlwm i gefnogi'r sector, gan fwrw ymlaen ag ystod o brosiectau a rhaglenni. Derbyniodd Cwlwm gyllid o £2.89m gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2022-23, a darparwyd £190k yn benodol

i gefnogi gwaith i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn unol â gofynion *Cymraeg 2050*.

Yn ogystal â hyn, dyrannwyd cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru o £3.787m i Cwlwm dros gyfnod o dair blynedd (2022-23: £0.903m, 2023-24: £1.706m, 2024-25: £1.178m) i gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu* a'r *Cytundeb Cydweithio* wrth iddynt ymwneud ag ehangu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn manylu ar yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Gan droi at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, rydym wedi cynnal ac ehangu ein Cynnig Gofal Plant i Gymru[2]. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol diweddaraf o'r Cynnig ym mis Mawrth 2023, sy'n cwmpasu blwyddyn academaidd 2021/22. Mae ymatebion arolwg rhieni yn awgrymu bod bron pob rhiant a oedd am gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn honno yn gallu gwneud hynny (97% yn 2021/22 o'i gymharu â 93% yn 2020/21).

O fis Gorffennaf 2022, roedd 17,830 o blant yn manteisio ar y Cynnig, gyda 4,615 (26%) yn gwneud hynny mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwerthusiad diweddaraf o'r Cynnig Gofal Plant, sy'n cwmpasu Medi 2021-Awst 2022, ar gael yma. Mae adolygiad pellach o ddarpariaeth Cynnig Gofal Plant Cymru yn 2022-2023 ar y gweill a bydd canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2024.

Ym mis Tachwedd 2022, lansiwyd y gwasanaeth Cynnig Gofal Plant Digidol Cenedlaethol i Gymru. Mae'r gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac yn cael ei ddefnyddio gan rieni plant 3 a 4 oed a darparwyr gofal plant ledled Cymru i fanteisio ar neu i ddarparu gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi gweithio gydag ystod o ymarferwyr ac arbenigwyr eraill i gyd-lunio trefniadau asesu i gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol newydd mewn perthynas ag asesu. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi plant i fanteisio ar gyfleoedd chwarae o ansawdd uchel ac yn 2022-23 roedd ein Haf o Hwyl 2022 yn cynnwys:

- £0.1m i ddarparu llefydd am ddim yn Eisteddfod yr Urdd gyda 11,256 yn bresennol.
- £0.25m i Urdd Gobaith Cymru gyda 7,037 o blant a phobl ifanc 3-25 oed mewn darpariaeth chwaraeon, celfyddydau a diwylliannol yn cael eu darparu yn Gymraeg ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.
- £0.25m i'r mentrau iaith i ddarparu mentrau Cymraeg i blant a phobl ifanc 0-25 oed ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.
- £0.03m i'r Mudiad Meithrin ddarparu 3 diwrnod hwyliog i'r teulu a fynychwyd gan 275 o blant 0-5 a 233 o deuluoedd.

[2] Cafodd y Cynnig Gofal Plant ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2018 ac mae'n darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'i ariannu am 48 wythnos o'r flwyddyn ar gyfer plant 3-4 oed. Mae hyn yn cynnwys o leiaf 10 awr o addysg blynyddoedd cynnar. Cafodd ei dargedu i ddechrau at rieni mewn cyflogaeth, ac yna cafodd ei ymestyn ym mis Medi 2022 i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant.

## 3. Addysg statudol

Mae'r maes addysg yn ganolog i'n hymdrechion i gyrraedd y nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a hefyd gynyddu defnydd iaith. Mae *Cymraeg 2050* yn gosod targedau ar gyfer y maes addysg ac mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26* yn manylu ymhellach ar ein targedau.

Yn y *Cytundeb Cydweithio*, rydym wedi ymrwymo i "*Cyflwyno Bil Addysg y Gymraeg, a fydd, ynghyd â gwaith anneddfwriaethol mwy uniongyrchol, yn cryfhau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; yn pennu uchelgeisiau a chymhellion newydd i ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg; yn sefydlu un continwwm dysgu Cymraeg a'i weithredu; yn galluogi ysgolion presennol i symud i gategori Cymraeg uwch ac yn ysgogi cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob lleoliad addysg*":

Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y targedau, y dangosyddion a'r ymrwymiadau hyn yn yr adran hon.

### Bil Addysg Gymraeg

Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol drwy'r system addysg statudol.

Cam allweddol ymlaen ar y daith i ddatblygu'r Bil oedd cyhoeddi ymgynghoriad ar Bapur Gwyn yn amlinellu ein cynigion polisi a fydd, o'u derbyn, yn sail i'r Bil.

Ymhlith y prif gynigion roedd:

- Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith.
- Creu un continwwm sgiliau Cymraeg i ddisgrifio lefelau sgiliau fel bod dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr yn dod i ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg.
- Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith.
- Dros amser, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig.
- Gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg.
- Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru.
- Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr.
- Rhoi cymorth arbenigol i ysgolion o ran dysgu Cymraeg.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos rhwng 27 Mawrth a 16 Mehefin 2023. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi ymatebion yr ymgynghoriad maes o law. Byddwn yn ystyried yr ymatebion hynny wrth i ni barhau i ddatblygu'r Bil i gyflwyno i'r Senedd yn y flwyddyn ddeddfwriaethol hon, cyn toriad yr haf 2024.

**Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Pwrpas Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yw sefydlu fframwaith deddfwriaethol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Yn y Ddeddf, mae'r Gymraeg yn faes cwricwlwm gorfodol i blant a phobl ifanc 3-16 oed.

Yn unol â'r ddeddf, ac wedi cyfnod o ymgynghoriad a chyd-gynllunio gyda grŵp o ymarferwyr, cyhoeddwyd Fframwaith i gefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg yn ystod tymor yr hydref 2022.

Er mwyn sicrhau bod cymwysterau Cymru nid yn unig yn addas i ddiwallu anghenion sy'n esblygu ymhlith dysgwyr a chyflogwyr, ond hefyd i adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru yn briodol, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn adolygu a diwygio'r Cymwysterau Cyffredinol sydd ar gael i ddysgwyr 14-16 oed. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymwysterau Cymru wrth iddyn nhw fwrw ymlaen â cham 3 y rhaglen ddiwygio hon.

Ddiwedd 2022, cynhaliodd Cymwysterau Cymru ymgynghoriad eang ar gynigion ar gyfer TGAU Gwneud-i-Gymru newydd. Roedd hyn yn cynnwys gwaith manwl a chyd-greu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, athrawon, rhieni, cyflogwyr a grwpiau eraill â diddordeb. Fe wnaeth yr ymgynghoriad ar TGAU Cymraeg ganolbwyntio ar wneud yn siŵr bod y cymwysterau newydd yn alinio gyda'r Cwricwlwm i Gymru ac yn galluogi pob dysgwr i ymwneud â'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y maes ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn holistaidd nes cyrraedd 16 oed. Roedd yr ymgynghoriad yn holi am safbwyntiau ar greu dyfarniad sengl a dwbl ar gyfer y Gymraeg sy'n integreiddio Iaith a Llenyddiaeth. Cafodd y penderfyniadau a wnaed ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2023.

**Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd**

Mae'r Gymraeg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu y cwricwlwm newydd. Bydd y Gymraeg yn parhau'n bwnc gorfodol i bob dysgwr 3-16 oed, gan gynnig hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg.

Mae cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn seiliedig ar gysyniad o gontinwwm dysgu. Yn achos y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod pob disgybl yn datblygu o fod yn ddi-iaith, neu gyda dim ond ychydig iaith, ac yn gwneud cynnydd tuag at fod yn ddysgwr sy'n defnyddio'r iaith yn hyderus ac yn llwyddiannus.

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gyhoeddi'r Fframwaith Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Mae'n tanlinellu sut mae'r iaith yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â nodi'r profiadau, gwybodaeth, a'r sgiliau sy'n rhan o'r Cwricwlwm. Datblygwyd y fframwaith newydd gan athrawon ar gyfer athrawon. Fe'i cynlluniwyd i helpu ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o beth i'w ddysgu, yn ogystal â'u dealltwriaeth o gynnydd mewn dysgu Cymraeg. Gall ysgolion ei ddefnyddio wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm a'u hasesiad i helpu i nodi'r wybodaeth, y sgiliau, y profiadau a'r gwarediadau a fydd yn ganolog i'r cyfan.

Bwriad fframwaith y Gymraeg yw cefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach. Mae prosiectau fel prosiect Ein Llais Ni a ariennir gan Lywodraeth Cymru a ddatblygwyd ar y cyd gan GwE a Phrifysgol Bangor ac a gyflwynir ledled Gogledd Cymru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cyfrannu at y gwaith o hybu sgiliau llafaredd yn y Gymraeg. Mae'r prosiect bellach wedi'i rannu ledled Cymru ac mae wedi derbyn rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru i'w addasu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**

Wedi cyfnod o gydweithio dwys gyda'r awdurdodau lleol, mae'n braf datgan bod pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2022. Mae'r Cynlluniau statudol yn amlinellu sut y mae awdurdodau lleol yn bwriadu gwella'r modd y caiff y Gymraeg mewn addysg ei chynllunio yn eu hardaloedd dros y 10 mlynedd nesaf, a hynny'n seiliedig ar darged sy'n cyd-fynd â *Cymraeg 2050*.

Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i'w dargedau deng mlynedd uchelgeisiol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynlluniau'n cynnwys pwyslais clir ar gynyddu'r nifer o leoliadau ysgol cynradd ar draws Cymru gydag ymrwymiadau i sefydlu 23 ysgol gynradd Gymraeg newydd ac ehangu 25 ysgol gynradd Gymraeg dros y degawd nesaf. Ceir rhagor o wybodaeth ar gynnydd awdurdodau lleol mewn perthynas â'u cynlluniau cyfalaf ysgolion isod.

Mae'r CSCA hefyd yn cyffwrdd â maes recriwtio athrawon ac addysg uwch ar sail cyngor ac argymhellion y Bwrdd Cynghori CSCA. Ceir rhagor o wybodaeth ar y Gweithlu Addysg isod.

Nodwyd hefyd yr angen i gynllunio'n fwy pwrpasol gyda sefydliadau addysg uwch, consortia addysg lleol ac awdurdodau lleol. Mae'r cydweithio gydag adrannau perthnasol yn y Llywodraeth yn mynd rhagddo, a chamau ar waith i ddenu athrawon, gwella'u sgiliau a'u cefnogi, ac i gynllunio'r gweithlu'n bwrpasol er mwyn symud tuag at y targedau.

Dim ond drwy gydweithio agos a pharhaus y cafodd y CSCA eu llunio a dim ond drwy barhau i wneud hynny gydag amrywiol randdeiliaid y byddwn yn llwyddo i gyrraedd ein targedau yn y maes hwn.

**Categoreiddio ysgolion**

Mae'r polisi categoreiddio yn fecanwaith allweddol i nifer o awdurdodau lleol gyrraedd eu targed o fewn y CSCA. Mae wyth awdurdod lleol wedi cynnwys bwriad i symud ysgolion ar hyd y continwwm o fewn eu CSCA deng mlynedd, gydag eraill yn ymrwymo i fabwysiadu'r trefniadau newydd wrth ehangu darpariaeth addysg cyfrwng mewn ardaloedd newydd o fewn y sir.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r wyth awdurdod lleol yn ystod 2022-23 er mwyn eu cefnogi wrth iddynt fynd ati i fapio eu darpariaeth bresennol a chynllunio ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a symud i gategori newydd.

Sefydlwyd grŵp strategol cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ar gyfer yr wyth awdurdod lleol er mwyn cynnig cefnogaeth ac arweiniad pellach parhaus ar faterion ymarferol yn ymwneud â'r polisi categoreiddio. Mae'r grŵp strategol hefyd wedi cynnig cyfle i'r awdurdodau lleol rannu arferion da, profiadau, heriau ac adnoddau.

**Y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid**

Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026* a'r *Rhaglen Lywodraethu* yn cynnwys ein hymrwymiad i ehangu'r Rhaglen Drochi hwyr i sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pan fydd ei angen arno a ble bynnag y mae ar ei daith ddysgu.

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant y grant trochi hwyr (2021-22), cafodd £6.6m o gyllid refeniw ychwanegol ei ymrwymo tan ddiwedd tymor y Senedd hon i gefnogi darpariaeth trochi hwyr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd ceisiadau eu cymeradwyo ar gyfer pob awdurdod lleol yn barod ar gyfer dechrau mis Medi 2022. Mae hyn yn gyfle gwych i bob awdurdod lleol a'u partneriaid ehangu eu darpariaethau trochi hwyr cyfrwng Cymraeg yn eu hysgolion a'u canolfannau trochi.

Mae'r cyllid wedi sicrhau bod darpariaeth trochi hwyr ym mhob awdurdod lleol. I rai, mae'r cyllid wedi cefnogi, a bydd yn parhau i gefnogi, darpariaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu (canolfannau neu unedau). I eraill, mae'r cyllid wedi arwain at allu sefydlu darpariaethau trochi hwyr newydd a bydd yn galluogi mwy o ddysgwyr i ddod yn siaradwyr dwyieithog.

Mae'r grant trochi hwyr yn cydnabod ac yn cefnogi'r gweithlu arbenigol sy'n allweddol i lwyddiant y ddarpariaeth hon. Mae'r grant yn cefnogi dros 60 o weithlu arbenigol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhai swyddi sy'n bodoli'n barod a swyddi newydd sydd wedi cael eu creu mewn siroedd lle mae darpariaeth trochi hwyr newydd yn cael ei sefydlu. Felly, mae yna gyfuniad o gydlynwyr, athrawon trochi ac athrawon cefnogi. Isod, rydym yn manylu ar rai enghreifftiau.

Croesawodd Canolfan Iaith Ysgol Gwaun y Nant eu cohort cyntaf o ddysgwyr hwyrddyfodiaid ddiwedd mis Chwefror 2022 ac maent wedi derbyn 96 o ddysgwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf ers i'r ganolfan agor.

Mae'r cwrs i hwyrddyfodiaid yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus ers iddo gychwyn ym mis Mehefin 2022 gyda'r niferoedd yn cynyddu gyda'r potensial i agor dosbarth trochi ychwanegol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu mwy o leoliadau fel rhan o'u prosiect Pentref Aberwla. Maent hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o'r prosiect hwn ar lefel genedlaethol ac mae cynrychiolwyr o Wrecsam, Conwy, Môn a Cheredigion wedi ymrwymo i dreialu'r pentref rhithiol yn eu canolfannau trochi.

Fel rhan o'n hymrwymiad yn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26*, rydym wedi sefydlu rhwydwaith i gefnogi addysg drochi drwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunwyd i gynnal tair sesiwn y flwyddyn gyda'r gyntaf ym mis Rhagfyr 2022 a'r ail ym mis Mawrth 2023. Cafwyd cynrychiolaeth o 17 o bob cwr o Gymru.

**Cyllid cyfalaf**

Mae darparu cyllid cyfalaf yn ffordd effeithiol o helpu i greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Gwneir hynny drwy gynllunio uchelgeisiol a phennu targedau cyraeddadwy, a chan wneud y mwyaf hefyd o'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli. Bydd y prosiectau cyfalaf y byddwn yn eu hariannu yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg Gymraeg ledled Cymru. Bydd y prosiectau hyn hefyd yn hybu'r iaith Gymraeg yn lleol.

Sefydlwyd y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg cychwynnol yn 2018 gyda'r ail gylch yn dilyn yn 2021. Rydym wedi buddsoddi dros £112m mewn prosiectau cyfalaf cyfrwng Cymraeg ers hynny, i gefnogi awdurdodau lleol i wireddu eu hymrwymiadau yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rydym wedi cadw rhestr wrth gefn o brosiectau cymwys i'w cefnogi yn y dyfodol. Yn ystod 2022-23, cefnogwyd 11 prosiect cyfalaf o'r rhestr honno gyda siroedd Casnewydd, Torfaen, Caerdydd, Ynys Môn, Conwy, CNPT a Phowys yn elwa o dros £7m o fuddsoddiad tuag at wella darpariaeth, ehangu neu sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd.

Yn ystod 2022-23, trwy gyfuniad o gyllid y grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg a hefyd buddsoddiad ehangach y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, agorwyd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn:

- Wrecsam (Ysgol Llan-y-Pwll)
- CNPT (Ysgol Gymraeg Tregeles)
- Torfaen (Ysgol Gynradd Gwynllyw)
- Ac egin ysgol ym Merthyr Tudful (yn y Gyrnos).

Fe wnaeth adeiladau ysgol newydd gynnig llefydd ysgol ychwanegol hefyd ym:

- Mro Morgannwg (Ysgol Sant Baruc)
- Powys, (Ysgol Gymraeg y Trallwng).

Ac ehangwyd ysgolion yn:

- RhCT (Ysgol Gynradd Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Rhydywaun)
- Blaenau Gwent (Ysgol Bro Helyg)
- Penfro (Ysgol Caer Elen)
- Fflint (Ysgol Glanyrafon)
- Caerffili (Ysgol y Castell).

Gwnaed gwelliannau i wella darpariaeth dysgu / Anghenion Dysgu Ychwanegol yn:

- Nhorfaen (Ysgol Gyfun Gwynllyw)
- Caerdydd (Ysgol Gyfun Glantaf, Bro Edern a Phlasmawr)

- CNPT (Ysgol Gynradd Trebannws).

Ehangwyd safleoedd gofal plant / darpariaethau meithrin mewn ysgolion yng:

- Nghonwy (Cylch Meithrin Bro Aled)
- Ynys Môn (unedau gofal plant Ysgol Llanfawr ac Ysgol y Graig).

Mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill ledled Cymru a fydd yn cael eu gwireddu yn ystod 2023-24 a 2024-25.

Cyhoeddwyd y Gronfa Her Ysgolion Cynaliadwy yn ystod 2022-23. O'r 3 ysgol lwyddiannus, roedd 2 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y cyfnod cynllunio a dylunio ar gyfer yr ysgolion newydd net-sero sef Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, CNPT ac Ysgol Bontnewydd a'r Ganolfan Gymunedol, Gwynedd yn debygol o fod oddeutu 12 i 18 mis.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno cynllun buddsoddi cyfalaf diwygiedig ar gyfer y 9 mlynedd nesaf erbyn mis Mawrth 2024.

Yn ychwanegol i'r prosiectau'r cyfalaf addysg Gymraeg ffurfiol a ariannwyd, fe wnaethom gefnogi'r Urdd gyda'u gwaith i uwchraddio a datblygu eu gwersylloedd preswyl gydag arian cyfalaf. Mae gwersylloedd yr Urdd yn rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i blant a phobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg wrth bontio o'r byd addysg ffurfiol i fyd dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth gyda gweithgareddau hamdden a hwyliog.

Yn ystod gwanwyn 2022, fe agorwyd Glan-llyn Isa' yn swyddogol, sef canolfan hunan ddarpar i grwpiau llai. Agorwyd Calon y Gwersyll, Llangrannog ym mis Tachwedd ac mae gwaith wedi'i gynnal i ddatblygu canolfan gweithgareddau dŵr Glan-llyn. Ers hynny, mae'r Urdd wedi agor ei gwersyll amgylcheddol a lles newydd sbon, Pentre Ifan.

### Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg

Mae cynyddu niferoedd y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o amcanion allweddol *Cymraeg 2050*.

Yn wreiddiol, roeddem yn defnyddio asesiadau athrawon i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data ymhellach. Ond, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gau ysgolion ar 20 Mawrth 2020 yn sgil COVID-19, cyhoeddwyd nad oedd disgwyl i sefydliadau gyflwyno unrhyw ddata a gasglwyd fel data statudol yn y ffordd arferol o dan yr amgylchiadau. Felly, canslwyd Casgliad Data Cenedlaethol ar gyfer 2020 oherwydd y pandemig.

Wrth gydnabod fod cau yr ysgolion yn amharu ar lif data blynyddol, yn yr adroddiad hwn felly, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) er mwyn cael braslun o'r sefyllfa yn absenoldeb y data arferol. Mae Siart 9 isod yn cynnwys y ddwy ffynhonnell er

mwyn dangos cysondeb yn y data, ac i ddangos ein cynnydd yn erbyn y targed hwn.

Mae data diweddaraf CYBLD (2023), a gyhoeddwyd ym mis Medi yn dangos cynnydd bach o ran dysgwyr oedran Dosbarth Derbyn sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 23.3% yn 2021/22 i 23.8% yn 2022/23. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag nad yw'r data ar gyfer dysgwyr dosbarth derbyn yn gyflawn gan nad yw'n statudol i ysgolion adrodd ar gyfrwng addysg dysgwyr sy'n iau na phum mlwydd oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r data yn dangos gostyngiad canrannol bach o ran dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gwympo o 23.9% yn 2021/22 i 23.4% yn 2022/23. Yn *Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021-26*, rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r ganran o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg i 26% erbyn 2026.

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion, roedd 23.4% o ddysgwyr Blwyddyn 2 yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, i fyny o 23.1% yn 2021/22.

Mae Tabl 1 (isod) yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y disgyblion sydd mewn dosbarthiadau meithrin, derbyn a Blwyddyn 1 sy'n derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yn ystod blynyddoedd diweddar. Mae'n bosib ein bod yn gweld arwyddion o effaith y pandemig ar ddewisiadau rhieni a'u plant a byddwn yn monitro'r data'n ofalus drwy CSCA yr awdurdodau lleol. Mae'n bwysig nodi hefyd fod maint y boblogaeth yn ei chyfanrwydd wedi gostwng ac mae hynny hefyd yn effeithio ar y niferoedd hyn.

Yn 2011/12, roedd 7,300 o ddysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, gyda 7,960 erbyn 2022/23. Mae'r 660 yn fwy o ddysgwyr gyfystyr â thros 22 o ddosbarthiadau newydd o 30 o blant. Mae canran y dysgwyr Blwyddyn 2 sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf hefyd wedi cynyddu o 22.2% yn 2011/12 i 23.4% yn 2022/23.


## Tabl 1: Nifer a chanran y plant sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn Nosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, (2012-2023)

| | Meithrin | | Dosbarth Derbyn | | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 2011/12 | 7,510 | 21.1% | 8,160 | 23.8% | 7,670 | 23.1% | 7,300 | 22.2% |
| 2012/13 | 7,010 | 20.1% | 8,290 | 23.3% | 7,830 | 23.0% | 7,550 | 22.7% |
| 2013/14 | 7,460 | 20.6% | 7,980 | 23.0% | 8,100 | 22.8% | 7,650 | 22.5% |
| 2014/15 | 7,540 | 20.6% | 8,250 | 23.3% | 7,860 | 22.7% | 7,990 | 22.4% |
| 2015/16 | 7,630 | 20.9% | 8,290 | 23.0% | 8,110 | 23.0% | 7,760 | 22.3% |
| 2016/17 | 7,650 | 21.4% | 8,330 | 23.5% | 8,120 | 22.6% | 7,950 | 22.5% |
| 2017/18 | 7,630 | 21.6% | 7,970 | 23.2% | 8,300 | 23.3% | 8,100 | 22.5% |
| 2018/19 | 7,720 | 22.0% | 7,790 | 23.1% | 8,060 | 23.4% | 8,190 | 23.0% |
| 2019/20 | 7,880 | 22.9% | 7,900 | 23.5% | 7,850 | 23.3% | 7,970 | 23.1% |
| 2020/21 | 8,580 | 23.0% | 7,900 | 23.8% | 7,900 | 23.4% | 7,700 | 22.8% |
| 2021/22 | 7,560 | 22.5% | 7,540 | 23.3% | 8,010 | 23.9% | 7,840 | 23.1% |
| 2022/23 | 7,200 | 22.4% | 7,630 | 23.8% | 7,690 | 23.4% | 7,960 | 23.4% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

[Nodyn 1] Noder nad oes yn rhaid i ysgolion adrodd ar nifer y plant sydd yn astudio'r Gymraeg sydd yn iau na phum oed ar 31 Awst ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth yn gyflawn ar gyfer plant Dosbarth Meithrin a Derbyn.

## Siart 9: Canran y disgyblion Blwyddyn 2 (7 oed) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf





Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Rydym wedi gweld gostyngiad yng nghanran dysgwyr Blwyddyn 7 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o 20.1% yn 2021/22 i 19.3% yn 2022/23, sy'n cyfateb i oddeutu 90 yn llai o ddysgwyr. Mae'r cwymp hwn i'w weld yn bennaf yn siroedd y gorllewin a byddwn yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol perthnasol drwy gyfrwng eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i geisio gwyrdroi'r tueddiad hwn.

Rydym hefyd yn monitro cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 (14 oed fel arfer) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf). Mae'r gyfran hon wedi cynyddu dros amser o 17.0% yn 2011/12 i 19.4% erbyn 2022/23. Unwaith eto, gan nad oes asesiadau athrawon wedi bod ar gael ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 (oedran gorffen yr ysgol gynradd) nac ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9 yr ysgol uwchradd) yn gyson, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Fel ag yn achos Siart 9 uchod, mae Siart 10 isod hefyd yn cynnwys y ddwy ffynhonnell ochr yn ochr er mwyn dangos cysondeb cyffredinol y data.

**Siart 10: Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Mae Siart 10 uchod yn dangos, yn ôl cyfrifiad ysgolion blwyddyn academaidd 2022/23, bod 21.7% o ddysgwyr ar ddiwedd ysgol gynradd a 19.4% o ddysgwyr Blwyddyn 9 mewn ysgol uwchradd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r canrannau hyn wedi cynyddu ychydig ers 2011/12. Fodd bynnag, mae'r ganran


sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 yn parhau i fod yn is na'r ganran yng Nghyfnod Allweddol 2 dair mlynedd ynghynt (er enghraifft, gan gymharu Cyfnod Allweddol 2 yn 2019/20 â Chyfnod Allweddol 3 yn 2022/23).

Fodd bynnag, bydd disgwyl i awdurdodau lleol barhau i wella dilyniant ieithyddol rhwng y cynradd a'r uwchradd i sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo i addysg uwchradd, a bod nifer y dysgwyr sy'n newid i ddilyn y llwybr Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn gostwng. Bydd gwaith yr awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu eu CSCA yn bwysig yn y cyd-destun hwn hefyd. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2019 yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i nodi yn eu Cynlluniau sut y byddant yn sicrhau bod dysgwyr a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall, a chynllunio yn unol â hynny os yw'r cyfraddau dilyniant yn destun pryder. Byddwn yn monitro cynnydd awdurdodau lleol ar weithrediad eu CSCA yn flynyddol.

Fel rhan o'r cwricwlwm newydd, mae continwwm newydd ar gyfer ieithoedd wedi cael ei ddatblygu, i gynnwys y Gymraeg, er mwyn i bob dysgwr ddilyn yr un llwybr ar gyfer dysgu'r Gymraeg. Felly, yn y dyfodol, bydd disgwyl i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth iddynt symud ar hyd y continwwm.

Mae'r ymgynghoriad a gafodd ei gynnal o 27 Mawrth i 16 Mehefin 2023 ar y Bil Addysg Gymraeg yn cynnig y dylid cynnwys darpariaeth i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatgan continwwm sgiliau Cymraeg a fyddai'n efelychu Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR). Y bwriad fyddai darparu fframwaith safonol yng Nghymru i roi eglurder a dealltwriaeth gyffredin ynghylch sut i ddisgrifio lefelau hyfedredd yn y Gymraeg.

## Siart 11: Canran disgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

[Nodyn 1] Cafodd TGAU Cymraeg Ail Iaith ei diwygio i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2017 gan ddisodli'r cyrsiau llawn a byr TGAU a fodolai, sy'n esbonio rhywfaint o'r cynnydd mewn Cymraeg ail iaith a welir yn y data.


[Nodyn 2] O 2015/16, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 33% o bobl ifanc 16-17 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Mae cynnydd wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy’n cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (cwrs llawn) ers 2008/09, fel y gwelir yn Siart 11 uchod.

Mae Siart 11 hefyd yn dangos bod 83% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi’u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2021/22 (18% Cymraeg iaith gyntaf, a 65% Cymraeg ail iaith). Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn 2008/09 (14% Cymraeg iaith gyntaf, a 56% ail iaith) – noder fod y ganran hon yn cynnwys dysgwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer cwrs byr ail iaith.

## Siart 12: Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu bump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

[Nodyn 1] Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau'r disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

[Nodyn 2] Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

[Nodyn 3] Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 yn flwyddyn drosiannol, lle dychwelodd cymwysterau perthnasol a eisteddai gan ddisgyblion Cymru i arholiad ysgrifenedig. Nid oedd hyn yn golygu dychwelyd yn llwyr i drefniadau arholi cyn y pandemig. I wneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd disgyblion a safodd arholiadau yn 2021/22 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu cynnal) a chanlyniadau 2020/21.

Mae Siart 12 uchod yn dangos bod 86.3% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2021/22 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd cynnydd cyson ers 2013/14, gan gyrraedd y targed o 86% erbyn 2021.

Roedd 71.2% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2021/22 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu cryn dipyn ers 2015/16, ac wedi hen gyrraedd y targed o 65% erbyn 2021.

Bydd data blwyddyn academaidd 2022/23 yn dod ar gael cyn y Nadolig a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**e-sgol**

Mae prosiect e-sgol[3] wedi bod yn ehangu o flwyddyn i flwyddyn ers iddo gael ei lansio yn 2018. Yn ystod 2022/23, cafodd 52 cwrs (TGAU, UG a Safon Uwch) eu cynnig ar draws 32 o ysgolion i 454 o ddisgyblion.

Mae cymryd rhan yn y prosiect yn wirfoddol ac mae ar gael i bob rhan o Gymru. Cyfeiriodd 15 o'r awdurdodau lleol at e-sgol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gyda nifer ohonynt yn ystyried mabwysiadu'r prosiect. Daeth 12 ysgol arall yn rhan o'r prosiect ym mis Medi 2023 a disgwylir i 6 ysgol arall ymuno ym mis Medi 2024 gyda thrafodaethau ar y gweill i ehangu'r rhaglen ymhellach. Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer e-sgol ar gyfer y flwyddyn adrodd oedd £600,000 sy'n gynnydd ers y flwyddyn adrodd flaenorol ac mae hyn wedi caniatáu mwy o waith i hyrwyddo'r prosiect.

Yn 2022, cafodd disgyblion sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch drwy e-sgol raddau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda 99.3% o fyfyrwyr e-sgol yn ennill graddau A*-E o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 98% a 36.9% yn ennill A* o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1%.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae sesiynau adolygu Cyrsiau Carlam Cymru wedi'u cyflwyno o dan fantell e-sgol. Mae myfyrwyr TGAU, AS a Safon Uwch ledled Cymru wedi manteisio ar y sesiynau gwerthfawr hyn. Yn ystod 2022/23, cyflwynwyd 151 o sesiynau Carlam gan 50 o athrawon mewn 13 o bynciau TGAU, 9 o bynciau Uwch Gyfrannol ac 8 o bynciau Safon Uwch. Yn ogystal â'r disgyblion a ymunodd â'r sesiynau byw, roedd bron i 48,000 o wylwyr wedi gweld y sesiynau ar sianel YouTube Carlam hyd at ddiwedd mis Mehefin 2023.

**Hyrwyddo Addysg cyfrwng Cymraeg**

Rhannwyd yr adnoddau marchnata a ddatblygwyd y llynedd dros ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac YouTube eto yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfres o fideos gydag athrawon a rhieni i geisio ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin sy'n cael eu holi am addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â fideo i egluro mwy am y system categoreiddio ysgolion. Mae'r adnoddau hyn yn rhan o'n rhaglen cyfryngau cymdeithasol a byddwn yn parhau i'w rhannu ar adegau penodol pan fydd rhieni'n debygol o wneud dewisiadau am addysg eu plant.

[3] Mae prosiect e-sgol yn seiliedig ar e-sgoil yr Alban. Mae'n fenter ddysgu gyfunol sy'n darparu cyfleoedd addysgu a dysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau uniongyrchol, dysgu amser real a rhyngweithiol. Gan ddefnyddio'r ystod o offer a gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb, mae'r prosiect wedi galluogi myfyrwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu digidol gan athrawon cymwys a phrofiadol.

Crëwyd hwb i'r awdurdodau lleol ac eraill er mwyn iddynt allu cael mynediad at yr holl ddeunydd marchnata gydag esiamplau o negeseuon cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â'r adnoddau i hwyluso'r broses o'u rhannu.

Comisiynwyd cyfres o fewnwelediadau ar agweddau rhieni tuag at addysg Gymraeg er mwyn creu sail i ymgyrch i hyrwyddo addysg Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys arolwg YouGov, edrych yn fanwl ar sgyrsiau dros y cyfryngau cymdeithasol a flogiau dros gyfnod o flwyddyn a hefyd ymarfer creu personas ar gyfer segmenteiddio'r gynulleidfa.

Rydym hefyd wedi dyfarnu cyllid i Fenter Caerffili i gyflogi Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y De-ddwyrain i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn codi proffil a hyrwyddo darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth.

## 4. Addysg ôl-orfodol

Mae addysg a hyfforddiant wrth galon ein gweledigaeth i ddatblygu a chynnal y Gymraeg yn *Cymraeg 2050*. Wrth ystyried y datblygiadau pwysig i faes addysg cyfrwng Cymraeg yn y cwricwlwm newydd, mae sicrhau dilyniant ieithyddol o addysg statudol i bob elfen o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn hanfodol bwysig.

Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar greu mwy o gyfleodd i bobl ifanc ddysgu a hyfforddi drwy'r Gymraeg. Rydym hefyd am sicrhau bod system effeithiol yn cynnig sylfaen gref i oedolion a phobl ifanc gael dysgu Cymraeg.

Rydym hefyd eisiau gweld mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch er mwyn iddynt barhau i astudio'r Gymraeg yn y brifysgol i greu'r genhedlaeth nesaf o academyddion, athrawon y Gymraeg a gweithlu lle mae galw am sgiliau iaith lefel uchel megis y cyfryngau, darlledu, cyfieithu, gweinyddiaeth gyhoeddus neu'r gyfraith.

Mae Siart 11 uchod yn dangos bod cynnydd o 70% i 83% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg ers 2008/09. Mae'r canrannau hyn yn cynnwys disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg iaith ac ail iaith. Nid yw'r cynnydd yn y ganran sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg yn trosglwyddo i'r nifer sy'n dilyn Cymraeg Safon Uwch.


Mae Siart 13 isod yn dangos y bu gostyngiad o 68 cofrestriad Cymraeg Safon Uwch Cymraeg iaith a Cymraeg ail iaith o 519 yn 2020/21 i 451 yn 2021/22[4].

Rydym yn monitro'r dilyniant hwn drwy edrych ar faint o ddysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio Cymraeg Safon Uwch fel canran o'r rhai a wnaeth gofrestru i astudio TGAU Cymraeg ddwy flynedd cyn hynny. Bydd data 2022/23 ar gael cyn y Nadolig a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn yr adroddiad blynyddol nesaf. Mae Siart 13 isod yn seiliedig ar ddata hyd at 2021/22.

[4] Mae'r data yn cynnwys cofrestriadau cyrsiau lefel uwch yr holl disgyblion gan gynnwys:

- Dysgwyr nad ydynt mewn ysgolion a gynhelir (disgyblion mewn colegau neu ddim mewn addysg ffurfiol).
- Dysgwyr a ymunodd â'r ysgol ar ôl cynnal y cyfrifiad.

## Siart 13: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach, iaith gyntaf ac ail iaith




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

[Nodyn 1] Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau y disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

[Nodyn 2] Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

[Nodyn 3] Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 yn flwyddyn drosiannol, lle dychwelodd cymwysterau perthnasol a eisteddai gan ddisgyblion Cymru i arholiad ysgrifenedig. Nid oedd hyn yn golygu dychwelyd yn llwyr i drefniadau arholi cyn y pandemig. I wneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd disgyblion a safodd arholiadau yn 2021/22 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu cynnal) a chanlyniadau 2020/21.

Mae Siart 13 uchod yn dangos dilyniant dysgwyr yn symud o TGAU i Safon Uwch. Erbyn y flwyddyn academaidd 2021/22, roedd 4.2% o’r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt yna wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf. Mae’n dangos hefyd bod 1.0% o’r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith ddwy flynedd ynghynt wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

Mae canran y cofrestriadau TGAU Cymraeg sydd hefyd yn cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) wedi disgyn dros y degawd diwethaf. Un o'r rhesymau am y gostyngiad yw'r cynnydd cyffredinol yn y pynciau eraill sydd ar gael i'w hastudio fel Safon Uwch a'r pwyslais cynyddol ar astudio pynciau STEM. Mae'r niferoedd sy'n astudio Safon Uwch mewn Saesneg ac ieithoedd tramor modern hefyd wedi gostwng yn sylweddol – nid yw'n unigryw i'r Gymraeg. Noder nad yw'r 83% o ddysgwyr Blwyddyn 11 y cyfeirir atynt yn Siart 11 uchod (a oedd wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2021/22) wedi gorffen astudio cyrsiau Safon Uwch eto. Bydd rhaid aros nes bydd data casgliad 2022/23 a 2023/24 ar gael i ddangos y gwir sefyllfa ar hyn o bryd yn y niferoedd sy'n trosglwyddo o TGAU i Safon Uwch. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod disgyblion yn dilyn y llwybr TGAU iaith sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Un o ddeilliannau'r CSCA yw bod awdurdodau lleol yn cynllunio i gynyddu'r nifer sy'n astudio'r Gymraeg fel Safon Uwch. Mewn nifer o ardaloedd, mae'r niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg mewn ysgolion yn isel, ac ar sail hynny, mae ysgolion yn peidio â chynnig y pwnc. Fel rhan o'r CSCA newydd, byddwn yn monitro'r sefyllfa'n ofalus er mwyn sicrhau bod y pwnc ar gael ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, buom yn cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu asedau a brand ar gyfer rhedeg ymgyrch barhaus i hyrwyddo Cymraeg fel pwnc Safon Uwch. Cafodd yr ymgyrch ei lansio ym mis Medi 2022.

Mae cynyddu'r nifer sy'n astudio'r Gymraeg yn un o gamau gweithredu *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*, a hynny er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon Cymraeg i'r dyfodol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, rhoddwyd £145,000 i gefnogi'r gwaith hwn. Derbyniodd 63 o ysgolion a cholegau grantiau gwerth hyd at £3,000 yr un, i gefnogi gweithgareddau i wella profiadau dysgwyr o astudio'r Gymraeg, ac i gefnogi costau cynnal y ddarpariaeth mewn lleoliadau lle roedd nifer y dysgwyr a oedd yn astudio'r pwnc yn isel. Dyrannwyd cyllid hefyd i sefydlu a chynnal cynllun peilot i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc ymysg dysgwyr blynyddoedd 10 ac 11 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ledled Cymru. Cynhaliwyd y sesiynau yn ystod haf 2023. Hefyd, comisiynwyd gwerthusiad o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnal i hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2023.

## Addysg bellach


Yn y *Cytundeb Cydweithio*, rydym wedi ymrwymo i "*Buddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu cyfran y prentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg a chynnig darpariaeth dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed*".

Yn sgil yr ymrwymiad hwn, byddwn wedi buddsoddi cyllid ychwanegol erbyn 2024-25 i sicrhau bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynyddu'r gyfran o brentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Bydd y cyllid hwn hefyd yn galluogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed ac i'r gweithlu addysg.

Darparwyd £1.5m ychwanegol i'r Coleg yn ystod 2022-23. Defnyddiwyd y cyllid hwn i gefnogi colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i gynyddu eu capasiti addysg Gymraeg mewn meysydd blaenoriaeth fel iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, chwaraeon a hamdden ac astudiaethau ar dir. Roedd y cyllid hefyd yn cefnogi dau brosiect Addysg Gychwynnol Athrawon, gan gynnwys prosiect i ddenu israddedigion yn ôl i Gymru i hyfforddi fel athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym hefyd yn awyddus i weld cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach. Mae Siart 14 isod yn dangos y cynnydd a wnaed yn y maes hwn yn ôl y math o ddarparwr.

**Siart 14: Canran y gweithgareddau addysg ymgymerwyd â hwy gan ddysgwyr 19 oed neu iau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd**




Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR); Casgliad Ôl-16

[Nodyn 1] Mae "cyfrifion" yn eithrio cymwysterau Cymraeg, er enghraifft, TGAU Cymraeg, Safon Uwch Cymraeg, Cymraeg i Oedolion.

[Nodyn 2] Nid yw'r "cyfrifion" yn cynnwys nodau dysgu lefel Addysg Uwch.

[Nodyn 3] Pennir y math o ddarparwr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn ddibynnol ar y prif ddarparwr yn cyflwyno'r dysgu. Mae hyn yn wahanol i sail aelodau'r consortiwm a ddefnyddir mewn ystadegau a gyhoeddir mewn mannau eraill.

[Nodyn 4] Mae dysgu'n seiliedig ar waith yn cynnwys Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau. Mae darpariaeth Twf Swyddi Cymru+ (TSW+) wedi'i heithrio. Mae ystadegau TSW+ yn cael eu hadrodd ar sail blwyddyn ariannol, ar wahân i fathau eraill o ddarpariaeth a gesglir drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Daeth hyfforddeiaethau i ben ar 31 Mawrth 2022 gyda TSW+ yn dod i rym ar gyfer dechreuwyr newydd ar 1 Ebrill 2022.

Fel y gwelir yn Siart 14 uchod, mae canran y gweithgareddau dysgu sy’n cael eu cynnal yn Gymraeg neu’n ddwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach ac yn y sector dysgu seiliedig ar waith wedi cynyddu’n sylweddol ers 2017/18. Mae’r cynnydd hwn wedi’i ysgogi’n bennaf gan gynnydd yn nifer y gweithgareddau dwyieithog a ddarperir yn y sectorau hyn. Gwelwyd cynnydd graddol hefyd yn nifer y gweithgareddau sy’n cael eu cynnal mewn ysgolion dros yr un cyfnod.

Ers cyhoeddi *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Rhagfyr 2018), mae’r Coleg wedi cefnogi nifer o brosiectau strategol gyda 51 grant yn cael eu dyfarnu i golegau ac 11 grant i ddarparwyr prentisiaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Roedd y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth: iechyd a gofal, gofal plant, gwasanaethau cyhoeddus, chwaraeon ac astudiaethau ar dir, er mwyn sefydlu seilwaith cadarn ar gyfer y ddarpariaeth a chynyddu nifer y dysgwyr sy’n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

O ganlyniad, cyllidwyd 40 aelod o staff mewn colegau addysg bellach a 12 aelod o staff gyda’r darparwyr prentisiaethau yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Mae sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gyd-fynd â chymwysterau cyfrwng Cymraeg yn allweddol i dwf darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, datblygwyd nifer o adnoddau dysgu, gan gynnwys:

- Astudiaethau achos ar gyfer y sector Busnes.
- Ap newydd i gefnogi pobl sy’n astudio neu’n gweithio yn y maes chwaraeon i wella eu hyder wrth siarad Cymraeg.
- Adnodd VR / AR Fferm Diogel.

Mae Prentis-iaith, adnodd rhyngweithiol i’r sector prentisiaethau, yn parhau i fod yn hynod lwyddiannus wrth gynorthwyo prentisiaid heb sgiliau Cymraeg, neu ag ychydig sgiliau yn unig, i wella eu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd gwasanaeth cwsmer. Mae nifer o ddarparwyr prentisiaethau eisoes wedi ymgorffori Prentis-iaith yn eu rhaglenni, ac yn dilyn y galw am lefelau ychwanegol, mae adnoddau ar gyfer lefelau hyder a rhuglder wedi’u cyhoeddi er mwyn cynyddu sgiliau prentisiaid ymhellach.

Mae’r cynllun Llysgenhadon Dysgwyr i’r sector ôl-16 hefyd yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, roedd 71 o lysgenhadon yn hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg i'w cyfoedion ledled Cymru, gan gynorthwyo darparwyr i fagu hyder dysgwyr yn eu Cymraeg, ac i gynnig cyfleoedd i sgwrsio a deall pwysigrwydd siarad yr iaith, yn enwedig yn y gweithle. Mae hyfforddiant i diwtoriaid / ymarferwyr yn allweddol wrth fynd ati i ehangu’r ddarpariaeth. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, hyfforddwyd dros 600 yn y sector ôl-16.

Yn ystod yr un cyfnod, cefnogwyd 91 aelod o staff i godi hyder a’u galluogi i ddefnyddio’r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd drwy Raglen Fentora Genedlaethol i'r sector ôl-16.

Ym mis Awst 2021, lansiwyd y Cynllun Gwreiddio ar gyfer staff ôl-16 gyda'r bwriad o feithrin cymuned o staff er mwyn cynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod 2022/23, roedd 270 aelod o staff wedi'u cofrestru ar y Cynllun.

**Addysg uwch**


Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi prifysgolion i ddatblygu modiwlau a chyrsiau drwy grantiau ar y cyd â'r sefydliadau, yn hytrach nag ariannu swyddi darlithwyr, sy'n gwreiddio'r ddarpariaeth fel rhan annatod o'r arlwy. Bellach, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws 25 maes pwnc.

Yn 2022/23, dyfarnwyd dros 60 o grantiau i gefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys 55 grant pynciol a 5 grant sbarduno.

Dyfarnwyd 10 ysgoloriaeth ymchwil newydd yn 2022/23 mewn ystod o bynciau academaidd, gyda 32 ysgoloriaeth ymchwil yn parhau dan nawdd y Coleg.

Pan sefydlwyd y Coleg yn 2011, roedd 710 o staff mewn prifysgolion yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn hyn, mae'r ffigwr wedi codi i 1,065. Cefnogir y darlithwyr drwy raglen hyfforddiant staff academaidd misol sy'n cynnwys hyfforddi wyneb yn wyneb, dysgu o bell a gweithdai.

## Siart 15: Cofrestriadau mewn sefydliadau addysg uwch gan fyfyrwyr yng Nghymru gydag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[Nodyn 1] Nid yw'r niferoedd yn cynnwys y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach.
[Nodyn 2] Mae myfyrwyr yng Nghymru yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi cofrestru yng nghanolfan genedlaethol Cymru'r Brifysgol Agored.

Bu gostyngiad o 125 yn nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru a oedd yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu haddysg rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae nifer y cofrestriadau yn parhau i fod 1,180 yn uwch nag yn 2019/20. Noder y bu cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau yn gyffredinol rhwng 2019/20 a 2021/22.

Yn 2023, sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd a fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Bydd gan y Comisiwn newydd rôl hollbwysig i ehangu'r arlwy cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes addysg drydyddol. Yn benodol, bydd disgwyl i'r Comisiwn:

- Gynllunio'n strategol i hyrwyddo a chynyddu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.
- Annog darparwyr i gyflwyno, datblygu a chynyddu eu haddysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.
- Annog darparwyr i gynllunio llwybrau dilyniant fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu parhau â'u dysgu ôl-16 a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn creu gweithlu dwyieithog.

- Monitro argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw bynciau lle na ellir diwallu'r galw am ddysgu cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.
- Gweithio'n effeithiol ac yn strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni'r uchod.

**Dysgu Cymraeg**

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn 2015 er mwyn cydlynu darpariaeth a chynnig arweiniad i'r maes dysgu Cymraeg. Creu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau newydd yw nod y Ganolfan, a thrwy hynny, gyfrannu at wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu defnydd dyddiol o'r iaith.

Ar 31 Mawrth 2023, cyhoeddodd y Ganolfan set o ddata cyflawn ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22. Mae'r data'n dangos bod gan y Ganolfan 15,260 o ddysgwyr unigryw yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Mae'r data hefyd yn dangos y canlynol:

- Mae'r Ganolfan wedi darparu 27,345 o weithgareddau dysgu yn ystod 2021/22.
- Mae 68% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dyma'r lefel gychwynnol i ddechreuwyr).
- Mae 11% ar lefel Sylfaen a 23% ar lefelau Canolradd neu Uwch (gan gynnwys Hyfedredd).
- Mae 72% o'r dysgwyr rhwng 25 a 64 oed, 15% yn hŷn na 65, a 13% rhwng 16-24 mlwydd oed.

Ym mis Medi 2022, dechreuodd y Ganolfan weithredu'r cynllun Ymlaen Gyda'r Dysgu, sy'n cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl 16-25 oed. Mae'r cyrsiau wedi'u teilwra at allu yr unigolion boed yn gyrsiau blasu neu Fynediad hyd at lefelau Uwch a Hyfedredd. Mae gwersi am ddim hefyd yn cael eu cynnig i'r gweithlu addysg – boed yn benaethiaid, yn athrawon neu'n gynorthwywyr addysgu er mwyn cefnogi ein hymdrechion i gynyddu'r gweithlu a all addysgu drwy gyfwng y Gymraeg.

Mae'r Ganolfan hefyd yn arwain ar brosiect sy'n cymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu gydag addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Cynhaliwyd y cwrs cyntaf o'i fath ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer 15 o israddedigion er mwyn rhoi blas iddynt ar ddod yn diwtoriaid Dysgu Cymraeg neu'n athrawon. Caiff diweddariad pellach ei rannu yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan yn darparu cyrsiau Dysgu Cymraeg i'r gweithle gan gynnwys cyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein, cyrsiau gyda thiwtoriaid a chyrsiau preswyl dwys. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 6, y Gweithle, isod.

## 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

### Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar

Rydym wedi comisiynu ymarfer mapio o'r gweithlu gofal plant a chwarae. Dechreuodd y gwaith mapio hwn yn 2022-23 a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod gaeaf 2023-24. Nod y gwaith yw rhoi darlun cywir o faint a chyfansoddiad y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys y gweithlu presennol, patrymau dros y blynyddoedd blaenorol a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol ac anghenion disgwyliedig y dyfodol. Bydd yr ymchwil yn cael ei defnyddio i lywio polisi i gefnogi a datblygu'r gweithlu gofal plant a chwarae nawr a thros y pum mlynedd nesaf.

O ran hyfforddiant, yn ystod 2022-23, fe wnaeth rhaglen datblygu proffesiynol parhaus Academi Mudiad Meithrin gynnig hyfforddiant i dros 2,450 o aelodau staff a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru.

At hynny, drwy Gynllun Hyfforddi Cenedlaethol Mudiad Meithrin, fe wnaeth 15 prentis gymhwyso drwy'r Prentisiaethau Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ym mis Mawrth 2023. Yn ogystal, mae 5 prentis wedi cwblhau'r Prentisiaeth Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5 yn ystod 2023 a 18 prentis wedi cychwyn ar eu gwaith ym mis Ionawr 2023.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn adrodd, mae 96 o ddisgyblion ar draws 15 ysgol wedi bod yn rhan o gynllun Cam wrth Gam Ysgolion y Mudiad sy'n cynnig cymwysterau Lefel 1, Lefel 3, TGAU a Safon Uwch mewn gofal plant.

Fel rhan o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i Cwlwm yn ystod 2022-23 yn ymwneud ag ehangu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, mae £2.112m wedi'i ddarparu i Mudiad Meithrin am gyfnod o 24 mis i gefnogi'r gwaith o ddarparu 100 o recriwtiaid ychwanegol i ymgymryd â chymwysterau gofal plant Lefel 3 cyfrwng Cymraeg a 50 ychwanegol i ymgymryd â chymwysterau gofal plant cyfrwng Cymraeg Lefel 5.

Mae rhaglen hyfforddiant Camau y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd wedi galluogi ymarferwyr a darpar ymarferwyr i gymhwyso a gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Dilynodd 662 gwrs Camau yn ystod 2022-23. Yn ogystal, mae 146 o unigolion wedi cofrestru ar y cwrs Gwybodaeth am y Gymraeg (cwrs sy'n codi ymwybyddiaeth y gweithlu o bwysigrwydd cynyddu sgiliau ieithyddol Cymraeg er mwyn trosglwyddo i blant ifanc).

### Athrawon

Mae cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r newidiadau trawsnewidiol a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*. Er mwyn gallu gweld twf yn nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg, mae angen sicrhau gweithlu digonol i'w haddysgu ac mae hyn yn gallu bod yn heriol.

Yn *Cymraeg 2050*, rydym wedi gosod y nodau canlynol erbyn 2031:

- 3,900 o athrawon cynradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4,100 o athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r data diweddaraf o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), a hynny ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, yn dangos bod: 2,874 o athrawon cynradd sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 2,555 o athrawon uwchradd sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r ffigurau hyn yn dangos cynnydd felly yn nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf. Mae’r cynnydd i’w weld ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ond mae’r cynnydd yn fwy sylweddol ar gyfer ysgolion uwchradd (gweler Siart 16 isod).

Mae denu nifer digonol o athrawon i addysgu’r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau’n her. Yn ystod 2022-23, aethpwyd ati i weithredu nifer o’r camau a nodir yng *Nghynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*.

Er mwyn cynyddu nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu Cymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Rydym wedi newid gofyniad mynediad rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon o radd B i radd C ar gyfer TGAU Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg.
- Rydym wedi ariannu ugain lle arall i athrawon cynradd sydd am newid i fod yn athrawon uwchradd drwy’r Cynllun Pontio.
- Cyn y Pasg 2023, agorodd ail gylch y grant ar gyfer datblygu capasiti’r gweithlu cyfrwng Cymraeg, ac mae cyfanswm o £800,000 yn y gronfa. Mae hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddatrys rhai o’u heriau recriwtio.
- Mae’r Brifysgol Agored wedi ymestyn ei llwybrau addysgu ar sail cyflogaeth, er mwyn cynnwys dylunio a thechnoleg a chyfrifiadureg o fis Medi 2023 ymlaen.
- Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sefydlu Cadw Cyswllt sy’n hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr yn Lloegr ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu.
- Rydym hefyd wedi comisiynu Cyngor y Gweithlu Addysg i gynnal ymarfer cwmpasu, i ystyried llwybrau i addysgu ôl-16.

Mae mwy i’w wneud i gynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu a’r gweithwyr cymorth sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig i gefnogi ein dysgwyr mwyaf bregus. Ond, rydym wedi gallu bwrw ymlaen gyda rhywfaint o’r gwaith, gan gynnwys:


- Cynnal cynllun peilot yn darparu lleoliad blwyddyn i ddysgwyr sy’n gadael ysgol, er mwyn iddynt ddod yn gynorthwywyr addysgu mewn clwstwr o dair ysgol gynradd yn Nhorfaen.
- Ariannu nifer o brosiectau i gynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu drwy’r grant capasiti a gafodd ei lansio ym mis Mai 2022.

- Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu treialu swyddi llawnamser lle bydd y gweithwyr yn treulio rhai oriau fel cynorthwywyr addysgu a rhai oriau yn cefnogi gwasanaethau eraill – fel gofal cymdeithasol, gofal plant neu gynlluniau chwarae gwyliau haf. Y gobaith yw creu cynnig ffafriol, gyda swydd gydol y flwyddyn a 37 awr yr wythnos, er mwyn apelio at weithwyr gyda'r sgiliau iaith perthnasol.
- Byddwn ni'n penodi Arweinydd Gweithredu y Gymraeg, i gefnogi datblygiad dysgu proffesiynol a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn parhau i gefnogi athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, i ddatblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg a'i haddysgu drwy'r cynllun sabothol. Rydym hefyd wedi ariannu swyddog cenedlaethol i weithio ar draws y consortia rhanbarthol i ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol i gefnogi ymarferwyr. Mae'r gwaith hwn yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar, ond mae'n dwyn ynghyd y cyfoeth o arbenigedd sydd gennym ni ledled Cymru.

Ers mis Medi 2022, mae ymarferwyr addysg wedi gallu cael mynediad at gyrsiau am ddim drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ym mis Chwefror 2023, cytunwyd ar gyllid i'r Ganolfan benodi swyddog cenedlaethol i weithio gyda'r consortia rhanbarthol, yr awdurdodau lleol a'r darparwyr cynllun sabothol, i ddarparu rhaglen gydlynol i ymarferwyr ddysgu Cymraeg.

**Siart 16: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

## Y gweithlu ôl-16

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, fe wnaethom barhau i ariannu Sgiliaith i roi cefnogaeth ymarferol ar ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu'n ddwyieithog i diwtoriaid mewn colegau addysg bellach, ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n cwblhau eu haddysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Fel bod modd i fyfyrwyr ymgymryd â mwy o'u haddysg yn ddwyieithog, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnal rhaglen Cymraeg Gwaith benodol ar gyfer y sector addysg bellach ac addysg uwch er mwyn datblygu sgiliau iaith tiwtoriaid a darlithwyr. Yn ystod 2022-23, dilynodd 762 o gyflogeion y cwrs Dysgu, gyda 7 prifysgol a 12 o golegau addysg bellach wedi ymrwymo i'r cynllun. Hefyd, dilynodd 310 o gyflogeion y cwrs Hunan-Astudio gyda chymorth tiwtor.

## Adnoddau addysg

Drwy gydweithio â gwahanol sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector, y sector creadigol a chyhoeddwyr, sicrhawyd bod amrywiaeth o adnoddau ar gael yn ddigidol i gefnogi dysgwyr yn ystod y flwyddyn adrodd.

Un o'r adnoddau a gafodd sylw yn ystod y flwyddyn oedd adnoddau Mwy o Stori'r Iaith a gyhoeddwyd gan Atebol fis Mawrth 2023 yn sgil dyfarnu grant i gwmni Rondo. Roedd yr adnoddau digidol yn cyd-fynd â'r gyfres deledu a ddarllenwyd ar S4C yn gynnar yn ystod y flwyddyn hon, Stori'r Iaith.

Parhawyd â'r gwaith o ddatblygu adnoddau ar gyfer dysgu am hanes a chyfraniad Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn unol ag argymhellion yr Athro Charlotte Williams. Bydd yr adnoddau a gomisiynwyd yn cael eu cyhoeddi ar hyd blwyddyn ariannol 2023-24.

Dyfarnwyd grant o dros £800,000, ar y cyd ag Is-adran y Cwricwlwm, i Gyngor Llyfrau Cymru dros gyfnod o dair blynedd (2022-25) i greu deunyddiau darllen i ddysgwyr 3-16 oed sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Bydd y cynllun yn cefnogi amcanion 4 diben Cwricwlwm i Gymru, yn cefnogi datblygiad sgiliau empathi allweddol, yn cyfrannu at les emosiynol a meddyliol ac yn tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr.

Dyfarnwyd grant i Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, barhau i gynnal ac ychwanegu at y Termiadur Addysg ar-lein. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd dros 650 o dermau newydd ac atebwyd 250 o ymholiadau yn ymwneud â thermau o amrywiol feysydd ym myd addysg.

Er mwyn cefnogi cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol ac Uwch, cyhoeddwyd dros 17 teitl newydd yn ystod 2022-23 drwy grant a ddarparwyd i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), i ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau a llyfrau adolygu.

Parhaodd y gwaith gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i adnabod yr angen am adnoddau digidol dwyieithog i fyfyrwyr ôl-16 ym meysydd iechyd a gofal, gofal plant, amaethyddiaeth, a gwasanaethau cyhoeddus i’w defnyddio ar gyfer darpariaeth dysgu cyfunol, ynghyd ag adnoddau i gefnogi prentisiaethau.

Parhaodd y gwaith datblygu ar sawl adnodd Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Dyfarnwyd grant i RNIB i greu adnoddau braille, print bras a sain.

Ym mis Rhagfyr 2022, dyfarnwyd grant o £272,000 i GwE ddatblygu cynllun Ein Llais Ni. Bydd y cynllun hwn yn meithrin hunan hyder a lles dysgwyr a’u datblygu’n gyfathrebwyr dwyieithog hyderus, yn arbrofi â strategaethau (gan gynnwys defnyddio arfau digidol) er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd yn y Gymraeg.

Ar 3 Mawrth 2022, cyhoeddwyd ein bwriad i sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant i ddarparu trosolwg strategol o’r ddarpariaeth o adnoddau Cymraeg a dwyieithog i gefnogi Cwricwlwm i Gymru a’i gymwysterau ac i gomisiynu adnoddau lle bo angen. Mae Adnodd bellach wedi ei sefydlu ers 1 Ebrill 2023, a chaiff diweddariad pellach ei rannu yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

# Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Uchod, rydym wedi manylu ar un o brif dargedau *Cymraeg 2050* sef cynyddu'r niferoedd a all siarad Cymraeg. Yr ail brif darged yw cynyddu defnydd o'n hiaith. Mae'n hanfodol bwysig cofio am yr ail darged hwn yng ngoleuni cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 o ran y Gymraeg gan nad yw'r data hwnnw yn gallu dweud dim wrthym ni am ddefnydd iaith.

Rydym ni'n credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac rydym ni am i bawb, waeth faint o Gymraeg sydd ganddyn nhw, deimlo'n hyderus i'w defnyddio bob dydd. Ac rydym ni'n creu cyfleoedd ar gyfer y defnydd dyddiol hwnnw. I gefnogi hyn, dywed y *Rhaglen Lywodraethu* ein bod am "*Gefnogi'r cynnydd mewn gofodau Cymraeg, gan gynnwys gweithleoedd*" ac fe ddywed y *Cytundeb Cydweithio* ein bod am "*Hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol mewn mwy o leoedd*." Rydym yn manylu ar ein gwaith yn y maes hwn yn yr adran hon.

## Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Rydym ni wedi gosod targed i gynyddu canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o'n hiaith i o leiaf 20% erbyn 2050 i gyd-fynd â'r twf mewn siaradwyr. Mae'r darged hon hefyd yn un o'r dangosyddion cenedlaethol a nodwyd yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015](https://).

Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith achlysurol. I'r perwyl hwnnw, cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith diweddaraf ym mis Gorffennaf 2019 ond effeithiodd COVID-19 ar y gwaith. Rydym yn manylu ar ganlyniadau'r arolwg hwn yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf.

Mae arolygon defnydd iaith (2013-15 a 2019-20) yn dangos bod 10% o'r boblogaeth yn parhau i siarad Cymraeg yn ddyddiol a mwy nag ychydig o eiriau. Mae hyn felly'n golygu bod hanner siaradwyr Cymraeg yn defnyddio eu Cymraeg bob dydd.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddwyd dadansoddiad newydd o Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 sy'n adrodd ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, gan gynnwys defnydd o'r iaith o fewn gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd cymdeithasol.

Siaradwyr Cymraeg y Gogledd-orllewin, siaradwyr Cymraeg rhugl, rhai sy'n siarad yr iaith bob dydd a'r rhai a oedd wedi dechrau dysgu siarad yr iaith gartref yn blant ifanc sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u grwpiau cymdeithasol.

Roedd tua thraean o siaradwyr Cymraeg wedi mynd i ddigwyddiad cymdeithasol neu weithgaredd a gynhaliwyd yn Gymraeg yn ystod y 12 mis blaenorol, ac roedd 23% ychwanegol wedi mynd i o leiaf un digwyddiad a gynhaliwyd drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Dywed bron 70% o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fod mwy o'u ffrindiau'n gallu siarad Cymraeg nag sy'n methu. Mae plant a phobl ifanc sy'n gallu siarad


Cymraeg yn fwy tebygol o wneud hynny gyda'u ffrindiau yn yr ysgol nag ydyn nhw o siarad Cymraeg â ffrindiau y tu allan i'r ysgol.

Mae tua dwy ran o dair o blant a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg yn dweud eu bod yn cael digon o gyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Roedd pedwar o bob deg o blant a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg wedi mynd i o leiaf un digwyddiad a gynhaliwyd drwy'r Gymraeg dros y 12 mis diwethaf, a 24% arall wedi mynd i o leiaf un digwyddiad a gynhaliwyd drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi crynodebau pwnc am ddefnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg, defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canlyniadau sy'n weddill am y defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau mewn bwletin ystadegol ar wahân. Byddwn yn cyfuno data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 lle bo'n berthnasol.

Er mai arolygon defnydd iaith sy'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at y targed hwn, er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, rydym hefyd yn defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion (16 oed neu hŷn).

**Siart 17: Canran y bobl 16 oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran yr oedolion 16 oed neu hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg wedi aros yn eithaf sefydlog, yn debyg iawn i ganfyddiadau Arolwg Defnydd Iaith 2019-20. 11% oedd y ganran yn 2022-23.

Ceir mwy o wybodaeth ar hyn yn yr adran Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, isod.

**Defnydd iaith yn yr ysgol – Y Siarter Iaith**

Mae'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig (Cymraeg Campus, Siarter Iaith ysgolion uwchradd, a Cymraeg Bob Dydd) yn gweithredu yn ein hysgolion i gynyddu defnydd iaith ymhlith pobl ifanc o 3-18 oed.

Nod y Siarter yw creu dinasyddion dwyieithog y dyfodol, a fydd yn:

- Siaradwyr Cymraeg greddfol, naturiol, cyfforddus a hyderus.
- Defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd eu hunain.
- Siarad Cymraeg â'i gilydd p'un a ydyn nhw'n dod o gartrefi Cymraeg ai peidio.
- Hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg a bod ag agwedd gadarnhaol tuag ati.

Mae pedwar cynllun gwahanol yn rhan o'r Siarter:

- Siarter Iaith ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd Cymraeg.
- Siarter Iaith Uwchradd ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg.
- Cymraeg Campus ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
- Cymraeg Bob Dydd ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Rydym yn ariannu'r Urdd i gefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gyda'r Siarter Iaith, a'r consortia addysg rhanbarthol neu siroedd unigol sy'n darparu'r tri chynllun arall.

Yn ystod 2022-23, buom yn gweithio i gryfhau'r cysylltiad rhwng y Siarter Iaith a phartneriaid allanol drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd i rannu diweddariadau ac arferion gorau. Wrth weithio ar y cyd â'n partneriaid, dechreuom ar y gwaith o ysgrifennu Fframwaith Siarter Iaith newydd gyda'r nod o'i gyhoeddi yn ystod 2024-25. Gweithiwyd ar y cyd â Plant yng Nghymru i gynnal grwpiau ffocws gyda phobl ifanc mewn pum ysgol uwchradd Gymraeg er mwyn casglu eu barn am addysg Gymraeg.

O dan ambarél y Siarter Iaith, cyhoeddwyd y trydydd llyfr yng Nghyfres Seren a Sbarc a chyhoeddwyd fideos carioci sydd wedi profi'n boblogaidd iawn mewn ysgolion ledled Cymru. Mae Radio Cymru 2 hefyd wedi dechrau creu rhestrau chwarae newydd bob mis sef Miwsig y Siarter Iaith. Mae'r rhestrau'n cynnwys awr o gerddoriaeth gyfoes Gymraeg i gyd-fynd â'r Siarter ac yn hynod boblogaidd.

## 6. Y gweithle

Un o amcanion *Cymraeg 2050* yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan fod "*y gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ... [ac yn] gyfle i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Gymraeg*."

**Cymraeg Gwaith**

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyrsiau sy'n amrywio o gyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein i gyrsiau dysgu dwys. Yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd ohoni, mae Cymraeg Gwaith hefyd yn caniatáu i gyrff ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'w defnyddwyr.

Roedd y flwyddyn adrodd yn flwyddyn arall lwyddiannus i'r rhaglen. Fe wnaeth 637 o gyflogwyr fanteisio ar gyrsiau Cymraeg Gwaith yn ystod 2022-23, gyda 147 ohonynt yn gyflogwyr newydd i'r cynllun.

Mae Cymraeg Gwaith yn darparu cyrsiau ar draws ystod o lefelau. Fe wnaeth 5,748 o bobl ddilyn cyrsiau blasu hunan-astudio, 690 fanteisio ar gyrsiau hunan-astudio gyda chymorth tiwtor, 589 yn dilyn cyrsiau dysgu gyda thiwtor a 45 o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn cyrsiau dysgu dwys yn ystod 2022-23.

Yn ogystal, fe brofodd y cyrsiau sectorol yn boblogaidd unwaith eto yn ystod 2022-23, gyda 1,072 yn cymryd rhan yn y cyrsiau i'r sectorau addysg bellach ac uwch, 333 yn y cyrsiau ar gyfer penaethiaid ac athrawon, 831 yn y rhaglen i awdurdodau lleol, 401 yn y rhaglen i'r sector iechyd a 808 yn y rhaglen Camau sydd wedi cael ei datblygu'n benodol ar gyfer gweithwyr gofal plant.


**Y defnydd o'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru**

Yn ein strategaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn Llywodraeth Cymru, *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*, rydym yn gosod nod hirdymor i ddatblygu a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y sefydliad. Ein nod yw i'r holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru allu deall Cymraeg erbyn 2050, sy'n golygu y byddai'n dod yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio'n naturiol ac yn gyfnewidiol.

Yn ogystal â gosod nod hirdymor ar gyfer 2050 yn y strategaeth, rydym hefyd yn gosod amcan tymor byrrach ar gyfer y cyfnod hyd at 2025. Yn ystod y pum mlynedd gyntaf, ein hamcan yw gweld Llywodraeth Cymru yn dod yn sefydliad sy'n dangos esiampl o ran cynyddu defnydd mewnol o'r iaith pan gaiff ei asesu yn erbyn sefydliadau cymaradwy yn sector cyhoeddus Cymru.

Dros y tair blynedd ddiwethaf ers cyhoeddi'r strategaeth, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r pedair thema sy'n sail iddi: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg. Rydym wedi cynyddu ac ehangu ein rhaglen dysgu Cymraeg, sydd wedi arwain at gynnig mwy amrywiol a hygyrch ac sydd wedi denu mwy o ddysgwyr i'r rhaglen. Ym mis Mai 2020, roedd 76 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru. Ond, erbyn Mai 2023 roedd y nifer wedi codi i 613.

**Siart 18: Nifer y dysgwyr sy'n dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru**




Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg

Mae ein harlwy dysgu Cymraeg i staff yn cynnwys 10 opsiwn gwahanol erbyn hyn:


- Dosbarthiadau wythnosol
- Cwrs Bloc Dwys
- Hunan-astudio ar-lein
- Dysgu 1:1
- Codi Hyder
- Gloywi
- SaySomethinginWelsh
- Ynganu Cymraeg
- Cyrsiau Preswyl
- Cwrs Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol

Eleni hefyd cynhaliwyd peilot i gyflwyno'r Dystysgrif Sgiliau Iaith am y tro cyntaf i 9 o'n staff. Llwyddodd pob un o'r 9 i ennill y cymhwyster sydd yn brawf o'u sgiliau gweithio'n ddwyieithog. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r criw dros y misoedd nesaf i sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Darperir cefnogaeth i'n dysgwyr hefyd ymarfer eu sgiliau'n gyson drwy raglen fentora helaeth, rhwydweithiau trafod Cymraeg ar Microsoft Teams a sesiynau ymarfer anffurfiol dan ofal tiwtor.

Rydym yn pwysleisio yn ein deunydd recriwtio fod y Gymraeg yn ased yn Llywodraeth Cymru waeth beth yw'r rôl sy'n cael ei hysbysebu. Lansiwyd rhaglenni eleni i gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar yn ystod y cyfnod cynefino i garfan

o brentisiaid a ymunodd â'r cynllun prentisiaeth am y tro cyntaf. Mae ein ffocws ar ein huwch-arweinwyr hefyd yn parhau gyda rhaglen gynefino i newydd ddyfodiaid i'r Uwch Wasanaeth Sifil. Cynhaliwyd seminar arweinyddiaeth i'n huwch-weision sifil gyda Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru, a bu'n trafod ei weledigaeth bersonol i ddatblygu'r iaith o fewn y llu.

**Siart 19: Canran gweithlu Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith**




Ffynhonnell: Arolwg Pobl (Llywodraeth Cymru) a Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (Swyddfa Cabinet y DU)

[Nodyn 1] Ni chafodd yr arolwg ei chynnal yn 2015. Yn 2016 cafodd y categori "Mwy o Saesneg na Chymraeg" ei rannu'n dri chategori pellach, sef "mwy o Saesneg na Chymraeg ond yn siarad Cymraeg bob dydd, yn wythnosol, neu'n llai aml nag wythnosol".
[Nodyn 2] Mae'r canlyniadau a ddangosir ar gyfer 2016 a 2019/20 wedi'u cymryd o'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2020 (gan ystyried y flwyddyn o Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020). Mae'r canlyniadau eraill wedi'u cymryd o Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (sy'n cael eu cynnal gan Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig ym mis Hydref fel arfer). I raddau helaeth, yr un holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau arolwg ac fe'u cynhaliwyd yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Pobl 2020 wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth 2020, roedd y gyfradd ymateb ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd COVID-19.

Mae data Siart 19 uchod yn dangos fod 33% o weithlu Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith – cynnydd o 3 pwynt canran ers y flwyddyn ddiwethaf. Drwy gyrraedd ein nod o weld yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050, byddwn yn galluogi ein staff i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd, ac fe fydd yna gynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith o ganlyniad i hynny.

**Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog**

Rhaglen 'iaith mewn arweinyddiaeth' yw hon. Mae'r sawl sy'n mynychu'n cael cnoi cil ar eu barn a'u profiadau nhw o ddwyieithrwydd. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â meysydd megis:

- Bias isymwybodol
- Iaith a phŵer
- Iaith a diwylliant
- Ymddygiadau arweinwyr
- Gweledigaeth a gwerthoedd

Mae'n rhaglen ar y cyd rhwng cwmni o arbenigwyr allanol, Is-adran Cymraeg 2050 ac Academi Wales. Eleni, rydym wedi bod yn paratoi i wahodd trydydd cohort o arweinwyr i fynychu'r rhaglen, ac yn edrych i'w datblygu dros y 5 mlynedd nesaf.

## 7. Gwasanaethau

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

Yn y *Cytundeb Cydweithio*, rydym yn ymrwymo i:

*Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i leihau rhwystrau wrth bennu Safonau'r Gymraeg; symleiddio'r broses ar gyfer gweithredu safonau, heb wanhau eu heffaith; gweithredu safonau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cyrff cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai, i'w gwblhau yn ystod tymor y Senedd. Rydym wedi ymrwymo i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn llawn a byddwn yn llunio rhestr ar gyfer blaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno safonau pellach o dan ei atodlenni y tu hwnt i gyfnod y cytundeb hwn*.

Fe wnaeth y gwaith o baratoi rheoliadau safonau barhau yn ystod 2022-23. Cymeradwywyd Rheoliadau i wneud safonau'n gymwys i Reoleiddwyr Iechyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022. Fe ddaeth y Rheoliadau hynny i rym ar 31 Hydref 2022 ac mae'r cyrff bellach yn cydymffurfio â'r safonau o dan oruchwyliaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar reoliadau safonau drafft i wneud safonau'n gymwys i gwmnïau dŵr rhwng Chwefror ac Ebrill 2023. Cafodd y rheoliadau hynny eu cymeradwyo gan y Senedd ar 19 Medi 2023 ac fe fydd y rheoliadau yn dod i rym ar 31 Hydref sy'n galluogi Comisiynydd y Gymraeg i ddechrau'r broses o osod safonau ar gwmnïau dwr.

Y cam nesaf yw mynd ati i baratoi safonau ar gyfer cyrff trafnidiaeth gyhoeddus, cyrff cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau, a chymdeithasau tai, a hynny fel rhan o'r *Cytundeb Cydweithio*.

**Helo Blod**

Mae Helo Blod yn helpu unigolion, busnesau, elusennau a chyrff y trydydd sector i ddefnyddio rhagor o Gymraeg drwy gynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 500 gair y mis, yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun Cymraeg. Mae hefyd yn ateb ymholiadau o bob math gan fusnesau am y Gymraeg, yn darparu nwyddau Iaith Gwaith ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth mewn sefydliadau perthnasol. Gellir cysylltu â Helo Blod dros y ffôn, drwy'r wefan, e-bost, a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod 2022-23, fe wnaeth gwasanaeth Helo Blod:

- Dderbyn 3,548 o geisiadau cymorth a chyfieithu – 1,692 gan fusnesau, 1,406 gan elusennau a 450 gan unigolion.
- Cyfieithu 513,001 o eiriau o Saesneg i'r Gymraeg a gwirio 23,585 o eiriau Cymraeg.
- Croesi'r garreg filltir o gyfieithu 1 miliwn o eiriau o Saesneg i'r Gymraeg ers sefydlu'r gwasanaeth.
- Creu 1,059 o gyfrifon ar gyfer y gwasanaeth yn y cyfnod: 491 gan fusnesau, 252 gan elusennau a 317 gan unigolion.
- Creu 139 o gyfrifon gan fusnesau ac elusennau y tu allan i Gymru.
- Caerdydd (96) oedd yr ardal gyda'r nifer fwyaf o gyfrifon newydd yn cael eu creu gan fusnesau ac elusennau, gyda Gwynedd yn ail (72) a Sir Gâr (56) yn drydydd.
- Y sector diwylliant creadigol (92) oedd gyda'r nifer uchaf o fusnesau'n creu cyfrifon gydag 'amrywiol' (46) yn ail, a thwristiaeth (39), gofal iechyd a therapi cyflenwol (37), a manwerthu (35) hefyd yn uchel.

***Mwy na geiriau 2022-27***

Bwriad *Mwy na geiriau*, fframwaith strategol ar gyfer cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal, yw sicrhau bod sefydliadau iechyd a gofal yn cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal, a bod pobl sydd angen gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol.

Cyhoeddwyd cynllun newydd *Mwy na geiriau 2022-27* ym mis Awst 2022. Datblygwyd y cynllun gan grŵp gorchwyl a gorffen yn dilyn gwerthusiad annibynnol o'r cynllun *Mwy na geiriau* blaenorol.

Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu o dan bedair thema:

- Diwylliant ac arweinyddiaeth
- Cynllunio a pholisïau'r Gymraeg
- Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu
- Rhannu arfer gorau

Mae'r cynllun wedi'i osod yn y cyd-destun bod Cymraeg yn perthyn i ni i gyd ac fe ddylid ei ymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled

Cymru fel bod unigolion yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano.

Un o uchafbwyntiau misoedd cyntaf gweithredu *Mwy na geiriau* oedd cyflwyno cwrs hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gorfodol i holl staff y GIG yng Nghymru yn ystod yr hydref 2022.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, dechreuwyd hefyd ar y gwaith o sefydlu Bwrdd Cynghori ar gyfer *Mwy na geiriau* i fonitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Mae'r Bwrdd Cynghori yn ei le ers haf 2023 a bydd yn cefnogi datblygiad a chyflwyniad y cynllun *Mwy na geiriau* trwy gynnig cyngor a her gadarn, gan sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid yn cael eu hystyried mewn ffordd gytbwys, ar lefel rhaglen gyfan strategol. Bydd hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gynnydd ac yn gwneud argymhellion lle mae angen gwneud cynnydd pellach.

## 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Mae cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn hanfodol er mwyn i ni allu cyrraedd ein targed o ddyblu defnydd dyddiol o'n hiaith. Gan nad yw'r Gymraeg yn iaith fwyafrifol ledled Cymru, rhaid cynllunio i greu, gwarchod ac ehangu cyfleoedd a gofodau lle gallwn ddefnyddio'n Cymraeg gyda'n gilydd.

Un math o ofod uniaith Gymraeg yr ydym wedi cynyddu ein hymwneud ag ef yw mudiadau cydweithredol. Mae'r rhain hefyd, wrth gwrs, yn cynnig cyfleoedd gwaith a chyfraniad i'r economi ac weithiau'n cynnig swyddogaeth gymdeithasol bwysig, a hynny oll yn Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, ac yn sgil trafodaethau gyda Busnes Cymdeithasol Cymru, a Chwmpas (Canolfan Gydweithredol Cymru gynt), rydym wedi sefydlu prosiect *Perthyn* i gefnogi cymunedau i greu mentrau cydweithredol newydd. Rydym yn gweithredu hyn fel rhan o'n *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*. Mae dwy elfen i brosiect *Perthyn.* Y cyntaf yw cynnig cyngor a chymorth arbenigol i fentrau cymunedol i droi syniadau'n fentrau cymdeithasol neu gynlluniau tai cydweithredol wedi'u harwain gan y gymuned. Yn ystod y cyfnod, cefnogwyd 10 grŵp i sefydlu menter gydweithredol.

Yr ail elfen yw cronfa grant bach gwerth £250,000 i helpu mentrau cydweithredol newydd neu rai sydd eisoes yn bodoli i ddatblygu cynlluniau newydd. Mae'r gronfa hon yn cynnig cymorth ariannol o hyd at £12,500 ar gyfer costau sefydlu neu ymchwilio ymhellach ar gyfer datblygu'r cynllun busnes.

### Grantiau

Yn ystod 2022-23, dyrannwyd grantiau i 42 o sefydliadau o dan y Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg er mwyn cynyddu'r defnydd o'n hiaith ar lefel gymunedol ac yn genedlaethol. Bwriad y cyllid hwn yw galluogi sefydliadau i ysgogi, datblygu a chynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn creu pont rhwng addysg ffurfiol a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn gymdeithasol.

Mae gwaith sefydliadau megis yr Urdd, Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc, y mentrau iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol oll yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae'r rhwydwaith o 21 o fentrau iaith yn gweithredu ystod eang o weithgareddau ar draws ein cymunedau a hynny yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen yn sgil gwaith o greu proffiliau iaith yn lleol. Yn ystod y flwyddyn adrodd, aeth nifer o'r mentrau iaith ati i barhau i ailgydio mewn nifer o weithgareddau wyneb yn wyneb yn y gymuned wedi COVID-19.
- Cynhaliwyd gŵyl Tafwyl, gŵyl Gymraeg Menter Caerdydd, yn y castell yn ystod y flwyddyn adrodd. Braf oedd gweld yr ŵyl yn llwyddo i ddenu miloedd yn ystod y penwythnos a bod eu digwyddiadau ymylol hefyd yn parhau i fynd o nerth i nerth.
- Dyrannwyd grantiau i 56 o bapurau bro yn ystod 2022-23. Mae'r grant hwn yn cael ei weinyddu gan Mentrau Iaith Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd pwyslais yn ystod y flwyddyn ar ddenu gwirfoddolwyr newydd i helpu'r rhwydwaith o bapurau bro.
- Cynhaliodd Merched y Wawr 4,526 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb gyda 50,000 yn mynychu.

Fe wnaeth y gwaith ar *Adolygiad o Grant i Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg* barhau yn ystod y cyfnod. Byddwn ni'n defnyddio'r adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, i greu cynllun grant newydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

**Eisteddfod yr Urdd**

Er bod Eisteddfod T, sef eisteddfod rithiol yr Urdd wedi bod yn llwyddiant ysgubol, braf oedd gweld Eisteddfod yr Urdd yn ôl ar ffurf gŵyl gyda maes go iawn yn 2022. Llwyddodd Sir Ddinbych a'r ardal i lwyfannu Eisteddfod arbennig, ac yn sgil ymrwymiad yn ein *Rhaglen Lywodraethu,* darparwyd cyllid ychwanegol un-tro i'r Urdd gynnig mynediad am ddim i bawb i'r Eisteddfod. Gwnaed hyn i ddathlu canmlwyddiant y sefydliad er mwyn dangos gwerthfawrogiad Cymru o waith yr Urdd dros y ganrif ddiwethaf, yn enwedig dros gyfnod heriol y pandemig.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, buom yn gweithio'n agos gyda'r Urdd i baratoi at Eisteddfod Sir Gâr 2023. Byddwn yn adrodd ar lwyddiant yr Eisteddfod honno yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Yn ystod yr Eisteddfod, fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gyhoeddi buddsoddiad o £200,000 y flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd i ailsefydlu Theatr Ieuenctid yr Urdd. Bydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc 14-19 oed fwynhau ac ehangu eu profiadau celfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg ar y llwyfan a chefn llwyfan.

**Chwaraeon yr Urdd**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, derbyniodd yr Urdd gyllid gan Chwaraeon Cymru yn ogystal â chyfraniad fel rhan o'u grant craidd *Cymraeg 2050*. Wrth i'r flwyddyn

fynd yn ei blaen, aeth gwaith chwaraeon yr Urdd o nerth i nerth wrth iddynt adfer o gyfnod y pandemig.

Mae’r gyllideb yn parhau i gael ei defnyddio i ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc ledled Cymru gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r cynllun yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen ar draws amrywiol chwaraeon gan gynnwys pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, gymnasteg ac aml-sgiliau.

Chwaraeodd yr Urdd ran yng Nghwpan Pêl-droed y Byd Dynion FIFA 2022 yn Qatar hefyd er mwyn hyrwyddo ein hiaith a’n diwylliant dramor.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**

Er bod Eisteddfod AmGen wedi bod yn llwyddiant ysgubol yn ystod cyfnod y pandemig, roedd hi’n arbennig o braf cael gweld yr Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i faes ‘go iawn’ yn Nhregaron, Ceredigion ym mis Awst 2022. Darparwyd cyllid ychwanegol i’r Eisteddfod Genedlaethol allu cynnig mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel yn 2022.

Nid ar chwarae bach y mae llwyfannu Eisteddfod – mae gwirfoddolwyr ar hyd a lled Cymru a’r rheiny sy’n croesawu'r Eisteddfod i’w hardal leol bob blwyddyn yn ganolog i’r cyfan. Rydym yn parhau felly i gydweithio â’r Eisteddfod i sicrhau bod effaith yr ŵyl ar y Gymraeg a chymunedau yn cychwyn yn syth wedi i’r Eisteddfod gyhoeddi ei lleoliadau newydd. Mae gan yr Eisteddfod swyddog cymunedol yn gweithio’n ddwys o fewn y gymuned, ac edrychwn ymlaen i weld ffrwyth ei gwaith a’r gymuned yn dod yn fyw wrth i ni nesáu at Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024.

Rydym yn parhau i gefnogi’r Eisteddfod wrth iddynt adfer o gyfnod heriol COVID-19. Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw, rydym wedi cynyddu grant craidd yr Eisteddfod Genedlaethol i £1m. Mae’r gefnogaeth wedi gwneud yr Eisteddfod yn fwy hygyrch a chynaliadwy.

**Siaradwyr Cymraeg newydd**

Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg newydd ddefnyddio’u sgiliau mewn cymunedau, trwy’r cynllun Cefnogi Dysgwyr.

Mae’r Ganolfan yn cydlynu cynllun Siarad er mwyn cynnig cefnogaeth i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus mewn cyd-destun anffurfiol. Nod y cynllun yw magu hyder dysgwyr drwy ddarparu cyfleoedd am sgwrs anffurfiol. Mae'r cynllun Siarad yn tyfu'n flynyddol, gyda dros 371 o barau'n weithredol ar ddiwedd Mawrth 2023.

Mae’r Ganolfan hefyd yn gweithredu cynllun Mwynhau’r Gymraeg mewn partneriaeth â’r mentrau iaith i sicrhau bod siaradwyr newydd yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau’r Mentrau.

**Dydd Miwsig Cymru**

Cynhaliwyd Dydd Miwsig Cymru (DMC) am yr wythfed tro ar 10 Chwefror 2023. Ers cychwyn yr ymgyrch, y prif nod yw cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i gynulleidfa newydd, ond mae hyn wedi datblygu i gydnabod pwysigrwydd annog digwyddiadau cymunedol lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg. Yn dilyn y pandemig mae'n galonogol bod cynifer o ddigwyddiadau byw wedi'u cynnal fel rhan o'r dathliadau yn 2023. Cynhaliwyd dros 30 o ddigwyddiadau Cymraeg ledled Cymru, o gigs mewn tafarndai cymunedol i gigs mawr yn ein dinasoedd. Dyma'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau ers dechrau'r ymgyrch.

Fel rhan o DMC 2023 hefyd, lansiwyd Sound of Miwsig – Yr artistiaid sydd am wneud tonnau yn 2023 sef yr arolwg blynyddol cyntaf o'r artistiaid sy'n gwneud tonnau ym myd cerddoriaeth Gymraeg yn 2023. Bu dros 80 o arbenigwyr o'r diwydiant yn pleidleisio a chyhoeddwyd y canlyniadau o 5 i 9 Chwefror. Coronwyd Lloyd, Dom James a DON yn enillwyr cyntaf Sound of Miwsig 2023.

Mae'r ymgyrch hefyd yn gyfle i gydweithio â chwmnïau mawrion ac eleni gwelwyd cefnogaeth i'r ymgyrch gan Dŵr Cymru, EE, Joe's Ice Cream a'r Co-op yn ogystal â busnesau lleol dros y cyfryngau cymdeithasol a thrwy gynnal digwyddiadau mewn amrywiol fusnesau.

Llwyddodd yr ymgyrch eto i ddenu sylw yn y wasg Gymreig a Phrydeinig, gydag eitemau ar BBC News, BBC 6 Music, BBC Radio 4, Radio 5 Live Drive, Radio X, Nation.cymru, ITV Wales News, Sky News ac eraill.

Yn dilyn llwyddiant cynllun Llwyfan yn 2021, dyrannodd Lywodraeth Cymru grant am yr eildro i gwmni allanol yn ystod y cyfnod adrodd i barhau i weithio i helpu pobl ifanc i ymddiddori yn y cyfryngau cyfrwng Cymraeg ac i ddysgu sgiliau recordio, golygu a chyhoeddi podlediadau a rhaglenni radio.

Mae'r prosiect yn cyfuno'r elfennau hyn ar blatfform sy'n gwasanaethu dysgwyr 7-11 mlwydd oed gan ganolbwyntio yn y tymor byr ar Ddydd Miwsig Cymru a gofynion y Siarter Iaith. Bwriad y prosiect yw cryfhau ac atgyfnerthu sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg pobl ifanc wrth iddynt ddysgu am sgiliau aml-gyfryngol. Bydd hefyd yn cysylltu gyda chartrefi'r disgyblion drwy ddarparu ystod eang o ddigwyddiadau allgyrsiol sy'n apelio at y teulu cyfan er enghraifft cwis i'r teulu er mwyn estyn y Gymraeg i gartrefi ein pobl ifanc ledled y wlad.

# Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nod y thema hon yw cefnogi'r camau a amlinellir yn themâu un a dau uchod, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy greu amodau addas a meithrin amgylchedd lle gall ein hiaith a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod gennym ni dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas.

## 9. Y gymuned a'r economi

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi fwriad y Llywodraeth i fuddsoddi £11m dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer rhaglen ARFOR. Bwriad y cyllid hwn yw adeiladu ar y gwerthusiad o raglen flaenorol ARFOR gyda'r nod o sicrhau ffyniant economaidd yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Mae Rhaglen ARFOR yn rhan o'r *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru ac yn weithredol o fewn ffiniau awdurdodau lleol, Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn.

Mae'r rhaglen newydd yn cynnwys pedwar amcan strategol sef:

- Creu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc (≤ 35 oed) aros neu ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid – gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn cyflawni eu dyheadau.
- Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg – drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu i gadw a chynyddu cyfoeth lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
- Annog cydweithio drwy ddysgu a gwella'n barhaus – drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd mewn un ardal ac yna ei ymestyn i ardaloedd eraill ond drwy ei deilwra i amgylchiadau lleol.
- Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg – drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg, annog naws am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws yr rhanbarth.

Yn ganolog i'r rhaglen fydd y cysyniad o ddysgu gwersi'n barhaus gan rannu arfer da er mwyn ehangu ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr economi a'r iaith Gymraeg gan ddeall yn well yr ymyraethau economaidd a all wneud gwahaniaeth i ffyniant y Gymraeg a chyfrannu at amcanion *Cymraeg 2050*.

### Amaethyddiaeth

Cyflwynwyd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i'r Senedd ym mis Medi 2022. Mae'n sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith ar gyfer cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r fframwaith yn cynnwys pedwar amcan sy'n dathlu'r cyfraniadau allweddol y mae'r sector amaethyddol yn eu gwneud i Gymru. Mae'r rhain nid yn unig yn cwmpasu cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ond hefyd yn cydnabod y rôl ganolog y mae ffermwyr yn ei chwarae yn iechyd amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gyfrannu at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac mae'r pedwerydd amcan yn cynnwys “*cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd*” sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn ein sector amaethyddol. Yn ogystal, yn unol â'r pŵer i ddarparu cymorth yn y Bil, mae un o'r dibenion rhestredig yn galluogi darparu cymorth i'r sector ar gyfer '*cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd*', a thrwy hynny gefnogi camau gweithredu y gall y sector eu cymryd tuag at gyflawni'r diben hwn.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys dyletswydd i nodi dangosyddion a thargedau i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion, yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau effaith rheolaidd sy'n manylu ar y ffordd y mae'r cymorth wedi cyflawni'r dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer. Cafodd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 17 Awst 2023.

Cyhoeddwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy bras ym mis Gorffennaf 2022. Y Cynllun hwn fydd y prif ffynhonnell cymorth i ffermwyr yng Nghymru o 2025. Cynhaliwyd cyfnod o gyd-ddylunio, ac fe wnaethom ymateb iddo a chyhoeddi cynigion bras ym mis Gorffennaf 2023. Rydym yn dechrau ar ein hymgynghoriad terfynol cyn diwedd y flwyddyn hon ac yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned ffermio fel rhanddeiliaid allweddol. Ar gyfer y cyfnod cyn 2025, cynigiwyd cynlluniau amaethyddol a ariennir yn ddomestig i ffermwyr i gefnogi perfformiad amgylcheddol ac ariannol busnesau fferm. Bydd y gefnogaeth hon yn parhau hyd nes i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflwyno.

**Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**

Mae cefnogi hyfywedd cymunedau daearyddol â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ynddynt yn un o flaenoriaethau strategol *Cymraeg 2050*. Mae’r cymunedau Cymraeg eu hiaith hyn yn wynebu heriau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol niferus. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn wledig eu natur ac yn dibynnu gan fwyaf ar economïau yn y sector cyhoeddus, amaeth a thwristiaeth, lle ceir tueddiadau cryf o ran mewnfudo ac allfudo.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae rhai o’r cymunedau hyn wedi gweld galw mawr am eiddo i’w ddefnyddio fel ail gartrefi. Mewn ardaloedd lle ceir dwysedd uchel o ail gartrefi, bu pryderon ynghylch materion yn ymwneud â fforddiadwyedd a dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol ffyniannus.

Fel rhan o ymrwymiad y *Rhaglen Lywodraethu*, cyhoeddwyd y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Hydref 2022.

Mae’r cynllun yn cynnwys ystod o ymyraethau sy’n ceisio mynd i’r afael â materion economaidd, tai, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol. Y nod yw grymuso cymunedau i gymryd cyfrifoldeb a chanfod datrysiadau eu hunain i faterion sy’n bygwth cynaladwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.

Mae ymyraethau'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn cynnwys:

- Anogaeth i rymuso cymunedau i sefydlu mentrau cydweithredol a chynlluniau tai sydd wedi'u harwain gan y gymuned. Rydym am roi cefnogaeth i gymunedau sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu diogelu. O ganlyniad, ers mis Ebrill 2022, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Cwmpas i sefydlu cynllun Perthyn sy'n cynnig gwasanaeth arbenigol i grwpiau cymunedol ddatblygu syniadau a mynd ati i sefydlu mentrau cydweithredol newydd. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig gwerth ychwanegol i'r gefnogaeth prif ffrwd sydd eisoes yn cael ei darparu gan Cwmpas i greu mentrau cymdeithasol a chynllun Cymunedau'n Creu Cartrefi.
- Sefydlu Grŵp Llywio ar gyfer rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r farchnad dai agored.
- Sefydlu cynllun Cyfle Teg i bobl leol gan weithio'n agos gyda darparwyr eiddo i godi ymwybyddiaeth o ba gamau y gallant eu cymryd i gefnogi eu cymunedau lleol.
- Sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Diwylliannol gwirfoddol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'n diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg yn gymunedol ac ymysg newydd-ddyfodiaid.
- Byddwn yn ehangu rôl y Bwrdd Crwn Economi a'r Iaith Gymraeg i gynnwys materion sy'n gysylltiedig â thai.
- Byddwn yn datblygu ac yn ymchwilio ymhellach i'r materion sy'n gysylltiedig â diogelu enwau lleoedd Cymraeg. Ceir rhagor o fanylion am y maes hwn isod yn adran enwau lleoedd yr adroddiad hwn.

**Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg**

Ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Ceredigion ym mis Awst 2022, lansiodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Bwriad y Comisiwn yw gwneud argymhellion polisi cyhoeddus gyda'r nod o gryfhau cymunedau Cymraeg. Mae'r Comisiwn yn cael ei gadeirio gan Dr Simon Brooks ac mae'n cynnwys deg aelod sy'n cynrychioli meysydd polisi pwysig, gan gynnwys yr economi, tai, addysg, llywodraeth leol, adfywio cymunedol, technoleg a chynllunio ieithyddol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi cyfarfod i drafod meysydd polisi penodol mewn manylder. Cyhoeddwyd Galwad am Dystiolaeth ym mis Tachwedd 2022 er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd gyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn. Yn sgil ystyried tystiolaeth, cyhoeddodd y Comisiwn Bapur Safbwynt yn Eisteddfod yr Urdd 2023 yn crynhoi ei ganfyddiadau cychwynnol yn y maes. Bu'r haf yn gyfle i'r Comisiwn wrando ar ymatebion a sylwadau ynghylch y Papur Safbwynt, a bydd y Comisiwn yn mynd ati'n awr i baratoi ei argymhellion terfynol sydd i'w cyhoedd erbyn mis Awst 2024.

**Fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg**

Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* a'r *Cytundeb Cydweithio* yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg. Er enghraifft:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu.
- Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi’n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio.
- Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau.
- Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
- Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.
- Ymchwilio i ddichonolrwydd cyflwyno morgeisi awdurdodau lleol.

Mae cynnydd trawsbynciol sylweddol wedi'i wneud yn unol â dull gweithredu tair haen Llywodraeth Cymru ar gyfer ail gartrefi.

Rydym wedi ymestyn y pwerau i awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn i godi cyfradd premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi a thai gweigion – o 1 Ebrill 2023, fe wnaeth y ffigur uchaf y gall awdurdodau lleol ddewis ei gymhwyso godi o 100% i 300%.

Rydym wedi newid y rheolau ynghylch llety gwyliau tymor byr, sy'n golygu bod rhaid i’r llety fod ar gael i’w osod am o leiaf 252 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis er mwyn talu ardrethi annomestig (yn hytrach na’r dreth gyngor), a’i fod yn cael ei osod am o leiaf 182 o ddiwrnodau yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd hyn yn sicrhau bod perchenogion a’u gwesteion yn gwneud cyfraniad teg i’r gymuned leol. Daeth y rheolau newydd hyn i rym ar 1 Ebrill 2023 hefyd.

Yn ogystal, rydym wedi gwneud newidiadau i'r system gynllunio. Cyflwynwyd rheoliadau a ddaeth i rym o fis Hydref 2022. Sefydlodd y rhain dri dosbarth defnydd cynllunio newydd: prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor byr. Bellach gall awdurdodau cynllunio lleol, lle mae ganddynt dystiolaeth a phan fyddant wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, ei gwneud yn ofynnol i berchenogion eiddo gael caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o un dosbarth i'r llall. Rydym hefyd wedi cyflwyno newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i reoli'n well nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr sydd mewn cymunedau lleol.

Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022, fe wnaethom ymgynghori ar newidiadau i'r dreth trafodiadau tir. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad ar 15 Gorffennaf 2022. Ceir dau set o gyfraddau ar gyfer eiddo preswyl – y prif gyfraddau a’r cyfraddau uwch. Caiff y cyfraddau uwch eu codi pan fydd prynwr wedi prynu eiddo ac felly’n berchen ar fwy nag un eiddo preswyl, gan gynnwys ail gartrefi, ac maent 4 pwynt canran yn uwch na’r prif gyfraddau.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym yn awr yn gweithio ar y camau nesaf gan gynnwys datblygu fframwaith cenedlaethol lle gall awdurdodau lleol ofyn bod cyfraddau treth trafodiadau tir uwch yn cael eu cymhwyso ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau yn eu hardal leol.

### Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd

Rydym wedi sefydlu peilot yn Nwyfor i brofi nifer o ymyraethau ac i asesu eu heffeithiolrwydd o ran rheoli ail gartrefi a'u heffaith ar fforddiadwyedd. Rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid fel Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Cynefin a Chymdeithasau Tai Adra. Mae grwpiau gweithredol, strategol a marchnata wedi'u sefydlu. Rydym wedi teilwra ac yn treialu rheolau newydd yn y cynllun peilot ar gyfer Cynllun Rhannu Ecwiti Cymorth Prynu ac mae nifer o bobl eisoes wedi prynu cartref yn yr ardal.

Rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot yn Nwyfor. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu rhannu'n barhaus nes i'r adroddiad terfynol ddod i law yn 2026 a byddant yn ystyried effeithiolrwydd yr ymyraethau. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o ddysgu gwersi a rhannu arferion da gydag ardaloedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

### Y Gymraeg a chydraddoldeb

Mae gan y Llywodraeth sawl polisi traws lywodraethol a hirdymor ym maes cyfiawnder cymdeithasol. Dwy o'r dogfennau hynny yw'r *Cynllun Cymru Wrth-hiliol* a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, a'r *Cynllun Cydraddoldeb LHDTC+*. Mae'r dogfennau'n amlinellu camau gweithredu a pholisïau'r Llywodraeth ar gyfer creu cenedl gynhwysol, wrth-hiliol a LHDTC+ gyfeillgar erbyn 2030.

Mae *Cymraeg 2050* wedi'i wreiddio yng ngwead y cynlluniau cydraddoldeb hyn a'r bwriad yw iddynt gyd-fodoli ac atgyfnerthu ei gilydd. Mae llawer o'n gwaith yn y meysydd hyn wedi'u trafod drwy gydol yr adroddiad hwn.

## 10. Diwylliant a'r cyfryngau

Mae pob un o'r cyrff a noddir gennym yn y sector diwylliant a chwaraeon wedi ymrwymo i gefnogi ein targed i gynyddu defnydd iaith a chyrraedd y miliwn erbyn 2050. Mae annog a chefnogi aelodau staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg wedi'i wreiddio yn niwylliant gweithredol y cyrff a noddir gennym, ac maent wedi sefydlu cysylltiadau da gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Rydym eisiau gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n fwy eang mewn diwylliant poblogaidd ym mhob un o'i gyfryngau celfyddydol ac mewn llenyddiaeth, theatr, ffilm a theledu. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan fodelau rôl fel mabolgampwyr, cerddorion, actorion, a ffigurau a sefydliadau amlwg eraill yn fodd i godi statws y Gymraeg fel iaith fyw.

Mae pwysigrwydd ein perthynas gyda'r sefydliadau a phartneriaid hyn yn allweddol i'n hetifeddiaeth a'n lles.

## Diwylliant

### Brand Cymru Wales

Eleni eto rydym wedi parhau i gefnogi busnesau i adlewyrchu gwerthoedd y brand yn eu gwaith. Fe wnaethom ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymgyrchoedd blaenllaw i hyrwyddo Cymru ledled y byd hefyd. Yn benodol, gwnaed hyn drwy gyfrwng ymgyrch Cwpan y Byd, a oedd yn bartneriaeth gydag amryw o randdeiliaid gan gynnwys yr Urdd, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru, ac a roddodd lwyfan rhyngwladol i'r Gymraeg ar ffurf cerddoriaeth, perfformiadau a marchnata, yn ogystal â'r ymgyrch Gŵyl Dewi, a oedd yn gofyn i bawb ar draws y byd wneud y pethau bychain.

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales, ac wedi cael ei defnyddio'n helaeth eto eleni i hybu Cymru a denu twristiaeth a buddsoddiadau. Mae'r iaith yn ysbrydoli elfennau creiddiol o'r brand, er enghraifft y ffont.

Yn y sector twristiaeth, mae hyn yn cynnwys annog busnesau i sicrhau naws am le cryf yn eu darpariaeth, ac mae defnyddio'r Gymraeg yn ganolog i hyn. Mae'r Gymraeg hefyd wedi cael ei defnyddio fel un o'n prif ymgyrchoedd twristiaeth – Addo – i annog pobl i fod yn gyfrifol tra'n ymweld â Chymru. Mae Addo yn gofyn i ymwelwyr a phreswylwyr wneud addewid i Gymru, sy'n cynnwys gofyn i bobl barchu a dathlu ein hiaith a'n diwylliant unigryw.

Rydym hefyd eleni yng nghanol ymgyrch Llwybrau – sy'n annog pobl i ddilyn llwybrau gwahanol ar eu taith yng Nghymru, boed hynny ar lwybr bwyd, celfyddyd neu antur. Mae'r gair Llwybrau yn flaenllaw yn ein holl ddeunydd marchnata, ac mae prif logo'r ymgyrch sy'n cael ei anfon at randdeiliaid yn y sector twristiaeth i'w ddefnyddio ar eu hymgyrchoedd hwythau yn arwain gyda'r gair Cymraeg.

Rydym hefyd eleni wedi sefydlu partneriaethau gyda labeli recordiau Cymraeg er mwyn ein galluogi i ddefnyddio cerddoriaeth Gymraeg ar rai o'r fideos yr ydym yn eu creu ar gyfer ein sianelau cymdeithasol, i roi llwyfan ehangach i gerddoriaeth Gymraeg. Yn wir, rydym yn canolbwyntio ar gyflwyno mwy fyth o Gymraeg yn gyffredinol ar ein sianelau cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i wneud mwy i roi llwyfan i'r Gymraeg yn ein hymgyrchoedd dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ein hymgyrchoedd marchnata.

### Gweithgarwch noddi

Rydym yn parhau i bwysleisio a hyrwyddo pwysigrwydd cyfoeth diwylliant cyfrwng Cymraeg ac yn wir pwysigrwydd clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ein gweithgarwch noddi. Rydym yn parhau gyda'r nod o sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu – mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol.

Drwy ein gweithgarwch noddi, rydym yn cydweithio i sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg mewn gweithgareddau diwylliannol o bob math, gan gynnwys archwilio'r

rhyngberthynas rhwng iaith a diwylliant er mwyn datblygu digwyddiadau, cynhyrchion a gweithgareddau sy’n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o’n diwylliant Cymraeg unigryw.

## Treftadaeth

### Amgueddfa Cymru

Mae’r Gymraeg yn elfen annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae gan Amgueddfa Cymru rôl allweddol o ran datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o hanes y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Yn 2022-23, lansiwyd brand newydd Amgueddfa Cymru. Mae statws ac amlygrwydd y Gymraeg wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith hwn o'r cychwyn cyntaf. Mae ton newydd o sefydliadau cenedlaethol i gyd yn defnyddio'r Gymraeg i hyrwyddo 'Brand Cymru Wales' ar draws y byd, sy'n rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r dull lluosieithog yn eu llais brand. Gan weithio gyda phartneriaid ledled Cymru, crëwyd profiadau a chyfleoedd diwylliannol Cymraeg a Chymreig er mwyn i ymwelwyr gael mynediad at y Gymraeg, a dysgu a defnyddio'r iaith.

Cefnogwyd cyfleoedd i gydweithio ar nifer o raglenni allanol yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft:

- Cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai digidol fel rhan o Ŵyl Hanes Cymru i Blant yn cynnwys gweithgareddau wyneb yn wyneb a digidol i blant a phobl ifanc ledled Cymru er mwyn iddynt allu defnyddio eu Cymraeg fel rhan o'r Haf o Hwyl, gyda dros 16,000 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn partneriaeth â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.
- Agorodd arddangosfa Ail-fframio Picton yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Awst 2022 fel prosiect a arweinir gan y gymuned rhwng Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a Rhwydwaith Arweinyddiaeth Ieuenctid y Panel Cynghori Is-Sahara (SSAP). Fel rhan o'r arddangosfa, datblygwyd ymhellach y gwaith ar ddiweddaru terminoleg Gymraeg a dad-drefedigaethu'r casgliad cenedlaethol gyda'r nod o greu terminoleg Gymraeg fodern a theg i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio.
- Yn ystod mis Medi 2022, lansiwyd arddangosfa Lleisiau'r Wal Goch mewn cydweithrediad â Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Roedd yr arddangosfa hon yn Amgueddfa Werin Genedlaethol Sain Ffagan yn llwyfan i gefnogwyr pêl-droed Cymru, ac yn dathlu lle'r Gymraeg ar y llwyfan rhyngwladol.
- Cynhyrchodd a lansiodd Amgueddfa Cymru arddangosfa fawr BBC 100 yng Nghymru yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Rhagfyr 2022. Roedd yr arddangosfa yn dathlu hanes y BBC yng Nghymru gan gynnwys y berthynas rhwng darlledu a'r Gymraeg – o'r ymgyrchu cynnar dros gynrychiolaeth Gymreig i'r datblygiadau arloesol heddiw mewn cynnwys Cymraeg a dwyieithog.

Mae Amgueddfa Cymru hefyd wedi cymryd camau breision gyda rhaglenni dysgu hybrid arloesol i ysgolion a theuluoedd ledled Cymru yn ystod 2022-23. Gyda chyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb a digidol dwyieithog yn cael eu cynnig yn

unol â chanllawiau’r Cwricwlwm newydd i Gymru, mae'r sesiynau hyn yn ceisio hyrwyddo cynefindra o eiriau ac ymadroddion a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol. Trwy fabwysiadu dull lluosieithog wrth ddatblygu'r sesiynau hyn, a thrwy ddefnyddio ymadroddion a chynnwys Cymraeg mewn gweithdai cyfrwng Saesneg, llwyddwyd i annog y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith ymwelwyr a staff, ac mae wedi bod yn boblogaidd iawn.

Mae adnoddau dysgu wedi'u cyhoeddi ar gyfer plant cyn oed ysgol, y cyfnodau allweddol ac oedolion ac mae'r holl adnoddau addysg digidol yn parhau i gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog gan gynnwys e-lyfrau ar Hwb, sef y platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Yn ystod 2022-23, cafodd 60% o e-lyfrau yr Amgueddfa a 40% o lyfrau Apple eu lawrlwytho yn Gymraeg.

Crëwyd Lleoliad Datblygu Sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan alluogi pobl i gael profiad gwaith a datblygu eu sgiliau Cymraeg ar yr un pryd. Cyflwynwyd lleoliadau Cymraeg penodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, gan ddarparu mwy gyfleoedd wedi'u teilwra i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar bob lefel.

Denodd rhaglenni i wirfoddolwyr nifer uchel o wirfoddolwyr â sgiliau Cymraeg. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, denodd Amgueddfa Cymru eu canran uchaf erioed o ddysgwyr Cymraeg, sef 18% – gyda 46% o'r gwirfoddolwyr a gofrestrwyd yn nodi bod ganddynt ryw lefel o allu Cymraeg, gydag 8% yn rhugl.

Llwyddodd yr Amgueddfa i sicrhau cyllid ychwanegol i gynhyrchu adnodd ar gyfer teuluoedd sy'n dysgu Cymraeg yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion. Cyhoeddwyd yr adnodd ar eu gwefan yn 2022-23.

Mae'r gyfres o ddigwyddiadau Amgueddfa Dros Nos yn parhau i ddenu sylw, a chawsant ganmoliaeth uchel yn y categori Cymraeg yng Ngwobrau Cardiff Life. Fe wnaeth y prosiect Amgueddfa Dros Nos: Gartref gael gwobr Plant mewn Amgueddfeydd, gan ddangos bod teuluoedd yng Nghymru a thu hwnt wedi cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau dwyieithog ac yn croesawu'r cyfle i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn ffordd arloesol.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn) yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i unigolion, grwpiau a sefydliadau sy’n ymddiddori yn hanes a threftadaeth adeiledig Cymru. Y Comisiwn, er enghraifft, sy’n cynnal Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru, ac ym mis Gorffennaf 2022 cyhoeddwyd adroddiad pum mlynedd ar y Rhestr – ffrwyth gwaith grŵp Gorchwyl a Gorffen a gadeiriwyd gan Dr Dylan Foster-Evans i ystyried effeithiolrwydd y Rhestr statudol hon.

Ers 1908, mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru wedi ymchwilio a chofnodi treftadaeth archeolegol ac adeiledig Cymru. Wrth i'r casgliad presennol o enwau dyfu, mae'r nod o integreiddio'r rhain yn ein cronfa ddata ar-lein ar gyfer y cyhoedd, Coflein, yn parhau.

Hyd yn hyn, mae cyfanswm o 937 o gasgliadau a enwir wedi'u cyfieithu i'w cynnwys yn yr archifau, ac mae'r nifer yn cynyddu'n fisol wrth i dimau arolygu ac ymchwilio fwydo deunydd o'u gwaith nhw yn ogystal â deunydd gan ystod eang o sefydliadau treftadaeth a'r cyhoedd.

I hyrwyddo ymhellach pwysigrwydd arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol y gwaith hwn a'r Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol yn ehangach, darlledwyd trafodaeth ar enwau lleoedd yn Nyffryn Dyfi ar Radio Cymru a chyhoeddwyd erthygl ar brosiect Bryngaer Pendinas yn Golwg ac erthygl ar ysgolion yr ugeinfed ganrif yng Nghymru, 'O'r Hen i'r Newydd: Treftadaeth dan fygythiad' yn rhifyn Tachwedd 2022 o Barn.

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, siaradodd Dr James January-McCann, Swyddog Enwau Lleoedd y Comisiwn, ym Mhabell y Cymdeithasau ar y pwnc "Pum Mlynedd o'r Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol" a chymerodd ran mewn trafodaeth banel a drefnwyd gan Senedd Cymru ar hanes, esblygiad a pherthnasedd diwylliannol enwau lleoedd Cymru.

Mae gan y Comisiwn Brenhinol arbenigedd penodol mewn arolygu, dehongli ac ailadeiladu adeiladau hanesyddol a safleoedd archeolegol. Fel rhan o'u rhaglen ysgolion yr ugeinfed ganrif, cynhaliwyd arolwg ffotograffig o Ysgol Bro Preseli yn Sir Benfro (Ysgol Uwchradd Fodern Crymych gynt). Adeiladwyd yr ysgol Gymraeg hon yn y 1950au ar sail dyluniadau Pensaer y Sir, y Cyrnol Raglaw Walter Barrett. Mae'r arolwg yn sicrhau y cedwir cofnod o'r ysgol yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru i genedlaethau'r dyfodol gofio amdani.

Roedd ymgysylltu â phobl ifanc a dysgwyr Cymraeg o bob oed a gallu yn yr Eisteddfod Genedlaethol drwy weithdai a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Cadw, Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn fodd i ddarparu amgylchedd dysgu hwyliog i dros 4,000 o ymwelwyr yn ystod yr wythnos.

Ar 7 Rhagfyr, i ddathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, hyrwyddwyd ffeithlun am y gwasanaethau Cymraeg y gallai'r cyhoedd ddisgwyl eu cael gan Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

Mae cyflwyno C20 Cymru (Cymdeithas C20 yng Nghymru) fel rhan o Gymdeithas Genedlaethol C20 sy'n ymgyrchu dros bensaernïaeth a dyluniadau'r ugeinfed ganrif, yn sicrhau persbectif Cymreig unigryw ac yn darparu gwybodaeth am adeiladau nodedig a gwaith achos posibl ledled Cymru. Gyda llawer o adeiladau pwysig (megis Tŷ Darlledu'r BBC yn Llandaf) eisoes wedi'u colli ac ychydig iawn ohonynt yn cael eu diogelu'n statudol, mae cyflwyno ymwybyddiaeth o Gymru (iaith a diwylliant) i Gymdeithas Genedlaethol C20 a hyrwyddo ei rhaglen o ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb yn sicrhau bod ein diwylliant a'n hunaniaeth yn cael eu cyfleu'n effeithiol yn ddwyieithog i Gymru a chynulleidfa ehangach.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Mae arddangosfeydd y Llyfrgell yn cynnig gwybodaeth sy’n ennyn diddordeb yn y Gymraeg a'i hanes drwy gynnig cyflwyniad i hanes, cymdeithas a diwylliant Cymru. Mae hyn yn agor y drws i fyd o ddiwylliant sy’n addas i ddysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg.

Yn eu harddangosfeydd, mae'r Llyfrgell yn cyflwyno gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Bu arddangosfa Record yn cyflwyno hanes cerddoriaeth gyfoes Gymraeg mewn ardal ble mae'n bosib na fyddai ymwelwyr yn gyfarwydd â'r hanes. I gyd-fynd â’r arddangosfa, darparwyd rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg ar Spotify.

Rhoddwyd cyflwyniad i Rwydwaith Cyrff Cymraeg Cymunedau Digidol Cymru, sydd yn cynnwys sefydliadau cenedlaethol, mentrau cymunedol a sefydliadau sy’n gweithio drwy’r Gymraeg.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ffocws y gwaith fydd integreiddio’r iaith ymhellach i waith y Llyfrgell Genedlaethol. Drwy gynnig cyfleoedd ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn o leiaf 10 canolfan ar draws Cymru, gall cyfranogwyr fod yn rhan o waith ymchwilio, cynnal rhestrau, dethol, gwirio hawliau, golygu a chyhoeddi. Enghraifft o brosiect sydd eisoes wedi digwydd yw un mewn partneriaeth â Menter Dinefwr yng Nghanolfan Hengwrt yn Llandeilo ble mae gwirfoddolwyr wedi ymchwilio a dewis eitemau ar gyfer arddangosfa ffilm a sain yn y ganolfan.

Mae cynllun gwirfoddoli’r Llyfrgell yn cynnig tasgau yn Gymraeg, gan gynnwys rhai sy’n addas ar gyfer dysgwyr. Mae gwaith ar drosglwyddo cadwrfa caneuon gwerin Cymraeg Meredydd Evans a Phyllis Kinney o system cardiau mynegai i gronfa ddata electronig ar waith, sy’n cynnig cyfle gwych i ddysgwyr ddod i ddeall mwy am ddiwylliant Cymraeg a Chymreig cyfoes.

Mae’r cynllun yn cael ei hyrwyddo fel un ble y gall pobl ddod i ymarfer a gwella eu sgiliau iaith. Mantais y cynllun yw fod gwirfoddolwyr y Llyfrgell yn cael cyfle i sgwrsio yn anffurfiol dros baned yn ddyddiol, ac i fod yn rhan o sesiynau sgwrsio mwy strwythuredig yn benodol ar gyfer dysgwyr pob pythefnos.

Un o elfennau canolog gwaith ymgysylltu Archif Ddarlledu Cymru yw'r Clip Cymraeg. Drwy'r elfen hon, cynhelir sesiynau hyfforddiant a gwybodaeth i’r rhai sy’n gweithio gyda dysgwyr Cymraeg, rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer dysgwyr, a chaiff pecyn clipiau eu creu ar gyfer y rhai sy’n dysgu Cymraeg. Mae hwn yn brosiect ar y cyd â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae holl weithgareddau Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell ar gael yn y Gymraeg, yn ddwyieithog, neu’n Saesneg gyda pheth cynnwys Cymraeg. Pan fydd ysgolion yn gofyn am ddarpariaeth drwy gyfrwng Saesneg, bydd aelodau staff yn sicrhau eu bod yn cyflwyno termau Cymraeg, a bod yr iaith i'w chlywed gydol y sesiwn.

Mae holl adnoddau dysgu print y Llyfrgell yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, wyneb i waered wedi’u rhwymo gefn wrth gefn yn unol â Chanllawiau Dylunio Dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg. Mae adnoddau dysgu digidol y Llyfrgell hefyd ar gael yn y ddwy iaith ar blatfform addysg Hwb.

Mae Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell hefyd yn cynnig sesiynau dysgu sy'n cyflwyno cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol yr iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cael eu targedu'n benodol at bobl o bob oedran sy'n dysgu'r iaith. Mae'r Llyfrgell yn rhan o Ddiwrnod Meddiannu Kids in Museums / Kids in Museum Takeover Day ble mae disgyblion ysgol yn cael cyfle i weithio ochr yn ochr â staff y Llyfrgell i gynnig gwasanaeth i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Llyfrgell eisoes wedi datblygu ac yn gweithredu cynllun prentisiaethau 'sgiliau prin' ar gyfer pobl ifanc dwyieithog er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad unigolion sy'n rhugl yn Gymraeg i ymgymryd â swyddi yn y dyfodol ble mae gofyn am sgiliau arbenigol. O wneud hyn, y nod yw gwneud yn siŵr na cheir prinder unigolion cymwys dwyieithog i lenwi'r swyddi hyn yn y dyfodol.

**Chwaraeon Cymru**

Cwpan y Byd Pêl-droed Dynion FIFA 2022

Roedd Cymru'n ennill lle yng Nghwpan y Byd Pêl-droed Dynion FIFA 2022 yn Qatar, am y tro cyntaf ers 1958, yn gyfle i arddangos y Gymraeg ar lwyfan byd-eang. Trefnodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, ddigwyddiadau drwy bartneriaethau ledled Cymru a thu hwnt drwy Gronfa Gymorth Partner Cwpan y Byd, dan ymbarél Gŵyl Cymru.

Fe wnaeth 23,000 o blant o dros 1,700 o ysgolion hefyd gymryd rhan yn Jambori yr Urdd ar 10 Tachwedd 2022. Fe wnaethant ddod at ei gilydd i ganu caneuon Cymraeg i roi hwb i'r tîm cenedlaethol.

Cynhaliwyd ymgyrch i dargedu cefnogwyr pêl-droed ac eraill cyn ac yn ystod Cwpan Pêl-droed Dynion FIFA 2022 mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Defnyddiodd ymgyrch Ein Tîm, Ein Hiaith gyfraniadau emosiynol gan gefnogwyr a oedd wedi dysgu Cymraeg er mwyn ysgogi pobl i ymweld ag is-safle a grëwyd yn arbennig i'w hannog i ymrwymo i ddysgu Cymraeg yn ffurfiol.

Chwaraeon yng Nghymru

Mae Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi ac annog sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon i ymestyn eu darpariaeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r gwaith hwn yn rhan bwysig o'n dyletswyddau i annog datblygu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd i weld yr iaith yn ffynnu'n gymdeithasol. Mae nifer o Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol sy'n gweithio'n agos â Chwaraeon Cymru, fel Triathlon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru, yn cwblhau eu cynlluniau gweithredu i ymestyn eu gwasanaethau yn y Gymraeg a chyflawni dyfarniad Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg.

Drwy barhau i gynhyrchu e-gyfathrebu cyhoeddus a chynnwys ar y cyfryngau yn ddwyieithog, mae Chwaraeon Cymru wedi mireinio eu hymgyrchoedd marchnata gyda newidiadau bach er mwyn eu gwneud yn fwy apelgar i gynulleidfa Gymreig

(megis newidiadau fformatio i wneud cynnwys Cymraeg yn fwy amlwg ar amrywiaeth o ddyfeisiau). Mae pobl ifanc yn arbennig yn ymgysylltu â chyfathrebu ar-lein. Felly, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chyfrifon Twitter a Facebook Chwaraeon Cymru ar ôl cyflwyno'r newidiadau marchnata hyn. Mae integreiddio ymadroddion Cymraeg syml fel 'Llongyfarchiadau' a 'Pob Lwc' i'r tudalennau cynnwys Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol yn annog eraill i ddefnyddio'r iaith wrth ddathlu chwaraeon yng Nghymru, sy'n rhan enfawr o'r hunaniaeth Gymreig.

Mae Dydd Gŵyl Dewi yn un enghraifft o sut y defnyddiodd Chwaraeon Cymru eu dylanwad i gyrraedd miloedd o gefnogwyr Cymru drwy ddefnyddio diwrnodau sylweddol yng nghalendr Cymru i godi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymreig yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd glyfar i gefnogi ein hathletwyr.

Enghraifft arall o'r gwaith cadarnhaol yn y maes hwn oedd y ffocws cryf ymhlith staff Chwaraeon Cymru ar hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn 2022, a wnaeth gynnwys:

- Cyfathrebu mewnol â holl staff Chwaraeon Cymru yn ystod yr wythnos flaenorol i egluro arwyddocâd y diwrnod, rhoi gwybodaeth am y Gymraeg a gofyn am eu cefnogaeth i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg ac i hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.
- Cyfathrebu allanol ar bob sianel gymdeithasol er mwyn cynnal ymgyrch fer ar yr elfennau canlynol:
    - Datblygiadau a gwasanaethau mewnol yn Chwaraeon Cymru.
    - Clip fideo yn y Gymraeg gan y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn siarad am bwysigrwydd y Gymraeg i chwaraeon ac i Chwaraeon Cymru er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r iaith.
    - Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn clybiau chwaraeon.
    - Hyrwyddo grantiau i gefnogi cyfleoedd chwaraeon drwy gyfrwng y Cymraeg.

Yn ogystal, lansiwyd Citbag, hwb dwyieithog ar-lein sy'n cynnwys adnoddau'n ymwneud â gweithgarwch corfforol ar gyfer athrawon i helpu i roi sgiliau, hyder a phrofiadau chwaraeon i bobl ifanc er mwyn iddynt allu mwynhau chwaraeon am oes.

O'r cyllid a neilltuwyd gan y Gronfa Cymru Actif, dyrannwyd arian i 167 o sefydliadau gyda 22 yn darparu gweithgareddau chwaraeon yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ac 145 yn defnyddio'r Gymraeg yn rhannol. Drwy'r cymorth ariannol a roddwyd i'r sefydliadau hyn yn ystod 2022-23, darparwyd 1,489 o weithgareddau cyfrwng Cymraeg gan 400 o hyfforddwr, yn ogystal â 413 sesiwn yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg gan 516 o hyfforddwyr.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Yn ystod 2022-23, mae'r Cyngor wedi parhau i gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nod y Cynnig Cymraeg yw sicrhau bod yna ddatblygiadau bach a chyson i wasanaethau Cymraeg. Drwy hyrwyddo'r gwasanaethau i'r cyhoedd, mae'n darparu gwell gwasanaethau Cymraeg ac yn cynyddu defnydd ohonynt.

Mae Consortiwm Celf Cymru yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i gynllunio cronfa loteri newydd sy'n targedu unigolion i ddatblygu defnydd creadigol a pherchnogaeth o'r Gymraeg o fewn cymunedau; ac archwilio cyfieithu creadigol ac anghenion strategol o fewn y sector creadigol.

Mae gwaith i hyrwyddo datblygiadau Cymraeg o fewn rhaglenni ar draws adrannau eisoes wedi digwydd, gan gynnwys y cynllun Noson Allan, y rhaglen Dysgu Creadigol, pobl ifanc a'r celfyddydau, y cynllun cyfiawnder hinsawdd ac ehangu ymgysylltiad.

Yn ystod y cyfnod adrodd, daeth 9 ymgeisydd llwyddiannus i gronfa Llais y Lle. Mae'r gwaith ar bob un o'r prosiectau wedi dechrau ac mae Consortiwm Celf Cymru yn mentora'r rhaglen.

Mae cynllun Synhwyro'r Iaith, yn adnodd a ddatblygwyd gan y Cyngor Celfyddydau a'r Consortiwm Cymraeg. Mae'n cynnig arweiniad a syniadau i ymarferwyr creadigol ar sut i ddefnyddio, cynnwys a chyflwyno'r Gymraeg yn eu hymarfer creadigol.

Mae'r Cyngor Celfyddydau a Theatr Genedlaethol Cymru yn cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynllunio darpariaeth hefyd. Nod y gwaith yw cynorthwyo'r Ganolfan i gynllunio a darparu cyrsiau priodol at ddefnydd Iaith Gwaith i weithwyr llawrydd y celfyddydau. Lansiwyd y cwrs yn ystod 2021-22 gyda 175 o ddysgwyr wedi cofrestru yn ystod y cyfnod adrodd.

**Y Cyfryngau**

Mae'r gwasanaethau darlledu a'r cyfryngau yn y Gymraeg yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran cyflawni ein nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd darpariaeth S4C a Radio Cymru yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys drwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag S4C a'r BBC, er mwyn helpu i gyflawni ein huchelgeisiau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chefnogi cyfleoedd i ddefnyddio a mwynhau'r iaith drwy gynnwys Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan Cymru Greadigol ar gyfer ffilmiau Cymraeg mewn partneriaeth â Ffilm Cymru, yn unol â'i hymrwymiad i ffilmiau Cymraeg fel y nodir yn y Memorandwm gyda S4C.

Mae gweithgareddau craidd Cymru Greadigol yn parhau i gefnogi cynaliadwyedd parhaus diwydiannau creadigol Cymru a datblygu cynnwys Cymraeg a dwyieithog. Yn 2022, diwygiwyd ei ganllawiau Cyllid Cynhyrchu. Roedd y canllawiau newydd yn rhoi mwy o ffocws ar brosiectau o arwyddocâd diwylliannol a phortreadu dilys

er mwyn arddangos Cymru a'r Gymraeg a diwylliant Cymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol. Trwy ei mecanwaith Cyllido Cynhyrchu, cefnogodd Cymru Greadigol nifer o gynyrchiadau Cymraeg a chefn wrth gefn rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, gan gynnwys Pen ar y Bryn / Tree on a Hill ac Un Nos Ola Leuad (S4C a Channel 4).

Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Cymru Greadigol y Gronfa ar gyfer Cynnwys i'r Ifanc gyda chyllid a ddarparwyd drwy'r *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru. Roedd y Gronfa'n gofyn am ddarpariaeth ddwyieithog gan bob prosiect, gan ddangos ei hymrwymiad i gynyddu'r cynnwys Cymraeg. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddwyd y byddai wyth prosiect yn derbyn grantiau drwy'r Gronfa er mwyn datblygu cynnwys dwyieithog newydd ar gyfer plant a phobl ifanc.
Yn ystod y cyfnod hwn, mae Cymru Greadigol wedi darparu cymorth i gynyrchiadau Cymraeg gyda lleoliadau drwy Sgrin Cymru. Fe wnaeth Cymru Greadigol hefyd gefnogi lansiad Stiwdios Aria yn Llangefni, cartref un o brif raglenni Cymraeg S4C sef Rownd a Rownd.

Rydym wedi parhau i godi amrywiaeth o faterion yn gyson gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom yn ystod y cyfnod hwn i bwysleisio rôl hanfodol darlledu effeithiol o ran cynnal a thyfu'r Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu ar gynigion a nodwyd ym mhapur gwyn Llywodraeth y DU ar ddarlledu er mwyn sicrhau, wrth i'r newid yn y dirwedd ddarlledu draddodiadol i gynnwys mwy o gynnwys ar-lein barhau, bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu ar fwy o sianeli digidol ac ar-lein wrth i'r fframwaith rheoleiddio esblygu. Mae gwaith hefyd wedi parhau mewn perthynas â'r ymrwymiadau'n ymwneud â darlledu a'r cyfryngau a nodwyd yn y *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru, gyda phanel arbenigol wedi'i greu ym mis Mehefin 2022 i archwilio sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru ac i gefnogi fframwaith i Gymru sy'n diwallu ein hanghenion a'n huchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg.

**Cyngor Llyfrau Cymru**

Mae cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru wedi sicrhau bod modd parhau i gefnogi cyhoeddwyr i gynhyrchu llyfrau a chylchgronau Cymraeg i oedolion a phlant.

Yn ystod 2022-23, cyhoeddwyd dros 175 o lyfrau Cymraeg ac 16 o gylchgronau print a digidol i oedolion a phlant.

Mae 1,634 o e-lyfrau Cymraeg ar ffolio.cymru bellach – y rhan fwyaf yn llyfrau plant a phobl ifanc. Mae cyhoeddi e-lyfr ochr yn ochr â’r llyfr print yn arfer gan y rhan fwyaf o gyhoeddwyr erbyn hyn.

Rydym yn parhau i ddarparu grant i Golwg ac mae eu hystadegau ar-lein yn ystod y flwyddyn adrodd fel a ganlyn: cyfartaledd misol o ymweliadau â’r wefan tua 263,000, yr argraffiadau ar Twitter dros 288,000 ac ymwneud â’r deunydd ar Facebook tua 16,274.

Cynhaliwyd proses dendro ar gyfer cylchgronau Cymraeg 2023-27 yn ystod y cyfnod adrodd a dyfarnwyd grantiau i 17 o deitlau print a digidol yn cynnwys

grantiau unwaith-ac-am-byth i ddau gylchgrawn newydd i'r Cyngor Llyfrau, Klust (cylchgrawn cerddoriaeth) a Codi Pais (cylchgrawn celfyddydol / llenyddol) i ganiatáu iddynt ddatblygu. Yn ogystal â hyn, fe wnaeth arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r Cyngor gynnig tendr i beilota dau gylchgrawn newydd sef Hanes Byw (cylchgrawn hanes) a chylchgrawn digidol yn ymwneud â chwaraeon a fydd yn cael ei gyhoeddi gan G360. Cafodd y rhifynnau cyntaf eu cyhoeddi ddiwedd mis Medi 2023.

Roedd amrywiaeth yn bwnc canolog i drafodaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, yn arbennig felly amrywiaeth o ran hil ac ethnigrwydd yng nghyd-destun y Gymraeg. Caniataodd arian Cynulleidfaoedd Newydd, Llywodraeth Cymru, i'r Cyngor ariannu cyhoeddi llyfr i blant drwy brosiect a oedd yn cael ei arwain gan Pontio ym Mangor ar y cyd â Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru. Cafodd y ddwy gyfrol *Y Bysgodes* a *The Fish Princess* eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2023. Caniataodd yr arian hwn hefyd i Malachy Edwards weithio gyda Gwasg y Bwthyn yn ystod y cyfnod hwn ac fe gafodd *Y Delyn Aur*, y llyfr Cymraeg Cyntaf i'w ysgrifennu gan Gymro Cymraeg o gefndir du ei gyhoeddi ym mis Medi 2023. Caniataodd yr arian hwn hefyd i gylchgronau megis *Golwg, Barddas* a *Barn* gomisiynu a gweithio gydag awduron a ffotograffwyr i greu cynnwys gan ac am bobl sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli yn wasg Gymraeg.

Parhawyd i gyhoeddi llyfrau ar gyfer dysgwyr – mae cyfanswm o 39 yng nghyfres Amdani bellach. Caniataodd arian Cynulleidfaoedd Newydd Llywodraeth Cymru i'r cyfan gael eu trosi'n e-lyfrau ac yn llyfrau llafar.

Mae gwaith i ddenu cyhoeddwyr newydd i'r maes yn parhau. Mae Broga yn parhau a chyhoeddodd O'r Pedwar Gwynt eu llyfr cyntaf i oedolion. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi rhai o'r cyhoeddwyr i ddatblygu eu rhaglen oedolion, Atebol a Bwthyn yn benodol, ac unwaith eto roedd Arian Cynulleidfaoedd Newydd yn allweddol.

Darparwyd gwybodaeth am lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ar ffurf dau Flwyddlyfr ar wahân i gydnabod gwahanol anghenion rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd, yn ogystal â rhestrau themâu penodol i holl ysgolion a gwybodaeth ar dudalennau Hwb y Cyngor Llyfrau.

Parhawyd i ddosbarthu, fel rhan o'r cynllun #CaruDarllenYsgolion, becyn o 50 llyfr ar gyfer llyfrgell yr ysgol. Mae banciau bwyd, hefyd wedi derbyn cyflenwad o lyfrau darllen er pleser Cymraeg fel rhan o'r ymgyrch. Mae gwerthusiad allanol o'r cynllun wedi'i gomisiynu a bydd ar gael yn hydref 2023.

Sicrhawyd bod deunydd dwyieithog ar gyfer ymgyrchoedd Sialens Ddarllen yr Haf a Diwrnod y Llyfr ar gael i ysgolion, siopau a llyfrgelloedd, yn ogystal â chefnogi cynnwys ar gyfer y gwefannau Cymraeg.

Rhoddwyd sylw cenedlaethol ar draws amrywiaeth o blatfformau i deitlau a gyrhaeddodd rhestr fer Gwobrau Tir na n-Og.

Cynhaliwyd cystadlaethau darllen gydag ysgolion cynradd ledled Cymru er mwyn hyrwyddo darllen a thrafod llyfrau Cymraeg a threfnwyd nifer o ddigwyddiadau awduron digidol ac wyneb yn wyneb gydag ysgolion.

Sefydlodd y Cyngor fwrdd ymgynghorol allanol ar gyfer y prosiect llyfrau Perthyn sy'n canolbwyntio ar awduron, darlunwyr a phynciau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i fod yn rhan o'r detholiad cyntaf o deitlau i'w haddasu. Yn dilyn hynny, bydd tendr i gomisiynu cynnwys gwreiddiol yn cael ei hysbysebu.

Sefydlodd y Cyngor Banel Pobl Ifanc, o dan gadeiryddiaeth Llyr Titus, er mwyn cael adborth a chyngor gan ddarllenwyr iau ar fylchau yn y ddarpariaeth a chyfloed marchnata.

## 11. Cymru a'r byd ehangach

Rydym am ddangos i'r byd ein bod yn wlad amlieithog sy'n annog pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn dathlu bod ein hiaith yn cael ei siarad gan bobl o bob cefndir ac am groesawu pob un i roi cynnig ar ei defnyddio.

### Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Yn mis Ionawr 2023, lansiodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei rhaglen, Croeso i Bawb. Nod y rhaglen yw cyflwyno'r Gymraeg a Chymru i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg. Mae gwahanol adnoddau ar gael o dan y cynllun, drwy gyfrwng amryw o ieithoedd ac mae'r adnoddau i gyd yn rhad ac am ddim.

Mae modiwlau hunan-astudio digidol ar gael yn Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, Farsi a Pashto sy'n cyflwyno pobl a llefydd Cymru, hanes yr iaith, y celfyddydau, chwedlau a chwaraeon. Mae un o bartneriaid y Ganolfan, SaySomethinginWelsh, hefyd yn cynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg ar-lein drwy gyfrwng Arabeg Syria, Pashto, a Dari.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, fe wnaeth yr Urdd gydweithio â sawl partner, gan gynnwys y Llywodraeth i groesawu ac ailgartrefu teuluoedd a oedd wedi ffoi o'r rhyfel yn Wcráin. Roedd y Gymraeg yn ganolog i'r croeso ac yn cyfrannu'n fawr at ein gwaith i wneud yn siŵr bod Cymru yn Genedl Noddfa.

### Ysgol Gymraeg Llundain

Rydym yn parhau i ddyfarnu grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant y ddinas. Mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.

### Patagonia

Mae Prosiect y Gymraeg yn parhau i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym Mhatagonia yn yr Ariannin. British Council Cymru sy'n gweinyddu'r prosiect ar y

cyd â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yr Urdd, Cymdeithas Cymru Ariannin, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Dechreuodd rhai cyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio ym Mhatagonia yn gynnar yn 2022, a chafodd yr holl gyfyngiadau rhyngwladol a theithio a'r mesurau domestig eu llacio'n llawn ym mis Mehefin 2022. Ym mis Gorffennaf 2022, aeth 4 o israddedigion o Brifysgol Caerdydd i Batagonia o dan ysgoloriaethau Cymru Fyd-eang i wirfoddoli am fis yn y cymunedau Cymraeg eu hiaith. Fe wnaethant gymryd rhan mewn trawstoriad o weithgareddau gan gynnwys mynychu gwersi i oedolion a phlant, arwain rhai sesiynau mewn ysgolion cynradd, yn ogystal â chymysgu ag oedolion sy'n dysgu Cymraeg neu'n mireinio eu Cymraeg.

Mae recriwtio athrawon Cymraeg ar gyfer lleoliadau ym Mhatagonia ar ôl COVID-19 wedi bod yn her, ond erbyn canol Awst 2022 roedd y British Council wedi gallu recriwtio ac anfon 3 athro Cymraeg am leoliadau 5 mis (Awst – Rhagfyr 2022), gan ailgysylltu'r ysgolion a'r gymuned ag addysgu Cymraeg yn dilyn y bwlch a orfodwyd gan gyfyngiadau COVID-19. Mae un o'r ysgolion ym Mhatagonia hefyd wedi penodi athro dosbarth yn uniongyrchol o Gymru. Mae pob un o'r ysgolion cynradd bellach wedi cyrraedd uchafswm cofrestru – 450 o fyfyrwyr yr un, sy'n dysgu mewn amgylchedd lle ceir dosbarthiadau Cymraeg bob dydd am rai oriau a lle mae diwylliant Cymru yn cael ei adlewyrchu.

Parhaodd arholiadau CBAC ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn ystod 2022, gyda chyfradd lwyddo lwyddiannus o 100%. Cefnogwyd dysgwyr gan diwtor o Gymru, sy'n parhau i weithio ar y prosiect ac sydd wedi bod yn cynnal cyrsiau ar-lein o Gymru i'w paratoi ar gyfer arholiadau. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn fyfyrwyr uwchradd sydd wedi cael caniatâd arbennig gan fwrdd arholi CBAC i sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion.

Mae Cydlynydd y Prosiect ym Mhatagonia wedi parhau i oruchwylio gwaith yr athrawon Cymraeg a'r rhwydwaith o diwtoriaid lleol drwy gydol 2022-23, gan gefnogi rhaglen o wersi iaith wyneb yn wyneb ac ar-lein, gweithgareddau diwylliannol ac ymweliadau cyfnewid. Er bod y nifer yn amrywio o fis i fis, roedd o leiaf 20 o diwtoriaid lleol y mis yn addysgu yn yr ysgolion dwyieithog ac yn y gymuned ehangach.

Dechreuodd proses recriwtio 2023-24 ar gyfer athrawon Cymraeg i ymgymryd â lleoliadau ym Mhatagonia ym mis Tachwedd 2022 a pharhaodd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 ac wedi hynny.

**Cysylltiadau Rhyngwladol**

Mae swyddogion wedi bod yn parhau i roi lle blaenllaw i’r Gymraeg wrth weithredu’r *Strategaeth Ryngwladol i Gymru*. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da a chefnogi gwledydd sydd ag ieithoedd lleiafrifol ledled y byd.

**Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol**

Mae’r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yn rhwydwaith Ewrop gyfan sy’n gweithio ym maes polisi a chynllunio ieithyddol ar ran Ieithoedd Cyfansoddiadol, Rhanbarthol a Gwladwriaethol Bach ledled Ewrop. Mae aelodau’r

NPLD yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â phrifysgolion a chymdeithasau.

Prif nod yr NPLD yw codi ymwybyddiaeth ar lefel Ewropeaidd o bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol. Nod arall yw hwyluso'r broses o gyfnewid arferion gorau ymysg llywodraethau, gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr, ymchwilwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Ewrop.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn  aelod llawn o'r NPLD. Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom groesawu'r rhwydwaith a phartneriaid o Gymru i gynhadledd yr NPLD a drefnwyd gennym ni i drafod pwysigrwydd gofodau uniaith i gynhaliaeth ieithoedd lleiafrifedig.

**Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rydym ni'n parhau i gadeirio grŵp gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae sefyllfa'r holl ieithoedd a gynrychiolir gan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn amrywio'n fawr (Cymraeg, Cernyweg, Gaeleg yr Alban, Sgoteg, Manaweg, Sgoteg Wlster, Gwyddeleg, Guernesiais a Jèrriais) ond mae ganddynt lawer iawn yn gyffredin hefyd. Rydym wedi parhau i fanteisio ar y fforwm hwn i drafod, i rannu arferion da ac arbenigedd gyda phobl o wahanol gefndiroedd.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, fe wnaeth y grŵp barhau i gyfarfod ar-lein i weithredu ei rhaglen waith. Cafwyd cyflwyniadau ar amrywiol feysydd gan gynnwys rhaglen dysgu ar-lein arloesol e-sgoil yr Alban a hanes sut y'i mabwysiadwyd yng Nghymru. Hefyd, cafwyd cyflwyniad ar bolisi seilwaith ieithyddol Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu arferion da ac i ysbrydoli eraill i fuddsoddi yn y maes.

Ailgydiodd y grŵp hefyd yn ei arfer o deithio ar draws yr aelod-weinyddiaethau wedi'r pandemig yn ystod y flwyddyn adrodd. Teithiodd y grŵp gydag amrywiol artistiaid i Connemara yn Iwerddon yn ystod mis Hydref 2022 i graffu'n fanylach ar rôl diwylliant yn cefnogi ein hieithoedd. Yn ystod yr ymweliad, cafwyd ymweliadau a chyflwyniadau diddorol ym maes seilwaith ieithyddol, cynyddu defnydd iaith pobl ifanc a rôl y cyfryngau. Daeth yr ymweliad i glo gyda chyfarfod â Gweinidog Iaith Llywodraeth Iwerddon a chyngerdd gan yr artistiaid teithiol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hefyd, parhaodd y grŵp i gyhoeddi cyfres o adnoddau defnyddiol ar ei gwefan, gan eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Y nod yw tynnu sylw eang at yr ieithoedd ac ennyn diddordeb y cyhoedd ynddynt. Mae'r adnoddau a grëwyd ac a ddiweddarwyd gan y grŵp yn cynnwys: geirfaoedd thematig yn holl ieithoedd y Cyngor, y tro hwn ar thema y blynyddoedd cynnar a hefyd diwylliant. Diweddarwyd hefyd yr adnoddau sydd ar-lein i gefnogi pobl i ddysgu'r ieithoedd a rhestr o ganeuon yn yr holl ieithoedd ar Spotify.

Fe wnaeth grŵp hefyd barhau i gyfarfod yn anffurfiol yn ôl y galw i rannu arferion da ar unrhyw feysydd a gododd er mwyn cynghori ar bolisïau iaith yr aelod-weinyddiaethau unigol. Yn ystod y flwyddyn, bu trafod ar ail gartrefi, deddfwriaeth iaith a chyhoeddi llyfrau mewn ieithoedd lleiafrifol.

**Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyfrannodd swyddogion Llywodraeth Cymru at waith UNESCO wrth iddynt baratoi ar gyfer Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i godi proffil y Gymraeg a rhannu arferion gorau gydag eraill ledled y byd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn "*genedl sy'n gyfrifol ar lefel byd eang*". Mae'r gwaith hwn yn cynnwys parhau i feithrin a chryfhau partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Ar y cyd â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, fe wnaethom lansio blwyddyn gyntaf y ddegawd gyda phrosiect Gwrando. Mae'n canolbwyntio ar y grefft o wrando ar y doethinebau sy'n perthyn i ieithoedd brodorol a chymunedau sydd mewn perygl a'r tir y maent yn byw ynddo.

**Cymru yn Ffrainc**

Mae Is-adran Cymraeg 2050 yn aelod o grŵp llywio Blwyddyn Cymru yn Ffrainc 2023 y Llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn, cyfrannodd at y gwaith o ddatblygu strategaeth i sicrhau bod Cymru yn cael ei harddangos fel cenedl ddwyieithog hyderus a chreu ffrwd waith i gefnogi ieithoedd lleiafrifol Ffrainc, Llydaweg yn benodol. Mae ystod eang o weithgareddau ar y gweill ar gyfer 2023 mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Byddwn yn adrodd ar lwyddiant y gwaith hwn yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llydaw**

Bu swyddogion yn cyfrannu at ddatblygiad Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llydaw yn ystod y flwyddyn gyda'r nod o gryfhau cysylltiadau, rhannu arferion gorau a chefnogi ein gilydd ar ein teithiau iaith.

**European Charter Classroom Activities (ECCA)**

Mae Llywodraeth Cymru yn un o bartneriaid strategol allweddol y prosiect hwn sy'n ceisio ennyn ymdeimlad o falchder pobl ifanc yn eu hieithoedd lleiafrifol. Byddwn yn adrodd ar lwyddiant y gwaith hwn yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

**Digwyddiadau rhyngwladol**

Mae'r gwaith o weithredu'r *Strategaeth Ryngwladol* wedi parhau i gynnwys gweithgarwch i hyrwyddo'r Gymraeg dramor. Fe wnaeth ein swyddfeydd tramor hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol 2022-23, gyda Dydd Gŵyl Dewi yn ganolbwynt ar gyfer arddangos yr iaith i gynulleidfa ryngwladol. Ceir enghreifftiau isod o weithgareddau a gynhaliwyd ledled y byd i hyrwyddo'r Gymraeg:

**Ewrop**

- Ym mis Mai 2022, cynhaliodd ein swyddfa ym Mrwsel Gynulliad Cyffredinol blynyddol y Rhwydwaith ar gyfer Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol a hefyd

digwyddiad cyhoeddus ar integreiddio ieithoedd lleiafrifol mewn modelau addysg. Amlinellodd panel trafod y llwyddiannau a welwyd yng Nghymru, yn ogystal â'r cynlluniau ar gyfer camau yn y dyfodol. Fe wnaeth y digwyddiad hyrwyddo fideo Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ar gyfer Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig a neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd.

- Mewn cydweithrediad â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, perfformiodd sawl artist Cymraeg yng Nerbyniad Haf Brwsel lle bu'r Prif Weinidog yn siarad am bwysigrwydd iaith a diwylliant.
- Cynhaliodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg dderbyniad Dydd Gŵyl Dewi yn Nulyn lle trafododd bwysigrwydd iaith, diwylliant a hunaniaeth. Fe wnaeth ein tîm yn Iwerddon gefnogi'r Urdd i lansio eu gweithdy Chwarae yn Gymraeg Ewropeaidd cyntaf, ac roedd y Deialog Dewi Pádraig cyntaf ym mis Mai 2022 yn llwyfan i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru lansio eu prosiect Gwrando.
- Ym mis Ebrill 2022, trefnodd ein tîm yn Ffrainc**,** ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, yr ail Ŵyl Ffilmiau Geltaidd ym Mharis, gan hyrwyddo diwylliant ac ieithoedd Celtaidd dan nawdd dirprwyaeth y DU i UNESCO.

**Y Dwyrain Canol**

- Yn 2023, cynhaliwyd digwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Qatar a'r Emiradau Arabaidd Unedig a oedd yn gyfle i arddangos y Gymraeg. Yn Doha, rhoddodd y canwr Cymreig, Sywel Nyw, berfformiad yn y Gymraeg a pherfformiodd Cerddorfa Ffilharmonig Qatar anthemau cenedlaethol Qatar a Chymru. Yn Dubai, fe wnaeth y gantores o Gymru, Eve Goodman, berfformio yn y Gymraeg a chydweithio â chantorion Academi Celfyddydau Perfformio Sharjah i berfformio "Calon Lân".

**Gogledd America**

- Fel rhan o'r flwyddyn Cymru yng Nghanada, roedd presenoldeb Cymreig cryf yn BreakOut West yn Calgary. Ar y cyd â FOCUS Cymru, cefnogodd ein tîm dri chyngerdd arbennig i dynnu sylw at artistiaid o Gymru a chynnal sesiwn gerddoriaeth gydag artistiaid Cymraeg ac ieithoedd brodorol. Ar Ddiwrnod Gwirionedd a Chymodi, roedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ac aelod o'r band Cymraeg Adwaith yn rhan o banel i drafod amrywiaeth ieithyddol ac ieithoedd brodorol yn y diwydiant cerddoriaeth.
- Ym mis Mai 2022, fe wnaeth ein swyddfa yn Washington weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Llysgennad EF i'r UDA a siaradodd yn Gymraeg, i hyrwyddo neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd. Cafodd rhaglen S4C Cymru, yr Urdd ac Alabama, a wnaeth ddilyn taith yr Urdd i Alabama, ei chefnogi gan ein timau yn yr Unol Daleithiau.
- Ar ddechrau 2023, cefnogodd ein timau yn yr Unol Daleithiau ddigwyddiad arddangos gan FOCUS Cymru yn South by Southwest yn Austin, Texas, lle perfformiodd saith artist o Gymru. Fe wnaethant hefyd gefnogi Cyfarfod Ieithoedd Brodorol a digwyddiad gan Cymru Greadigol.

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd**

Ers 1922 yn ddi-dor, mae'r broses flynyddol ar Fai 18 o anfon neges ar ran pobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Thema Neges Heddwch ac Ewyllys da y Canmlwyddiant oedd yr Argyfwng Hinsawdd. I ddathlu'r canfed neges o'i fath, lansiwyd y neges o Ganolfan Heddwch Nobel yn Oslo yng nghwmni'r Prif Weinidog. Mae hybu heddwch rhwng gwledydd a darparu cymorth dyngarol i helpu eraill wedi bod wrth galon gwerthoedd yr Urdd dros y ganrif ddiwethaf, ac ar 18 Mai 2022 gofynnodd pobl ifanc Cymru i ni i gyd wrando a gweithredu ar newid hinsawdd a galw am newid cadarnhaol ledled y byd. Maent yn esiampl wych o'r dinasyddion byd-eang yr ydym yn ceisio eu creu yng Nghymru.

Cyfieithwyd y neges i dros 101 o ieithoedd ac fe'i rhannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol mewn 82 o wledydd ledled y byd. Roedd y cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn 30m ac fe'i rhannwyd gan enwogion fel Gareth Bale, Michael Sheen a Geraint Thomas.

**Twristiaeth a marchnata**

Un o 3 thema allweddol *Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru 2023-2030*, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2022, yw Dilysrwydd. Dylai digwyddiadau yng Nghymru fod â Chymreictod penodol ac unigryw. I gefnogi hyn, anogir yr holl ddigwyddiadau sy'n derbyn cyllid grant Digwyddiadau Cymru Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull creadigol a chynhwysol o ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys mynd ati i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg mewn gweithgareddau a ariennir lle bynnag y bo modd. Cynigir cyngor ac arweiniad i sicrhau bod y rhain yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan gynnwys cyfeirio at wasanaeth cyfieithu a chyngor Helo Blod Llywodraeth Cymru.

Effeithiodd pandemig COVID-19 ar y diwydiant digwyddiadau yn sylweddol yn ystod 2020-22, gan nad oedd modd cynnal y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn. Wrth i'r diwydiant ddod allan o'r pandemig, fe wnaethom gefnogi Gŵyl y Triban ym mis Mehefin 2022 fel rhan o ddathliadau Canmlwyddiant Eisteddfod yr Urdd, ac ym mis Medi croesawyd sioe stadiwm fawr World Wrestling Entertainment (WWE) i'r DU am y tro cyntaf ers dros 30 mlynedd. Fe wnaeth Brwydr yn y Castell gynnig cyfleoedd unigryw i arddangos y Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd er enghraifft drwy eu cydweithrediad â Duolingo i gynhyrchu canllaw i eiriau ac ymadroddion eiconig WWE ochr yn ochr â'u cyfieithiadau Cymraeg.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau unigryw hyn, mae amrywiaeth o ddigwyddiadau cartref blynyddol hefyd yn darparu llwyfan rheolaidd i arddangos y Gymraeg, fel Tafwyl a gefnogwyd unwaith eto gan Digwyddiadau Cymru yn 2022 a gŵyl gerddoriaeth FOCUS Cymru yn Wrecsam lle cafodd artistiaid Cymraeg gyfle i berfformio gerbron cynulleidfa o rhyw 10,000 – tua 30% ohonynt o'r tu allan i Gymru.

## 12. Technoleg ddigidol

Rydym wedi hir gydnabod yr angen i fuddsoddi mewn deallusrwydd artiffisial i'r Gymraeg. Yn wir, mae'n un o dair prif thema ein *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg* a gyhoeddwyd yn 2018. Athroniaeth y cynllun hwnnw yw lle bod Llywodraeth Cymru'n talu am elfen technoleg iaith, y dylai'r elfen honno fod ar gael yn rhad ac am ddim o dan drwydded agored addas i'w defnyddio ac i'w hailddefnyddio er budd ein hiaith.

Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi bod yn ariannu datblygiadau AI Cymraeg gan Brifysgol Bangor:

- Bellach mae Macsen, sgwrsfot Cymraeg, yn gallu cyfieithu sgwrs Saesneg i'r Gymraeg.
- Cynhyrchodd Brifysgol Bangor y *trawsgrifiwr* Cymraeg, sy'n gallu helpu cynhyrchu isdeitlau i fideos Cymraeg – mae eu lleisiau synthetig bellach yn rhai dwyieithog, sy'n cadw cysondeb wrth droi o naill iaith i'r llall.
- Gweithiodd Prifysgol Bangor ar dagio rhannau ymadrodd geiriau i greu casgliad bron i 10,000 brawddeg, rhyddhau'r lemateiddiwr fel y gallwch ei lawrlwytho o dan drwydded agored, a diwygio'r Parswr Dibyniaethau, sy'n dangos ffurf a pherthynas geiriau mewn brawddegau Cymraeg.
- Cyrhaeddodd Cysgliad, offeryn gwirio gramadeg a sillafu, gyfanswm o tua 12,000 o lawrlwythiadau. Mae modd i unrhyw unigolyn, weithle addysg neu drydydd sector, neu sefydliad â llai na 10 aelod o staff, i lawrlwytho Cysgliad am ddim nawr.
- Ers diwedd 2022, mae'r pwyslais ym myd rhyngwladol AI wedi symud o ymateb i gwestiynau i gynhyrchu cynnwys o'r newydd fel ChatGPT. Mae lleisiau dwyieithog Cymraeg / Saesneg newydd Prifysgol Bangor yn galluogi cwmnïau i gynnig gwasanaeth dwyieithog gyda'r un llais ar gael am ddim, a'r rheiny'n rhai Cymraeg a Saesneg yn yr un cyfleuster. Mae'r un peth nawr yn wir ar gyfer adnabod lleferydd dwyieithog.
- Cafodd hyn ei gyflwyno mewn Cynhadledd Technoleg a'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor ym mis Chwefror 2023 a drefnwyd drwy grant y Llywodraeth.

Gweithiodd Prifysgol Caerdydd hefyd gyda Phrifysgol Caerhirfryn i greu Thesawrws rhyngweithiol Cymraeg.

Mae Mapio Cymru, gyda chymorth y cyhoedd, wedi parhau i helpu i wella mapiau rhyngweithiol Cymraeg ac mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod wrthi'n canolbwyntio ar enwau lleoedd Cymraeg eleni fel rhan o'i gwaith gyda chymuned Wicipedia Cymraeg. Mae'r gwaith hwn yn gweld enwau lleoedd yn cael eu rhoi ar ffurf Wikidata er mwyn i erthyglau am leoedd yng Nghymru gael eu creu gyda'r lluniau priodol wrth law. Mae dros 40,000 o gofnodion yn rhan o'r map erbyn hyn.

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022, buom yn cydweithio â Chanolfan Gwasanaethau Digidol Cymru ac eraill i wneud gwaith ymchwil gydag Eisteddfotwyr er mwyn deall beth fyddai'n helpu siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio mwy o wasanaethau yn Gymraeg. Cafodd y canlyniadau eu trafod mewn sesiwn ar y maes yng nghwmni Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

- Dyma restr o adnoddau technoleg Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Rydym hefyd wedi datblygu canllaw i gwmnïau a datblygwyr i'w helpu i gynllunio gwasanaethau digidol sy'n gweithio'n ddwyieithog.

## 13. Seilwaith ieithyddol

Mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg er mwyn hwyluso'r daith at filiwn o siaradwyr ac i gynyddu defnydd iaith.

Adnoddau seilwaith ieithyddol yw'r pethau sy'n ein helpu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd: geiriaduron, adnoddau terminoleg, corpora, a gwaith ymchwil a safoni.

Rydym ni'n ariannu nifer o brosiectau yn y maes yn uniongyrchol, gan gynnwys Geiriadur Prifysgol Cymru a'r Termiadur Addysg. Mae nifer o'r prif adnoddau eraill hefyd yn derbyn arian cyhoeddus drwy wahanol asiantaethau.

Ar sail yr ymgynghoriad ar bolisi seilwaith ieithyddol drafft a gynhaliwyd yn 2021, buom yn datblygu ein Polisi Seilwaith Ieithyddol terfynol yn ystod y flwyddyn adrodd ac fe'i cyhoeddwyd ar 27 Mehefin, 2023. Prif nod y polisi yw ei gwneud hi'n haws i bobl o bob cefndir ddefnyddio'r Gymraeg – yn weithleoedd, yn blant ysgol, yn athrawon, yn siaradwyr newydd neu'n siaradwyr hyderus – drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod ble i droi i gael gafael ar adnoddau neu ffynonellau ieithyddol.

Er mwyn gyrru'r polisi hwn yn ei flaen, yn ystod y flwyddyn dan sylw fe wnaethom greu Uned newydd o fewn Is-adran Cymraeg 2050 i wneud y gwaith seilwaith hwn, yn ogystal â gwaith ar enwau lleoedd. Mae'r Uned eisoes wedi dechrau ar y gwaith o sefydlu gwefan newydd hawdd i'w chyrraedd, hawdd i'w defnyddio i bawb sydd am ddefnyddio'r Gymraeg – gwefan sy'n esbonio ac yn cynnig mynediad hwylus at adnoddau fel y prif eiriaduron a chronfeydd termau, yn ogystal ag adnoddau fel corpora, i gyd mewn un man.

Yn ystod 2022-23, buom yn parhau i gynnal panel i fynd i'r afael â materion orgraffyddol o dan gadeiryddiaeth Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd. Drwy gynnwys rhai o'r prif ddarparwyr adnoddau seilwaith yn y gwaith, y gobaith yw y bydd hyn yn gam tuag at sicrhau rhagor o gysondeb er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr fynd ati i ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.

Yn ogystal â hyn, daeth gwaith y grŵp a sefydlwyd i safoni termau cydraddoldeb ym maes hil ac ethnigrwydd, dan gadeiryddiaeth yr Athro Delyth Prys o Brifysgol Bangor, i'w derfyn. Nod y gwaith hwn oedd ymgynghori â rhanddeiliaid ac unigolion allweddol i greu rhestr gyfoes o dermau ar gyfer y maes er mwyn hwyluso trafodaethau yn Gymraeg. Fe gyhoeddom y rhestr hon o dermau ar wefan Llywodraeth Cymru a maent hefyd ar gael yng nghronfa derminoleg Llywodraeth Cymru, TermCymru ac ym Mhorth Termau Prifysgol Bangor. Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan randdeiliaid yn nodi eu bod bellach yn

teimlo'n hyderus i drafod gwaith gwrth-hiliaeth yn y Gymraeg mewn cyd-destunau gwaith a phersonol.

Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn datblygu cynigion polisi ar gyfer cydlynu'r gwahanol elfennau'n fwy effeithiol a darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr.

**Cyfieithu**

Er mwyn cefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i fodloni'r galw am eu gwasanaethau, rydym yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dyma'r gymdeithas broffesiynol sy'n cynnal, yn sicrhau ac yn hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, gan wella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

- Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd gan y Gymdeithas 396 o aelodau.
- Cynhaliwyd diwrnod i'r aelodau ar 28 Hydref ym Maentwrog – mae'n gyfle i gefnogi datblygiad proffesiynol y aelodau, i hwyluso cydweithio, ac i rannu profiadau ac arfer da.
- Roedd y Gymdeithas hefyd yn bartner yng nghystadleuaeth cyfieithu 19-25 oed Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**Cyfieithu ar y pryd ym Microsoft Teams**

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwelwyd penllanw ein partneriaeth â chorfforaeth Microsoft i lansio cyfieithu ar y pryd (gan fodau dynol) mewn cyfarfodydd wedi'u trefnu ymlaen llaw yn Microsoft Teams. Dyma enghraifft lle mae Cymru'n arwain y byd. Mae'r cyfleuster bellach ar gael yn rhad ac am ddim i bawb sydd â thrwydded Teams ac wedi cynyddu faint o Gymraeg y mae modd i ni ei defnyddio ar-lein yn y Llywodraeth a thu hwnt. Ceir rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau i ddefnyddio'r cyfleuster ar ein gwefan. Diolch i'r gwaith yng Nghymru, mae'r cyfleuster ar gael i ieithoedd eraill ledled y byd ac mae modd cynnal cyfarfod yn cynnwys hyd at 16 pâr ieithyddol.

**Enwau lleoedd**

Yn ein *Rhaglen Lywodraethu*, rydym wedi ymrwymo i weithio i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg. Cadarnhawyd y bwriad hwn drwy gynnwys ymrwymiad i "*Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo*" yn y *Cytundeb Cydweithio*.

Cafodd ein camau cychwynnol yn hyn o beth eu datgan yn ein *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, a'u hail-ddatgan yn ein *Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin eleni:

- O ran enwau daearyddol, yn ogystal â chynnal ymchwil i ddeall yn well y prosesau y tu ôl i newidiadau, gweithio gyda phartneriaid a busnesau, yn ogystal â chartograffwyr amlwg, i warchod enwau daearyddol yn well yn yr amgylchedd naturiol.
- Archwilio sut y bydd awdurdodau lleol yn cyflawni eu rôl yn y maes gwaith hwn i sicrhau bod pob cam posibl yn cael eu cymryd i warchod enwau lleoedd.

- Ystyried y defnydd diweddar o gyfamodau i warchod enwau tai ac archwilio sut y gellir defnyddio'r rhain yn ehangach yn y dyfodol.
- Archwilio'r defnydd o becynnau trawsgludo fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o werth enw eiddo penodol.
- Ystyried ffyrdd newydd o godi ymwybyddiaeth o Restr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru a'i hyrwyddo.
- Cadw golwg ar ddatblygiadau mewnol ym maes wardiau etholaethol ac enwau etholaethau newydd y Senedd ar gyfer etholiad 2026, a chynghori lle bo'n briodol.
- Parhau i ystyried yr hyn sy'n digwydd yn rhyngwladol er mwyn cadw golwg ar arferion gorau, gan barhau i wneud defnydd o fforymau fel y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD).

Nod y camau hyn yw mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg gyda dwysedd uwch o ail gartrefi. Bydd yr uned seilwaith ieithyddol yn gyfrifol am y camau hynny, sydd â'r nod o "*ddiogelu etifeddiaeth ieithyddol Gymraeg ein hamgylchedd adeiledig a'n topograffi*."

Mae Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, sef yr unig gofnod statudol o enwau lleoedd hanesyddol yn y DU, eisoes yn cael ei chynnal gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Un o'i phrif amcanion yw codi ymwybyddiaeth o'r cyfoeth o enwau hanesyddol yng Nghymru a'u pwysigrwydd fel rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol. Sefydlwyd y rhestr yn 2017, ac yn 2021 sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu ei gwaith hyd yn hyn ac i lunio argymhellion at y dyfodol. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi yn ystod haf 2022.

Yn achos enwau tai, enwau daearyddol ac enwau hanesyddol, mae dirfawr angen rhagor o dystiolaeth er mwyn datblygu cynigion polisi cadarn. I'r perwyl hwnnw, ddechrau 2023, fe wnaethom gomisiynu ymchwil i ddysgu mwy am sut, pam a lle mae enwau lleoedd yn newid, i'n galluogi i ddatblygu ymyraethau polisi wedi'u targedu i warchod enwau ym mhob rhan o Gymru. Bydd ymchwil am y prosesau a ddefnyddir i newid enwau'n caniatáu i ni ganfod atebion sy'n gweithio. Felly ynghyd â'r camau tymor byr a nodir yn y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* a'r *Polisi Seilwaith Ieithyddol*, byddwn yn blaenoriaethu'r ymchwil hwn fel sylfaen ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Sirol Enwau Lleoedd, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr, gyda'r nod o:

- Rannu gwybodaeth.
- Canfod bylchau yn y ffordd o ymdrin ag enwau lleoedd, a chyfleoedd i gydweithio.
- Cefnogi ein gilydd i geisio canfod datrysiadau ymarferol i atal enwau Cymraeg rhag cael eu disodli.
- Rhannu arferion da, fel bod enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio mewn un sefydliad yn gallu cael eu mabwysiadu, lle bo'n briodol, mewn sefydliad arall.

## 14. Cynllunio ieithyddol

Mae gyda ni weledigaeth fawr i'n hiaith ni, a chynlluniau mawr i droi'r weledigaeth honno yn realiti. Mae'r cynlluniau hynny'n gorfod cael eu rhoi ar waith ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru. Yn hynny o beth, mae'r holl waith a drafodir yn yr adroddiad hwn felly'n dod o dan ambarél cynllunio ieithyddol.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o strwythurau i roi'r meddylfryd holistaidd ar waith, neu i'w brif-ffrydio ar draws y maes polisi cyhoeddus.

### Bwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050*

Uwch swyddogion o bob cwr o'r Llywodraeth yw aelodau Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050. Diben y Bwrdd yw craffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu *Cymraeg 2050*. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd gyfarfod bob tymor i drafod materion megis y Bil Addysg Gymraeg, canlyniadau Cyfrifiad 2021 a defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y Llywodraeth.

### Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o dan adran 149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Cyngor wedi parhau i gyfarfod o leiaf unwaith y tymor i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â *Cymraeg 2050.* Bu'r Cyngor yn trafod, yn ystyried yn ogystal â chynghori'r Gweinidog ar amrywiol faterion sy'n effeithio ar faes polisi y Gymraeg, er enghraifft y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*, y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, fframwaith *Mwy na geiriau*, *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a chanlyniadau Cyfrifiad 2021 o ran y Gymraeg**.**

### Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg

Nod Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg yw tynnu ynghyd amrywiol bartneriaid sy'n gweithio ym maes cynllunio ieithyddol i rwydweithio, rhannu gwybodaeth, cynnal trafodaethau a rhannu syniadau. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd trafodaethau ar amrywiol feysydd polisi iaith gan gynnwys y rhaglen Trosglwyddo, prosiect Gweithio yn y Gymuned yr Eisteddfod Genedlaethol, y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, canlyniadau Cyfrifiad 2021, ac amrywiaeth a chydraddoldeb.

## 15. Gwerthuso ac ymchwil

Cyhoeddwyd *Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso Cymraeg 2050* ym mis Tachwedd 2022. Mae'r Fframwaith yn cynnig arweiniad ynghylch casglu tystiolaeth a data, asesu cynnydd, a gwerthuso effaith *Cymraeg 2050* wrth i'r strategaeth gael ei rhoi ar waith. Bwriedir i'r Fframwaith lywio gwaith dadansoddi Llywodraeth Cymru, a'r broses o sicrhau fod gweithgarwch ar draws meysydd polisi wedi ei alinio ag amcanion y strategaeth. Bwriedir iddo hefyd gefnogi proses gydweithredol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â sefydliadau a chyrff eraill sy'n

cynnal gwaith ymchwil a gwerthuso, i ddatblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer *Cymraeg 2050*.

Drwy gydol y flwyddyn, datblygwyd ymhellach y gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg yng ngwaith ymchwil a gwerthuso'r Llywodraeth ar draws meysydd polisi.

Cyhoeddwyd y data cyntaf o Gyfrifiad 2021 ar y Gymraeg yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2022. Gan weithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyhoeddodd ystadegwyr Llywodraeth Cymru fwletin ystadegol yn crynhoi'r canlyniadau am sgiliau Cymraeg (y gallu i ddeall Cymraeg llafar, siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg) pobl tair oed neu'n hŷn sy'n byw yng Nghymru. Ymatebodd y Gweinidog i'r canlyniadau hyn mewn datganiad llafar ym mis Ionawr 2023.

Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020, ac mae detholiad o'r canfyddiadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn gan gynnwys data ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022. Ers diwedd y flwyddyn ariannol, rydym hefyd wedi cyhoeddi bwletin ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Byddwn yn trafod y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adroddiad blynyddol nesaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canlyniadau sy'n weddill am y defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau mewn bwletin ystadegol ar wahân. Byddwn yn cyfuno data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 lle bo'n berthnasol.

Rydym hefyd wedi bod yn cyhoeddi amcangyfrifon o allu'r boblogaeth yn y Gymraeg o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ein gwefan bob chwarter. Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r prif ffynonellau data gweinyddol ac arolygon a ddefnyddir i lunio ystadegau ar y Gymraeg. Cyhoeddwyd cynllun gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ebrill 2023 a byddwn yn adrodd ar gynnydd y cynllun gwaith yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

# Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn dyst i'r holl waith a wnaed i fwrw ymlaen gyda strategaeth *Cymraeg 2050*, gan y Llywodraeth a'i hamrywiol bartneriaid, yn ystod 2022-23. Mae oedi a chraffu ar y gwaith hwn ar ddiwedd blwyddyn yn hollbwysig wrth i ni werthuso ein cynnydd yn erbyn ein targedau i ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg a chyrraedd y miliwn erbyn 2050.

Nawr bod canlyniadau Cyfrifiad 2021 o ran y Gymraeg yn gyhoeddus, byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio ein rhaglen waith dros y blynyddoedd sydd i ddod. Fel sy'n glir o'r adroddiad blynyddol hwn, byddwn yn parhau gyda ffocws penodol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy gynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, gan gynnwys ehangu ac adeiladu ar y gyfundrefn trochi hwyr yn ogystal â chychwyn y gwaith o atgyfnerthu sut mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu mewn cyd-destun cyfrwng Saesneg. Mae'r gweithlu addysg, iechyd, a'r blynyddoedd cynnar yn hollbwysig ac yn allwedd i lwyddiant cynyddu nifer y siaradwyr. Yn ogystal, bydd y ffocws ar gynnal cymunedau Cymraeg yn parhau'n ganolog i'n hymdrechion. Bydd gweithredu'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn parhau'n flaenoriaeth yn ogystal ag ehangu gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i ganolbwyntio ar gynyddu defnydd iaith yn yr ardaloedd twf. Byddwn hefyd yn canolbwyntio'n benodol o'r newydd ar dechnoleg iaith.

Er yr heriau sydd wedi'u cyflwyno gan ganlyniadau'r cyfrifiad, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud ar draws bob sector. Mae'r naratif o gwmpas y Gymraeg yn sicr wedi newid ac mae yna gefnogaeth fwy nag erioed i'r iaith. Roedd y genedl gyfan yn siomedig â data'r cyfrifiad ac mae gofyn i ni gydio yn yr egni, y brwdfrydedd a'r awydd sydd o'n cwmpas i weithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth i'n hiaith.